	Polisi Diopgelwch Ar-lein Online Safety Policy	Polisi / Policy 4

Gydag atodiadau – diweddariad Awst 2026

Tabl Cynnwys

Rhagarweiniad 3

Pwrpas y templedi 3

Disgwyliadau a chyd-destun statudol 3

Defnyddio'r templedi 4

Sgôp y Polisi Diogelwch Ar-lein 6

Datblygu, monitro ac adolygu'r polisi 7

Amserlen gymeradwyo, monitro ac adolygu 7

Polisi ac arweinyddiaeth 8

Cyfrifoldebau 8

Grŵp Diogelwch Ar-lein 11

Polisi 13

Polisi Diogelwch Ar-lein 13

Defnydd derbyniol 13

Adrodd ac ymateb 18

Ymateb i weithredoedd dysgwyr 21

Ymateb i weithredoedd staff 24

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) 25

Addysg 27

Rhaglen Addysg Diogelwch Ar-lein 27

Staff 28

Llywodraethwyr 29

Rhanddeiliaid Allanol 30

Gweithio gyda Rhieni a Gofalwyr 30

Y Gymuned Ehangach ac Asiantaethau 31

Technoleg 32

Hidlo a Diogelu Ar-lein 32

Diogelwch Technegol 33

Seiberddiogelwch 33

Diogelu Data 34

Ymarfer Technoleg 34

Rheoli Dyfeisiau 35

Cynnwys Digidol 35

Cyfathrebu Ar-lein Cyhoeddus 36
Canlyniadau 37
Rhestr Atodiadau 38
Atodiad A1- Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Dysgwr – dysgwyr hŷn 40
Atodiad A2 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol – dysgwyr cynradd 43
Atodiad A3 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol – dysgwyr iau 46
Atodiad A4 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhiant / Gofalwr 48
Atodiad A5 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Staff (a Gwirfoddolwyr) 54
Atodiad A6 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Defnyddwyr Cymunedol 58
Atodiad A7 – Datganiad Polisi Diogelwch Ar-lein 60
Atodiad A8 – Templed Polisi Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (Newydd) 64
Atodiad A9 – Templed Polisi Camddefnyddio Cyfrifiaduron a Dewisiadau Seiber 67
Atodiad A10 Ymateb i ddigwyddiadau camddefnyddio – siart llif 70
Atodiad A11 - Cofnod o adolygu dyfeisiau / gwefannau (ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnyddio) 71
Atodiad A12 – Log Adrodd 72
Atodiad B1 – Log Archwilio Anghenion Hyfforddiant 73
Atodiad C1 – Templed Polisi Hidlo Cynnwys y We a Diogelu Ar-lein 74
Atodiad C2 - Polisi Templed Diogelwch Technegol 77
Atodiad C3 - Templed Polisi Seiberddiogelwch 78
Atodiad C4 - Templed Polisi Diogelwch Data 80
Atodiad C5 – Templed Polisi Cyfathrebu Ar-lein Cyhoeddus 86
Atodiad C6 - Templed Polisi Diogelwch Ar-lein Ysgol – Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol) mewn Ysgolion 90
Polisïau cysylltiedig 93
Deddfwriaeth 108
Dolenni i sefydliadau neu ddogfennau eraill 115

Rhagarweiniad

Cafodd y templedi Polisi Diogelwch Ar-lein hyn eu diweddaru a'u cyhoeddi yn Awst 2026. Maen nhw wedi cael eu hail-ysgrifennu'n llwyr gyda ffocws mwy pwrpasol, iaith fwy hygyrch ac yn llai o ran hyd. Argymhellir bod ysgolion yn teilwrio'r polisi newydd hwn i'w hanghenion yn lle ceisio golygu'r fersiwn flaenorol.

Pwrpas y templedi

Dyluniwyd y templedi polisi hyn i helpu arweinwyr ysgolion a chyrff llywodraethu i ddatblygu Polisi Diogelwch Ar-lein sy'n addas i bwrpas, cymesur ac yn rhan annatod o ddull ysgol-gyfan o weithio. Diben y templedi yw cyd-fynd ochr yn ochr, a bod yn gyson, â pholisïau allweddol gan gynnwys Diogelu, Ymddygiad a Gwrth-Fwlio.

Mae diogelwch ar-lein yn rhan o ddyletswydd gofal ehangach ysgol. Drwy Bolisi Diogelwch Ar-lein effeithiol, mae ysgolion yn cwrdd â'u rhwymedigaethau statudol i ddiogelu dysgwyr rhag niwed o fewn a thu allan i'r ysgol, gan gryfhau sefyllfa'r ysgol o ran atebolrwydd a her gyfreithiol a allai godi o ddefnyddio technoleg ddigidol.

Mae'r templedi'n disgrifio'r datganiadau polisi sy'n hanfodol i ymarfer da ym marn Llywodraeth Cymru, ynghyd â datganiadau dewisol y gall ysgolion eu mabwysiadu i adlewyrchu eu cyd-destun ac anghenion.

Disgwyliadau a chyd-destun statudol

Rhaid teilwrio Polisi Diogelwch Ar-lein effeithiol i anghenion pob ysgol. Mae ymgynghori a thrafod gyda staff, dysgwyr, llywodraethwyr, a lle bo'n briodol gyda rhieni / gofalwyr, yn rhan hanfodol o ysgrifennu neu adolygu'r polisi.

Dylai ysgolion adolygu eu Polisi Diogelwch Ar-lein yn flynyddol o leiaf ac yn amlach os oes newidiadau sylweddol i dechnoleg, risgiau neu ymddygiad cysylltiedig â thechnoleg.

Mae arolygwyr Estyn yn craffu'n fwy manwl ar ymarfer diogelwch ar-lein ysgolion yn ystod arolygiadau, ac mae Deddf Gwrth-Derfysgaeth a Diogelwch 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag deunydd terfysgaeth ac eithafol ar y we.

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Ebrill 2022) yn nodi:

> 7.16 Bod angen i arolygwyr Estyn a'r awdurdod lleol wirio sut y mae sefydliadau addysgol yn adnabod, ymateb i, a datrys materion diogelwch ar-lein.

Mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein (Tachwedd 2022) yn nodi:

> Nod Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, yw helpu i warchod plant a phobl ifanc rhag cynnwys anghyfreithlon, niweidiol a ffug ar y we a hyrwyddo ymddygiad diogel, cyfrifol ac ystyrlon ar-lein.
>
> Gyda chymaint o agweddau ar ein bywydau bellach ynghlwm wrth dechnoleg mewn byd ar-lein, mae cefnogi ein plant a phobl ifanc i fod yn ddigidol wydn yn hollbwysig.
>
> Mae cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein yn eithriadol bwysig ac yn fater diogelwch traphwysig yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn ymrwymedig i feithrin a hyrwyddo defnydd diogel a phositif o dechnoleg i blant a phobl ifanc drwy greu 'pensaernïaeth' gadarn o gwmpas y plentyn, gyda gweithwyr proffesiynol medrus a theuluoedd sy'n deall sut i gefnogi plant yn eu bywydau ar-lein. Ein nod yw meithrin amgylchedd gwarchodol i'n plant a'n pobl ifanc drwy gefnogi teuluoedd, ymarferwyr, llywodraethwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i greu diwylliant lle y mae cadw plant yn ddiogel ar-lein yn gyfrifoldeb gan bawb.
>
> Nod y Cwricwlwm i Gymru yw darparu sgiliau digidol lefel uchel i'n dysgwyr i sicrhau bod pobl ifanc yn ddigidol gymwys a gwydn ac yn esblygu i fod yn feddylwyr beirniadol, creadigol a pharod i fentro.

Gyda'i ddatganiadau dewisol a'i nodiadau canllaw, mae'r portffolio templedi hwn yn hirach nag y mae'r ddogfen bolisi ei hun yn debygol o fod. Y pwrpas, wrth drafod y mater cymhleth a newidiol barhaus hwn, yw bod y ddogfen bolisi ei hun yn gryno a hawdd i bawb ei deall os am fod yn effeithiol a chael pawb i'w mabwysiadu. Mae'r templedi'n seiliedig ar bolisïau a gweithdrefnau ymarfer gorau presennol a gall ysgolion eu diwygio i fod yn addas i'w gofynion.

Defnyddio'r templedi

Gyda datganiadau dewisol a nodiadau canllaw, mae'r portffolio hwn yn hirach na'r polisi y bydd yr ysgol efallai'n ei gyhoeddi. Fe'i dyluniwyd i helpu ysgolion i fynd i'r afael â maes cymhleth sy'n newid yn barhaus, a chreu polisi terfynol cryno, hygyrch y mae pawb yn ei ddeall.

Rhan gyntaf y ddogfen yw'r prif Dempled Polisi Diogelwch Ar-lein. Mae'r atodiadau'n cynnwys templedi polisi pellach a mwy manwl, e.e. Cytundebau Defnydd Derbyniol. Gall ysgolion ddewis, addasu a mabwysiadu'r rhannau sydd fwyaf addas i'w hanghenion.

Polisi Diogelwch Ar-lein

[Enw'r ysgol]

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau cymuned yr ysgol (gan gynnwys staff, dysgwyr, gwirfoddolwyr, rhieni a gofalwyr, ymwelwyr a defnyddwyr o'r gymuned) sydd â mynediad at, ac yn defnyddio, systemau digidol yr ysgol, o fewn a thu allan i'r ysgol. Mae hefyd yn berthnasol i ddefnyddio technoleg ddigidol bersonol ar safle'r ysgol (os caniateir hyn).

Fersiwn: [?}

Dyddiad creu: [00/00/00]

Dyddiad adolygu nesaf: [00/00/00]

Sgôp y Polisi Diogelwch Ar-lein

Mae'r Polisi Diogelwch Ar-lein hwn yn disgrifio sut y bydd *(Enw'r Ysgol)* yn diogelu aelodau o'n cymuned ar-lein, yn unol â chanllawiau statudol ac ymarfer gorau. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r gofynion statudol ehangach sy'n goleuo'r polisi hwn.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau cymuned yr ysgol sy'n cael mynediad at neu'n defnyddio systemau digidol yr ysgol, gan gynnwys staff, dysgwyr, llywodraethwyr, gwirfoddolwyr, rhieni / gofalwyr, ymwelwyr a defnyddwyr o'r gymuned. Mae'n berthnasol i ddefnyddio systemau'r ysgol ar ac oddi ar y safle, ac i ddefnyddio dyfeisiau personol ar safle'r ysgol (os caniateir hyn).

Os yw pryderon neu ddigwyddiadau diogelwch ar-lein yn digwydd y tu allan i'r ysgol a'r ysgol yn gwybod amdanynt, bydd (*Enw'r Ysgol*) yn ymateb yn unol â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys polisïau Diogelu, Ymddygiad a Gwrth-fwlio'r ysgol. Lle bo'n briodol, bydd rhieni / gofalwyr yn cael eu hysbysu o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymddygiad ar-lein amhriodol y tu allan i'r ysgol.

Datblygu, monitro ac adolygu'r polisi

Datblygwyd y polisi hwn gan ***[Enw'r grŵp / pwyllgor]*** (e.e. Grŵp Diogelwch Ar-lein), ar ôl ystyried arbenigedd a chyfrifoldebau ar draws yr ysgol. Mae'r aelodau'n cynnwys: (i'w diwygio fel bo angen)

- Pennaeth / uwch-arweinwyr
- Person Diogelu Dynodedig (DSP)
- Arweinydd Diogelwch Ar-lein (OSL)
- Staff (gan gynnwys staff addysgu, cymorth a thechnegol)
- Llywodraethwyr
- Rhieni / gofalwyr
- Defnyddwyr o'r gymuned (lle bo'n berthnasol)

Mae ymgynghori wedi bod gyda chymuned ehangach yr ysgol drwy wahanol gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i sicrhau bod pawb yn deall y polisi, ei fod yn ymarferol i'w weithredu ac yn gymesur.

Amserlen gymeradwyo, monitro ac adolygu

Cymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu ar: *[Dyddiad]*

Yn cael ei fonitro gan: *[Enw person / rôl / grŵp] e.e. DSP, OSL, SLT*

Pa mor aml fydd o'n cael ei fonitro: *[Cyfnod amser] (argymhellir yn flynyddol o leiaf)*

Adrodd i'r Corff Llywodraethu: *[Cyfnod amser] (argymhellir yn flynyddol o leiaf)*

Cylch adolygu'r polisi: adolygiad blynyddol neu'n gynt i ymateb i ddatblygiadau technolegol sylweddol, risgiau newydd neu ddigwyddiadau.

Dyddiad yr adolygiad nesaf a gynlluniwyd: *[Dyddiad]*

Uwchgyfeirio'n dilyn digwyddiad difrifol: bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i asiantaethau allanol perthnasol fel bo'n briodol, (e.e., *yr awdurdod lleol, Bwrdd Diogelu Plant, a / neu'r heddlu*).

Personau cyswllt / asiantaethau: *[Enwau a theitlau]*

Monitro effaith y polisi

Bydd yr ysgol yn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r polisi hwn ar sail tystiolaeth fel:

- Log digwyddiadau diogelwch ar-lein
- Cofnodion hidlo a monitro
- Data monitro gweithgareddau ar y rhwydwaith mewnol
- Arolygon / holiaduron (fel bo'n briodol) o: Dysgwyr, rhieni / gofalwyr, staff

Polisi ac arweinyddiaeth

Cyfrifoldebau

Mae diogelwch ar-lein yn gyfrifoldeb i bawb. Disgwylir i holl aelodau cymuned yr ysgol fodelu ymddygiad cyfrifol a diogel, adrodd pryderon yn ddiymdroi a dysgu o ddigwyddiadau ac ymarfer da. Mae'r rolau isod yn egluro atebolrwydd.

Pennaeth ac uwch-arweinwyr

Mae uwch-arweinwyr yn creu'r diwylliant a sicrhau bod systemau'n effeithiol. Yn unol â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, y DSP sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol dydd i ddydd.

Bydd uwch-arweinwyr yn:

- Sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'i dyletswydd gofal i ddiogelu, gan gynnwys diogelwch ar-lein.
- Gwybod am a dilyn y gweithdrefnau ar gyfer honiadau difrifol am staff (Pennaeth ac o leiaf un uwch-arweinydd).
- Sicrhau bod y DSP/OSL, y Partner Cymorth Technoleg Addysg / staff technegol a chydweithwyr perthnasol wedi eu hyfforddi ac yn gallu cyflawni eu rolau.
- Sicrhau bod plant yn cael eu haddysgu sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein, gan ddeall y bydd addysg effeithiol yn cael ei theilwrio i anghenion a ffactorau bregus penodol plant unigol.
- Rhoi trefniadau trosolwg a chymorth priodol yn eu lle ar gyfer monitro mewnol.
- Sefydlu a derbyn adroddiadau diogelwch ar-lein rheolaidd a gweithredu ar risgiau a themâu newydd.
- Gweithio gyda llywodraethwyr, y DSP a'r darparwr TG ar hidlo a monitro.

Llywodraethwyr

Mae'r Llywodraethwyr yn cymeradwyo'r Polisi Diogelwch Ar-lein a herio ei effeithiolrwydd, yn unol â disgwyliadau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Bydd y corff llywodraethu'n enwebu Llywodraethwr Diogelwch Ar-lein fydd yn:

- Cyfarfod yn rheolaidd â'r DSP/OSL.
- Ffrind beirniadol fydd yn herio a chefnogi uwch-arweinwyr i asesu risgiau seiber yn drylwyr a gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn.
- Derbyn crynodebau di-enw o ddigwyddiadau a monitro.
- Gwirio bod ymrwymiadau allweddol (e.e. addysg, adrodd, hyfforddiant staff) yn cael eu darparu.
- Drwy adolygiadau rheolaidd, asesu effeithiolrwydd hidlo a monitro gyda'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth, DSP a'r Partner Cymorth Technoleg Addysg, yn unol â'r Safonau Digidol Addysg.
- Adrodd i'r pwyllgor / grŵp llywodraethwyr perthnasol: *[Enw]*
- Cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelwch seiber a chynorthwyo trosolwg diogelwch seiber yr ysgol.
- Cymryd rhan yn y Grŵp Diogelwch Ar-lein (os oes un).

Mae Llywodraethwyr hefyd yn cefnogi rhieni / gofalwyr a rôl y gymuned mewn diogelwch ar-lein.

Person Diogelu Dynodedig (DSP)

Bydd y DSP yn:

- Arwain ar ddiogelu, gan gynnwys ar-lein, gyda chyfrifoldebau clir yn eu swydd-ddisgrifiad.
- Diweddaru eu gwybodaeth am risgiau ar-lein, hidlo / monitro a seiberddiogelwch yn barhaus.
- Cydlynu a chofnodi pryderon a digwyddiadau diogelwch ar-lein ac uwchgyfeirio a chyfeirio gan ddilyn y gweithdrefnau diogelu.
- Cynnal cyswllt â'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth, Llywodraethwr Diogelwch Ar-lein, Partner Cymorth Technoleg Addysg a phartneriaid allanol perthnasol fel bo angen.
- Adolygu patrymau digwyddiadau di-enw a gwybodaeth hidlo / monitro, a chadarnhau gwiriadau blynyddol o leiaf.
- Adrodd yn rheolaidd i'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth i ysgogi gwella parhaus ar draws polisïau ac ymarfer perthnasol, yn defnyddio tystiolaeth (e.e. data digwyddiadau, monitro, hunan-adolygiadau fel 360 safe Cymru).
- Sicrhau bod cymorth priodol ar gael i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Arweinydd Diogelwch Ar-lein (OSL)

Bydd yr OSL yn:

- Arwain y Grŵp Diogelwch Ar-lein a chefnogi'r DSP o ddydd i ddydd.
- Arwain ar ddatblygu ac adolygu dogfennau diogelwch ar-lein.
- Cydlynu ymwybyddiaeth, hyder staff ac adrodd parodrwydd drwy hyfforddiant priodol.
- Gweithio ag arweinwyr cwricwlwm i fapio, gwreiddio a gwerthuso addysg diogelwch ar-lein.
- Cynnal cyswllt â'r timau TG a bugeiliol / cymorth.
- Diweddaru eu gwybodaeth risg yn barhaus, o ran cynnwys, cyswllt, ymddygiad a masnach.

Arweinwyr Cwricwlwm

Bydd arweinwyr cwricwlwm yn gweithio gyda'r DSP/OSL i ddarparu rhaglen diogelwch ar-lein wedi'i chynllunio, drwy sianeli priodol, e.e. DCF, ARhP, meysydd eraill y cwricwlwm, gwasanaeth boreol / bugeiliol a rhaglenni cenedlaethol, e.e. Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel.

Staff Addysgu a Chymorth

Disgwylir i'r holl staff gynnal safonau proffesiynol ar-lein a chyfrannu at ddiwylliant diogelu cryf.

Bydd staff yn:

- Dilyn y Polisi Diogelwch Ar-lein, Polisi Diogelu, Polisi Diogelwch Technegol a llofnodi / cydymffurfio â'r Cytundeb AUA Staff.
- Cadw at ffiniau proffesiynol (gan gynnwys dysgu ar-lein / o bell).
- Goruchwylio defnydd dysgwyr o dechnoleg a dilyn y gweithdrefnau wrth ddelio â materion diogelwch ar-lein
- Gwreiddio diogelwch ar-lein lle bo'n briodol; addysgu sgiliau ymchwil, ymwybyddiaeth o hawlfraint a llên-ladrad.
- Herio ymddygiad ar-lein niweidiol ac adrodd pryderon yn ddiymdroi.
- Defnyddio dim ond gwasanaethau digidol a dulliau AI sy'n gymeradwy gan yr ysgol; diogelu data, cydymffurfio â GDPR y DU, gwirio allbwn AI am gywirdeb / tuedd cyn defnyddio.
- Cwblhau hyfforddiant cynefino a blynyddol, a diweddaru fel bo angen; cyfrannu at welliannau drwy rannu dysgu a phryderon.

Partner Cymorth Technoleg Addysg / staff technegol

Mae'r Partner Cymorth Technoleg Addysg yn cynorthwyo arweinwyr a'r DSP i gwrdd â'r Safonau Digidol Addysg. Os prynir gwasanaethau o'r tu allan, bydd yr ysgol dal yn atebol.

Bydd y Partner Cymorth Technoleg Addysg / staff technegol yn:

- Cynnal seilwaith diogel a di-risg a rheoli mynediad defnyddwyr.
- Gweithredu, cynnal a diweddaru hidlo a monitro; cyflwyno adroddiadau; gweithredu ar bryderon a rhybuddion.

- Cefnogi caffael, adnabod risg, adolygiadau a gwirio gyda'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth / DSP.
- Monitro systemau i adnabod camddefnydd ac adrodd pryderon yn ddiymdroi i *[Rôl ac enw]*
- Dilyn polisïau Diogelwch Ar-lein a Diogelwch Technegol yr ysgol a chadw gwybodaeth dechnegol yn gyfredol.

Dysgwyr

Bydd dysgwyr yn:

- Dilyn yr AUA Dysgwr a'r Polisi Diogelwch Ar-lein (gan gynnwys dyfeisiau personol os caniateir hyn).
- Adrodd pryderon a gwybod sut i gael help.
- Defnyddio technoleg yn gyfrifol, gan barchu eraill a'u hawlfraint ac eiddo deallusol.
- Defnyddio AI yn gyfrifol: diogelu gwaith gwreiddiol, gwirio cywirdeb ac osgoi llên-ladrad.
- Deall y gallai ymddygiad y tu allan i'r ysgol gael sylw lle bo'n effeithio ar gymuned yr ysgol.

Rhieni a gofalwyr

Mae rhieni / gofalwyr yn bartneriaid allweddol i atgyfnerthu ymddygiad ar-lein diogel.

Bydd yr ysgol yn:

- Cyhoeddi'r Polisi Diogelwch Ar-lein a rhannu'r AUA Dysgwr *(gyda phenderfyniadau lleol ar gydnabod).*
- Rhoi canllawiau ar ddefnydd cyfrifol o dechnolegau ar-lein a gofyn am ganiatâd ar gyfer gwasanaethau / lluniau digidol lle bo angen.
- Diweddaru drwy gyfarfodydd, cylchlythyrau, sianeli ar-lein ac ymgyrchoedd.

Anogir rhieni / gofalwyr i atgyfnerthu negeseuon pwysig a chefnogi defnydd diogel o ddyfeisiau personol (os caniateir yn yr ysgol).

Aelodau o'r gymuned

Bydd defnyddwyr o'r gymuned sy'n defnyddio systemau neu lwyfannau'r ysgol yn llofnodi AUA Defnyddwyr Cymunedol cyn cael mynediad. Mae'r ysgol yn croesawu gweithio mewn partneriaeth ac yn rhannu ymarfer da lle bo'n briodol.

Grŵp Diogelwch Ar-lein

Mae'r Grŵp Diogelwch Ar-lein yn darparu trosolwg strategol ar ddiogelwch ar-lein, monitro gweithrediad ac effaith y Polisi Diogelwch Ar-lein a sicrhau bod diogelwch ar-lein wedi'i wreiddio

mewn ymarfer diogelu, cwricwlwm a thechnegol. Mewn rhai ysgolion gallai fod yn rhan o grŵp diogelu neu ddigidol strategol ehangach.

Aelodaeth *(diwygio fel bo'n briodol)*

- DSP, OSL, Uwch-Arweinydd (wyr)
- Llywodraethwr Diogelwch Ar-lein
- Cynrychiolydd TG / technegol (mewnol neu ddarparwr)
- Cynrychiolwyr staff (addysgu / cymorth)
- Cynrychiolydd (wyr) dysgwyr
- Cynrychiolydd (wyr) rhieni / gofalwyr
- Partner cymunedol / allanol (lle bo'n berthnasol)

Cyfrifoldebau craidd

Mae'r grŵp yn cefnogi'r DSP/OSL i:

- Drafftio, adolygu a monitro'r Polisi Diogelwch Ar-lein a dogfennau cysylltiedig.
- Cadw trosolwg ar hidlo a monitro, gan gynnwys ceisiadau am newid.
- Mapio ac adolygu addysg diogelwch ar-lein am gynnydd, perthnasedd a pha mor gynhwysfawr ydyw.
- Adolygu data digwyddiadau di-enw a logiau technegol i adnabod tueddiadau a risgiau newydd.
- Casglu adborth gan ddysgwyr, staff a rhieni / gofalwyr a throi hyn yn gamau ar gyfer gwella.
- Hybu llais y dysgwr, cymorth gan gyd-ddysgwyr ac ymwybyddiaeth.
- Tracio a dangos tystiolaeth o weithgareddau gwella (e.e. 360 safe Cymru).

Llywodraethu ac effaith

- Gweithredu'n unol â'r Cylch Gorchwyl cytunedig (aelodaeth, llinellau adrodd, pa mor aml), adolygu'n flynyddol.
- Cydlynu â'r Strategaeth Diogelu, Ymddygiad, Cwricwlwm a Digidol, a Llais y Dysgwr, fel bo angen.
- Adrodd themâu allweddol, gweithredu ac effaith i'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth a llywodraethwyr a rhannu crynodebau priodol â'r gymuned ehangach.

Polisi

Polisi Diogelwch Ar-lein

Mae'r Polisi Diogelwch Ar-lein yn rhan o fframwaith diogelu'r ysgol a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r polisïau Diogelu, Ymddygiad, Gwrth-fwlio a Diogelu Data.

Beth y mae'r polisi yn ei wneud

- Diffinio'r cyfrifoldebau am ddiogelwch ar-lein.
- Disgrifio disgwyliadau ar gyfer defnydd diogel, proffesiynol a moesegol o dechnoleg (gan gynnwys AI).
- Disgrifio gweithdrefnau adrodd, cofnodi ac ymateb ar gyfer digwyddiadau diogelwch ar-lein.
- Cefnogi cydymffurfio â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Safonau Digidol Addysg a GDPR y DU.
- Hyrwyddo cymhwysedd digidol a dealltwriaeth feirniadol dysgwyr.

Gweithredu, monitro ac adolygu

- Wedi'i ddatblygu drwy'r Grŵp Diogelwch Ar-lein a'i adolygu'n flynyddol o leiaf neu'n gynt os bydd risg / technoleg yn newid.
- Yn cael ei fonitro gan y DSL/OSL a llywodraethwyr yn defnyddio tueddiadau mewn digwyddiadau di-enw, adroddiadau hidlo / monitro ac adolygiadau addysg (e.e. 360 safe Cymru).
- Mae'r canfyddiadau'n goleuo cynlluniau gwella a blaenoriaethau hyfforddiant staff.

Cyfathrebu a hygyrchedd

- Ei rannu yn y cynefino i staff a'i atgyfnerthu drwy hyfforddiant.
- Ei gyfathrebu i ddysgwyr a rhieni / gofalwyr drwy gytundebau AUA ac ymwybyddiaeth.
- Ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol.

Defnydd derbyniol

Diffinnir defnydd derbyniol drwy'r Polisi Diogelwch Ar-lein a chyfres o Gytundebau Defnydd Derbyniol (AUA) *(wele'r atodiadau).* Mae cytundebau AUA yn fwy effeithiol os yw pawb yn eu deall, eu hatgyfnerthu a'u dilyn – nid dim ond yn eu llofnodi.

Atgyfnerthu *(diwygio fel bo'n briodol)*

- cynefino / llawlyfrau staff a dysgwyr
- negeseuon atgoffa ar-sgrîn (e.e. sgriniau sblash), arwyddion digidol
- posteri mewn mannau lle y defnyddir technoleg
- sesiynau cwricwlwm ac ymwybyddiaeth

- wrth gyfathrebu â rhieni / gofalwyr
- gwefan yr ysgol
- cymorth gan gyd-ddysgwyr / gweithgareddau dan arweiniad y dysgwr

Dylai ysgolion gytuno ar beth sy'n dderbyniol / annerbyniol ar gyfer eu cyd-destun nhw (oed, lleoliad, systemau) a chofnodi hyn yn y tablau isod.

Gweithredoedd Derbyniol / Annerbyniol

Gweithredoedd defnyddwyr		Derbyniol	Derbyniol ar adegau penodol	Derbyniol ar gyfer defnyddwyr penodol	Annerbyniol	Annerbyniol ac anghyfreithlon
Ni ddylai defnyddwyr ddefnyddio gwasanaethau ar-lein (apiau, gemâu, gwefannau) i greu, rhannu, lawrlwytho, lanlwytho, trosglwyddo neu gyfathrebu deunydd neu sylwadau sydd:	Yn anghyfreithlon, er enghraifft: • Lluniau cam-drin plant yn rhywiol (CSAM)* • Ecsbloetio / cam-drin plant yn rhywiol a grŵmio • Cynnwys terfysgaeth • Annog, hybu neu gynorthwyo hunan-laddiad / hunan-niwed • Troseddau lluniau rhywiol (gan gynnwys camddefnyddio lluniau rhywiol / porn dial a phorn eithafol) • Cymell trais neu fygwth trais • Troseddau casineb • Troseddau trefn gyhoeddus (gan gynnwys harasio a stelcian) • Troseddau cyffuriau • Troseddau arfau / arfau tanio • Troseddau twyll ac ariannol (gan gynnwys gwyngalchu arian) *Dalier sylw: dylid dilyn canllawiau UKSIC ac UKCIS wrth ymateb i luniau rhywiol hunan-greu (SGII).*					X
Ni ddylai defnyddwyr geisio na chefnogi seiberdroseddu	• Cam-ddefnyddio enw defnyddiwr / ID neu gyfrinair rhywun arall i gael mynediad at ddata, meddalwedd neu systemau heb ganiatâd.					X

Gweithredoedd defnyddwyr		Derbyniol	Derbyniol ar adegau penodol	Derbyniol ar gyfer defnyddwyr penodol	Annerbyniol	Annerbyniol ac anghyfreithlon
(Deddf Cam-ddefnyddio Cyfrifiaduron 1990), gan gynnwys:	• Cael mynediad diawdurdod at rwydweithiau, data neu ffeiliau'r ysgol (gan gynnwys osgoi mesurau diogelwch). • Creu, cyflwyno neu ddosbarthu maleiswedd (feirysau, meddalwedd wystlo, sgriptiau niweidiol). • Gwe-rwydo, dwyn cymwysterau neu geisio cael gafael ar gyfrineiriau neu ddata personol • Datgelu, copïo neu gyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol (e.e. data personol / ariannol, databasau, codau mynediad). • Anablu, amharu ar neu darfu ar rwydweithiau / gwasanaethau (e.e. gwadu gwasanaeth) • Defnyddio offer profi am dreiddio digidol heb ganiatâd penodol *Dalier sylw: dylai ysgol benderfynu a fydd yn delio â'r digwyddiad yn fewnol neu a ddylid adrodd i'r heddlu Dylid adrodd troseddau difrifol neu ailadroddus Mae'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol yn cynnig llwybrau i droi pobl ifanc draw o seiberdroseddu a thuag at lwybrau positif.*					
Annerbyniol (nid anghyfreithlon) o dan bolisïau'r ysgol, er enghraifft:	Mynediad at ddeunydd / gweithgareddau amhriodol ar-lein mewn ysgol, gan gynnwys porn, gamblo, cyffuriau. (wedi'i oleuo gan arferion hidlo a / neu gytundebau AUA yr ysgol)			X	X	
	Hybu cynnwys casineb, gwahaniaethu neu harasio				X	
	Defnyddio systemau'r ysgol i redeg busnes preifat neu i ennill mantais ariannol ddiawdurdod				X	

Gweithredoedd defnyddwyr		Derbyniol	Derbyniol ar adegau penodol	Derbyniol ar gyfer defnyddwyr penodol	Annerbyniol	Annerbyniol ac anghyfreithlon
	Defnyddio dulliau / gwasanaethau i osgoi hidlo, monitro neu ragofalon eraill (e.e. VPN/procsi, dulliau di-enwi, systemau DNS eraill)				X	
	Torri rheolau hawlfraint neu eiddo deallusol (e.e. drwy ddulliau AI, lawrlwytho cynnwys ffrydio heb ganiatâd neu gopïo / rhannu heb awdurdod)				X	
	Defnydd annheg (lawrlwytho / lanlwytho ffeiliau mawr sy'n amharu ar ddefnydd eraill o'r we)			X	X	
	Rhannu cynnwys annifyr sy'n tanseilio ethos a didwylledd yr ysgol neu'n rhoi enw drwg i'r ysgol				X	

	Staff ac oedolion eraill	Dysgwyr

Dylid ystyried y gweithgareddau canlynol os ydyn nhw'n cael eu cyflawni at bwrpas di-addysgol. Add or amend items to reflect current technology, age restrictions and your school's device policy.	Ni chaniateir	Caniateir	Caniateir ar adegau penodol	Caniateir ar gyfer rhai aelodau staff	Ni chaniateir	Caniateir	Caniateir ar adegau penodol	Caniateir dan oruchwyliaeth staff
Gêmio a sgwrsio ar-lein / llais mewn gemâu (*e.e. Roblox, Fortnite, Minecraft*)								
Siopa ar-lein a masnach ddigidol *(gan gynnwys prynu pethau drwy apiau, marchnadoedd, tanysgrifio)*								
Storio yn y cwmwl a rhannu ffeiliau (*e.e. Google Drive, OneDrive, Dropbox, WeTransfer; P2P/torrents*)								
Cyfryngau cymdeithasol a gwefannau cynnwys cyhoeddus *(e.e. TikTok, Instagram, Snapchat, X, Reddit*) *a gwasanaethau eraill gyda chyfyngiadau oed*								
Negeseua, sgwrsio a llais (*e.e. cyfrifon personol WhatsApp*, *iMessage, Snapchat, Discord, Teams)*								
Ffrydio adloniant / cyfryngau (fideo, miwsig, podlediadau, *e.e. Netflix, Disney+, Spotify*								
Llwyfannau fideo a ffrydio byw *(e.e. YouTube, Twitch, TikTok LIVE, Instagram Live*)								

Ffonau symudol a dyfeisiau clyfar personol ar y safle *(ffonau, watsys clyfar, clust-bodiau)*								
Ffonau symudol ar gyfer dysgu (dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athro neu athrawes)								
Ffonau symudol yn ystod amser cymdeithasol / egwyl (os caniateir) gan gynnwys dulliau di-ddyfais								
Tynnu lluniau / fideos / recordio ar ddyfeisiau (gan gynnwys rhannu, data lleoliad a chaniatâd)								
Dyfeisiau personol eraill *(e.e. dyfeisiau llechen, consolau llaw, pensetiau VR, offer gwisgadwy)*								
Cyfrifon e-bost personol ar y safle neu ar rwydwaith / wifi yr ysgol *(e.e. Gmail, Outlook.com*)								
Defnyddio e-bost yr ysgol ar gyfer cyfathrebu personol (di-waith, di-ddysgu)								
Gwasanaethau / dulliau AI anghymeradwy *(botiau sgwrsio AI cynhyrchiol a dulliau lluniau / fideo, cydymaith AI, estyniadau porwr)*								

Adrodd ac ymateb

Rhagarweiniad

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i greu diwylliant lle y mae holl aelodau'r gymuned yn teimlo'n hyderus, diogel ac wedi eu cefnogi i adrodd pryderon diogelwch ar-lein. Yn unol â *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel,*

mae'r ysgol yn cydnabod y gall risgiau ar-lein ddigwydd o fewn a thu allan i'r ysgol ac effeithio ar blant yn unrhyw le. Rhaid i lwybrau adrodd felly fod yn glir, hygyrch, cynhwysol ac y mae pawb yn deall yn gyson.

Mae'r ysgol yn cydnabod canfyddiadau cenedlaethol, gan gynnwys Adroddiad Estyn – "dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon" – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru sy'n nodi'n glir nad yw plant o hyd yn teimlo y medrant adrodd. Mae'r ysgol yn cymryd yn ganiataol y gall ymddygiad ar-lein niweidiol fod yn digwydd, hyd yn oed os na chafodd dim ei ddatgelu, gan ymateb gyda systemau cryf i adrodd, dadansoddi a delio gyda phryderon.

Adrodd pryderon

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- Llwybrau adrodd clir a hygyrch yn eu lle ar gyfer holl aelodau cymuned yr ysgol gan gynnwys disgyblion, staff, llywodraethwyr, rhieni / gofalwyr a gwirfoddolwyr.
- Mae prosesau adrodd yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys y polisïau amddiffyn plant, chwythu'r chwiban, rheoli honiadau a chwynion.
- Mae nifer o opsiynau adrodd ar gael fel siarad â'r Person Diogelu Dynodedig (DSP), dulliau adrodd ar-lein neu ddi-enw (e.e. Whisper), cysylltu ar e-bost neu ddatgelu wyneb yn wyneb,
- Rhoddir cyhoeddusrwydd da i lwybrau adrodd drwy gynefino, gwasanaethau boreol, posteri, gwefan yr ysgol a llwyfannau digidol.
- Mae pob defnyddiwr yn deall bod yn rhaid adrodd pryderon diogelwch ar-lein gan gynnwys rhai'n ymwneud ag ymddygiad niweidiol neu anghyfreithlon, harasio rhywiol, bwlio, gwahaniaethu, grŵmio neu luniau rhywiol hunan-greu.

Ymateb i bryderon

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- Adroddiadau'n cael eu cydnabod a derbyn ymateb diymdroi, gan ystyried diogelwch a lles y person sy'n adrodd.
- Bod gan y DSP, Arweinydd Diogelwch Ar-lein ac uwch-arweinwyr yr hyfforddiant a'r sgiliau i adnabod, asesu a rheoli risgiau diogelwch ar-lein.
- Os yw adroddiad yn awgrymu gweithgaredd anghyfreithlon bosib neu niwed difrifol, mae'n cael ei uwchgyfeirio'n syth drwy weithdrefnau diogelu. Mae enghreifftiau'n cynnwys (ond heb eu cyfyngu i):
    - Deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM)
    - Lluniau hunan-greu neu heb ganiatâd
    - Grŵmio, ecsbloetio neu harasio rhywiol
    - Terfysgaeth neu eithafiaeth
    - Troseddau casineb, twyll, camelwa, stelcian
    - Seiberdroseddu o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron
    - Gwerthu sylweddau neu nwyddau anghyfreithlon

- Os nad yw pryderon yn cynnwys amheuaeth o weithgaredd anghyfreithlon, gellir gwirio dyfeisiau'n defnyddio proses ddiogel, gofnodedig dan reolaeth gydag uwch-staff a dyfais adolygu ddynodedig.
- Mae pob system fonitro drwy AI, os defnyddir un, yn cael ei goruchwylio gan berson go iawn i sicrhau dealltwriaeth o'r cyd-destun.
- Mae defnyddwyr sy'n adrodd pryderon yn derbyn sicrwydd, cymorth priodol ac adborth ar y canlyniad.

Cofnodi a monitro


Bydd yr ysgol yn:

- Cadw cofnod diogel a chyfrinachol o bob digwyddiad gan gynnwys gweithredu, penderfyniadau ac ôl-ddilyn.
- Archwilio a dadansoddi adroddiadau'n rheolaidd i adnabod tueddiadau newydd, patrymau sy'n destun pryder a pha mor effeithiol yw'r ymateb.
- Darparu crynodebau di-enw o dueddiadau a dysgu i'r:
    - Grŵp Diogelwch Ar-lein
    - Uwch-arweinwyr
    - Llywodraethwyr (drwy adroddiadau diogelu)
    - *Staff*
    - *Dysgwyr, lle bo'n briodol*
    - *Rhieni / gofalwyr drwy gyfathrebiadau cyffredinol*
    - *Partneriaid diogelu lleol, lle bo'n berthnasol*

Cymorth allanol ac uwchgyfeirio

Bydd yr ysgol yn gweithio gydag asiantaethau allanol priodol pan fo angen, gan gynnwys:

- Y Swyddog Diogelu Dynodedig (DOS)
- Yr Heddlu / CEOP
- Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant
- Hwb – Cadw'n Ddiogel Ar-lein - Help a Chefnogaeth



[1] Mae'r siart llif yma'n cynnig proses ar-lein ar gyfer delio â digwyddiadau diogelwch ar-lein. Gallwch ei haddasu i gyd-fynd â'ch polisi ac ymarfer diogelu presennol i sicrhau dull cyson o reoli digwyddiadau diogelu yn eich lleoliad chi. Fel arfer cynhelir Cyfarfod Adolygu Digwyddiad (IRM) cyn gynted â phosib ar ôl digwyddiad difrifol i benderfynu'r camau nesaf, fel arfer yn dilyn y camau diogelu a gymerir yn syth (dylid nodi na fydd efallai angen cynnal IRM ar gyfer digwyddiadau llai difrifol).

Mynediad at ddeunydd anghyfreithlon (neu geisio), yn ôl y diffiniad yn yr adran "Gweithgareddau anaddas / amhriodol" flaenorol.		X	X	X					
Mynediad diawdurdod at rwydwaith yr ysgol, gan gynnwys defnyddio cyfrif person arall neu rannu enwau defnyddwyr / cyfrineiriau.									
Difrodi, llygru neu ddileu data defnyddiwr arall.									
Anfon e-byst, tecsts neu negeseuon annifyr, harasio neu fwlio.									
Lawrlwytho / lanlwytho diawdurdod, rhannu ffeiliau neu ddosbarthu ffeiliau.									
Osgoi hidlo (e.e. gwefannau procsi, VPN neu ddulliau tebyg).									
Methu ag adrodd mynediad damweiniol at ddeunydd annifyr neu bornograffig.									
Mynediad bwriadol at ddeunydd annifyr neu bornograffig (neu geisio)									
Rhannu neu dderbyn cynnwys sy'n torri cyfreithiau hawlfraint neu ddiogelu data.									
Defnydd diawdurdod o ddyfeisiau, gan gynnwys tynnu lluniau / fideos neu recordio sain.									
Defnydd diawdurdod o wasanaethau ar-lein (apiau, gwefannau neu lwyfannau).									
Unrhyw ymddygiad ar-lein a allai roi enw drwg i'r ysgol neu danseilio ethos yr ysgol.									

Achosion parhaus o dorri'r rheolau hyn ar ôl rhybuddion neu sancsiynau blaenorol.									

Ymateb i weithredoedd staff

Digwyddiadau	Cyfeirio at reolwr llinell	Cyfeirio at y SLT / Pennaeth	Cyfeirio at yr awdurdod lleol	Cyfeirio at yr Heddlu / DOS	Cyfeirio at y Partner Cymorth Technoleg Addysg	Rhoi rhybudd	Camau disgyblu pellach yn unol â' r Polisi Ymddygiad
Mynediad at ddeunydd anghyfreithlon (neu geisio), yn ôl y diffiniad yn yr adran "Gweithgareddau anaddas / amhriodol" flaenorol.		X	X	X			
Torri gofynion diogelu data neu seiberddiogelwch gan gynnwys rheolau diogelwch rhwydwaith.							
Mynediad at ddeunydd annifyr neu bornograffig (neu geisio).							
Difrodi systemau neu ddata, gan gynnwys llygru / dileu data pobl eraill neu ddifrodi caledwedd / meddalwedd yn fwriadol.							
Osgoi systemau hidlo (e.e. gwefannau procsi, VPN neu ddulliau tebyg).							
Lawrlwytho neu lanlwytho neu rannu ffeiliau heb awdurdod.							
Torri rheolau hawlfraint, trwyddedu neu eiddo deallusol gan gynnwys camddefnyddio systemau AI.							
Mynediad diawdurdod at gyfrif / rhwydwaith gan gynnwys rhannu cyfrineiriau, defnyddio cyfrif person arall neu adael i eraill gael mynediad.							
Anfon e-byst, tecsts neu negeseuon annifyr, harasio neu fwlio.							

Defnyddio e-bost / cyfryngau cymdeithasol / negeseuon personol i gyfathrebu â dysgwyr neu rieni / gofalwyr.							
Defnydd personol amhriodol o dechnoleg yr ysgol gan gynnwys e-bost a chyfryngau cymdeithasol personol yn ystod amser gwaith / yn defnyddio systemau'r ysgol.							
Cam-drin data personol gan gynnwys ei storio, arddangos neu drosglwyddo'n anniogel.							
Unrhyw weithred sy'n tanseilio ymddygiad proffesiynol neu statws proffesiynol aelod o staff.							
Gweithredoedd a allai roi enw drwg i'r ysgol neu sy'n tanseilio ethos a didwylledd yr ysgol.							
Methu ag adrodd digwyddiad, p'un ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol.							
Achosion parhaus o dorri rheolau yn dilyn rhybuddion neu sancsiynau blaenorol.							

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae templed polisi AI mwy manwl (Atodiad C7) *ar gael, gan gynnwys* ***matrics asesu risg AI a Chytundeb Defnydd Derbyniol i Staff penodol i AI.***

Mae AI Cynhyrchiol (Gen AI) yn datblygu ar garlam a'i ddefnydd mewn addysg ar gynnydd. Mewn ysgolion, defnyddir AI fel arfer mewn tri maes: cymorth i ddysgwyr, cymorth i athrawon, rhedeg yr ysgol. Rhaid defnyddio AI yn ddiogel, moesegol a chyfrifol.

Rydyn ni'n cydnabod y gall AI Cynhyrchiol gyflwyno risg. Gellir lleihau'r risgiau hyn drwy ein trefniadau diogelu, diogelu data a diogelwch technegol a thrwy ddiweddaru ein gweithdrefnau lle bo angen. Mae diogelu dysgwyr a staff yn parhau i fod yn ganolog i'n dull.

Datganiadau Polisi

Bydd yr ysgol yn:

- Cefnogi defnydd priodol o AI i wella dysgu ac addysgu, gwella canlyniadau, symleiddio gwaith gweinyddol a lleihau llwythi gwaith. Mae staff yn broffesiynol gyfrifol ac atebol am unrhyw waith a gefnogir gan AI.
- Cydymffurfio â'r gyfraith a chanllawiau perthnasol gan gynnwys Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a GDPR y DU.
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff a llywodraethwyr ar fanteision, risgiau a defnydd diogel o AI ac adnabod anghenion datblygu pellach.
- Addysgu am AI drwy'r cwricwlwm lle bo'n briodol gan helpu dysgwyr i ddeall sut y mae AI Cynhyrchiol yn gweithio, manteision a chyfyngiadau a'i effeithiau moesegol a chymdeithasol.

Defnydd diogel, diogelu data a diogelwch

Bydd yr ysgol yn:

- Diogelu data personol a sensitif. Ni ddylai staff roi gwybodaeth sensitif neu y gellir adnabod rhywun i system AI. Os defnyddir AI, dylai staff ddefnyddio data di-enw'n unig.
- Gofyn cydymffurfio â GDPR y DU. Rhaid i staff sicrhau bod unrhyw ddull AI yn bodloni gofynion diogelu data a diogelwch cyn ei ddefnyddio.
- Cymeradwyo dulliau a chyfrifon. Dim ond dulliau AI a gymeradwywyd gan yr ysgol y gellir eu defnyddio gyda gwaith cartref a dylai staff ddefnyddio cyfrif AI yr ysgol os ydynt ar gael i gynorthwyo trosolwg a lleihau risg.
- Diogelu gwybodaeth sensitif. Ni ddylid mewnbynnu dogfennau mewnol, cynlluniau strategol na deunydd sensitif arall i ddulliau AI trydydd parti oni bai fod y dull a'r pwrpas wedi eu cymeradwyo'n benodol.

Ansawdd, tegwch a didwylledd

Bydd yr ysgol yn:

- Sicrhau trosolwg gan berson. Gall AI gefnogi gwaith ond ni ddylai ddisodli barn broffesiynol – yn enwedig mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl. Rhaid gwirio pob allbwn AI am gywirdeb cyn rhannu neu gyhoeddi.
- Hyrwyddo tryloywder. Os yw AI wedi cefnogi allbwn yn sylweddol (e.e. dogfennau, cyflwyniadau, cyfathrebiadau), dylai staff nodi hyn yn glir lle bo'n briodol.
- Delio gyda rhagfarn a gwahaniaethu. Rydym yn cydnabod y gall allbwn AI adlewyrchu rhagfarn. Bydd yr ysgol yn defnyddio rhagofalon priodol, yn adolygu prosesau a chaffael gwiriadau i flaenoriaethu tegwch a diogelwch.

- Gwarchod hawlfraint ac eiddo deallusol. Bydd yr ysgol yn cymryd camau i osgoi torri rheolau hawlfraint ac yn gwarchod eiddo deallusol staff a dysgwyr gan gynnwys sicrhau na ddefnyddir gwaith dysgwyr i hyfforddi systemau AI heb ganiatâd priodol.

Adrodd, monitro ac atebolrwydd

Bydd yr ysgol yn:

- Gofyn bod pryderon AI yn cael eu hadrodd yn ddiymdroi, gan gynnwys camddefnydd, digwyddiadau data neu allbwn amhriodol, i [ENW / TÎM].
- Cadw cofrestr o ddulliau AI a ddefnyddir, gan nodi'r pwrpasau a'r risgiau, a'u hadolygu'n rheolaidd yn defnyddio'r matrics asesu risg yn Atodiad C7.
- Ymgysylltu â rhieni / gofalwyr gyda gwybodaeth glir am sut y defnyddir AI yn yr ysgol (e.e. "canllaw AI yn ein hysgol").

Defnyddio ar gyfer asesu ac adborth

Gellir defnyddio dulliau AI i helpu athrawon gyda phrosesau asesu (e.e. i adnabod beth i'w wella a drafftio adborth), ac i gefnogi dysgwyr i wella eu gwaith. Mae athrawon yn gyfrifol am y canlyniadau a rhaid iddynt sicrhau defnydd cywir, teg a phriodol.

Camddefnyddio a chamau disgyblu

Gallai defnydd amhriodol o AI – gan gynnwys torri'r polisi hwn, methiannau diogelu data, camddefnyddio gwybodaeth sensitif neu fethu â dilyn prosesau cytunedig – arwain at gamau o dan Bolisi Disgyblu Staff yr ysgol.

Addysg

Rhaglen Addysg Diogelwch Ar-lein

Mae addysg diogelwch ar-lein yn rhan graidd o ddull diogelu'r ysgol, ochr yn ochr â mesurau technegol effeithiol (gan gynnwys hidlo a monitro). Yn unol â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, mae diogelwch ar-lein yn thema gyson a rhyng-gysylltiedig a adlewyrchir ar draws y polisïau perthnasol a'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg diogelwch ar-lein gynhwysol, gynyddol, wedi'i chynllunio i'w holl ddysgwyr, yn gyson â chanllawiau a fframweithiau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol (gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau diogelwch ar-lein Hwb Ar-lein a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol). Mae'r dysgu'n briodol i oed, yn adeiladu ar ddysgu blaenorol, yn cyfateb i angen ac yn cael ei addysgu drwy feysydd dysgu a phrofiad presennol y cwricwlwm (gan gynnwys ACRh, ac Iechyd a Lles), gydag asesu a deilliannau bwriedig clir.

Mae'r rhaglen yn datblygu gallu dysgwyr i:

- adnabod a rheoli risgiau ar-lein, gan gynnwys cynnwys, cyswllt ac ymddygiad niweidiol a risgiau masnachol;
- deall beth yw caniatâd, harasio rhywiol a thrais rhywiol (gan gynnwys ar-lein), wedi'i gefnogi gan gyfleoedd diogel i drafod;
- meddwl yn feirniadol am beth maen nhw'n ei weld ar-lein, gan gynnwys sut i wirio pa mor ddibynadwy a chywir yw cynnwys a rôl cynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI;
- parchu hawlfraint ac eiddo deallusol, gan gynnwys wrth ddefnyddio deunydd ar-lein ac AI;
- deall a dilyn y cytundeb defnydd derbyniol i ddysgwyr a gweithredu o fewn ffiniau moesol a chyfreithiol (gan gynnwys ymwybyddiaeth o Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990).
- deall pam mae gwasanaethau ar-lein yn defnyddio gofynion isafswm oedran a sut gallai'r rhain gefnogi diogelwch, preifatrwydd a lles
- gwneud penderfyniadau gwybodus am gymryd rhan mewn cyfryngau cymdeithasol, negeseuon, gemau a chymunedau ar-lein eraill, gan gynnwys gwasanaethau nad ydynt efallai'n cael eu defnyddio eto
- deall nad yw cyfyngiadau cyfreithiol na chyfyngiadau ar lwyfannau yn dileu'r angen i ddysgu am berthnasoedd ar-lein, cynnwys niweidiol, rhannu delweddau, sgamiau, camfanteisio a lles digidol
- deall gofynion yr ysgol o ran ffonau symudol a'r rhesymau sy'n sail iddynt o ran diogelu, ymddygiad, dysgu a lles.

Os bwriedir defnyddio'r we, mae dysgwyr yn cael eu tywys at adnoddau priodol a'u cefnogi os byddant yn dod ar draws cynnwys anaddas. Lle caniateir chwilio agored, mae staff yn goruchwylio ac aros yn effro. Gellir addasu hidlo dros dro i wneud ymchwil cwricwlwm cyfreithlon, gyda chaniatâd wedi'i archwilio a rhesymeg glir.

Defnyddir llais y dysgwr yn weithredol i gryfhau dull yr ysgol drwy adborth, cynrychiolwyr dysgwyr (e.e. ar Grŵp Diogelwch Ar-lein), a chyfleoedd fel arweinwyr digidol, mentora cymheiriaid, ymgyrchoedd a chyfrannu at weithgareddau diogelwch ar-lein yn y gymuned a defnydd derbyniol. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd priodol i drafod newidiadau sy'n effeithio ar eu bywydau digidol ac i fynegi pryderon am gyfeillgarwch, perthyn, mynediad, allgáu a lles.

Staff

Yn unol â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel mae'r holl staff a gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys diogelwch ar-lein, yn eu cynefino a thrwy ddiweddaru rheolaidd (blynyddol o leiaf). Mae hyfforddiant diogelwch ar-lein yn cael ei integreiddio yn null diogelu ysgol-gyfan yr ysgol, datblygiad ehangach staff, a chynllunio'r cwricwlwm.

- Bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelwch ar-lein ac yn deall eu cyfrifoldebau dan y polisi hwn. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys (dewis / dileu fel bo'n briodol):
- Rhaglen wedi'i chynllunio o hyfforddiant diogelwch ar-lein, diogelu data a seiberddiogelwch i'r holl staff, wedi'i ddiweddaru a'i atgyfnerthu'n gyson. Adolygir anghenion hyfforddiant staff o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn aros yn berthnasol ac effeithiol.
- Hyfforddiant diogelwch ar-lein i bob aelod newydd o staff fel rhan o gynefino, i sicrhau dealltwriaeth o'r Polisi Diogelwch Ar-lein a Chytundebau Defnydd Derbyniol, gan gynnwys rheoli'r ystafell ddosbarth, ymddygiad proffesiynol, enw da ar-lein a modelu ymddygiad ar-lein positif.
- Diweddaru'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) a'r Arweinydd Diogelwch Ar-lein (OSL) (neu staff enwebedig eraill) yn rheolaidd drwy hyfforddiant allanol ac adolygu'r canllawiau perthnasol (e.e. Hwb – Cadw'n Ddiogel Ar-lein, UK Safer Internet Centre, SWGfL, yr awdurdod lleol neu sefydliadau priodol eraill).
- Cymorth i staff ar ymarfer yn gyson a chynyddu eu gwybodaeth drwy adnoddau dysgu proffesiynol strwythuredig.
- Adolygu'r Polisi Diogelwch Ar-lein hwn yn rheolaidd a diweddaru drwy gyfarfodydd staff, sesiynau briffio tîm a / neu HMS.
- Cyngor, canllawiau a hyfforddiant wedi'i dargedu gan y DSP/OSL (neu staff enwebedig) i unigolion fel bo angen.
- yn deall gofynion hidlo a monitro'r ysgol, y cyfrifoldebau sy'n berthnasol i'w rôl a sut mae'n rhaid rhoi gwybod am bryderon neu rybuddion
- Mae'r hyfforddiant yn sicrhau bod staff:
  - yn deall gofynion hidlo a monitro'r ysgol, y cyfrifoldebau sy'n berthnasol i'w rôl a sut dylid rhoi gwybod am bryderon neu rybuddion
  - yn deall nad yw gofynion hidlo a monitro yn disodli goruchwyliaeth effeithiol, chwilfrydedd proffesiynol a barn ddiogelu ond yn hytrach yn eu cefnogi
  - yn deall gofynion ffonau symudol yr ysgol ac yn eu rhoi ar waith yn gyson, gan gynnwys disgwyliadau o ran eu defnydd proffesiynol eu hunain o ddyfeisiau personol.
  - yn gwybod sut mae eithriadau awdurdodedig i ddysgwyr yn cael eu cymeradwyo a'u rheoli
  - yn dilyn gofynion seiberddiogelwch

Llywodraethwyr

Dylai llywodraethwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant diogelwch ar-lein a chodi ymwybyddiaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig i lywodraethwyr ar bwyllgorau sy'n gyfrifol am ddiogelu, diogelwch ar-lein, technoleg neu iechyd a diogelwch.

Gellid darparu hyfforddiant a diweddaru drwy (dewis / dileu fel bo'n briodol):

- Canllawiau i Lywodraethwyr: Hwb: Seiberdrosedd Seiberddiogelwch, Diogelwch Ar-lein; Cadw dysgwyr yn ddiogel - modiwl 5, UKSIC: Hidlo a Monitro
- Mynychu hyfforddiant a gynigir gan yr Awdurdod Lleol neu sefydliadau perthnasol eraill (e.e. SWGfL).
- Cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddiant a gwybodaeth yr ysgol (e.e. sesiynau briffio staff neu ddigwyddiadau rhieni). Gallai hyn gynnwys mynychu gwasanaethau boreol neu wersi, lle bo'n briodol.
- Cyfarfodydd diweddaru rheolaidd â'r DSP a / neu'r Arweinydd Diogelwch Ar-lein i adolygu themâu allweddol, digwyddiadau a blaenoriaethau presennol.

Darperir hyfforddiant estynedig i'r Llywodraethwyr Diogelwch Ar-lein (o leiaf). Bydd hyn yn cynnwys:

- Hyfforddiant ymwybyddiaeth seiberddiogelwch sylfaenol.
- Hyfforddiant i ddeall mesurau hidlo a monitro'r ysgol er mwyn cyfrannu'n effeithiol at wiriadau ac adolygiadau gofynnol.

Rhanddeiliaid Allanol

Mae teuluoedd, y gymuned ehangach ac asiantaethau allanol yn chwarae rôl hanfodol mewn cefnogi addysg a lles diogelwch ar-lein dysgwyr. Mae'r ysgol yn cydnabod y gallai rhieni a gofalwyr fod ag ymwybyddiaeth gyfyngedig o risgiau ar-lein felly mae'n gweithio i sicrhau bod rhieni'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Gall ysgolion hefyd ddefnyddio asiantaethau allanol i ategu dull diogelu'r ysgol. Mae'r ysgol felly'n gweithio'n weithredol i greu partneriaethau cryf, rhannu negeseuon allweddol fel bod teuluoedd a'r gymuned ehangach wedi eu harfogi i helpu i gadw plant yn ddiogel ar-lein.

Mae'r egwyddorion canlynol yn ategu ymgysylltiad yr ysgol â rhanddeiliaid allanol.

Gweithio gyda Rhieni a Gofalwyr

Bydd yr ysgol yn cefnogi rhieni a gofalwyr i ddeall risgiau ar-lein, magu hyder ac atgyfnerthu ymddygiad ar-lein diogel adref. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth yn rheolaidd o faterion diogelwch ar-lein, cynnwys y cwricwlwm a sut i adrodd.
- Darparu gwybodaeth drwy gylchlythyrau, gwefan yr ysgol, llwyfannau dysgu a dulliau cyfathrebu digidol.
- Cynnig cyfleoedd fel gweithdai, digwyddiadau gwybodaeth neu sesiynau diogelwch ar-lein galw heibio i rieni a gofalwyr.

- Cael dysgwyr i rannu negeseuon diogelwch ar-lein â rhieni / gofalwyr, gan gynnwys cyfrannu at ddigwyddiadau gwybodaeth.
- Cyfeirio rhieni a gofalwyr ymlaen at adnoddau cenedlaethol dibynadwy (e.e. Hwb, UK Safer Internet Centre, Internet Matters, Childnet, SWGfL, Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol).
- Hyrwyddo a chymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol fel Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel.
- Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall disgwyliadau defnydd derbyniol a pholisïau ysgol perthnasol ar ddiogelwch ar-lein.
- Gwybodaeth glir am bolisïau a threfniadau'r ysgol ar gyfer ffonau symudol a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu, gan gynnwys y rhesymau dros y polisi, yr eithriadau awdurdodedig a chanlyniadau torri amodau.
- Gwybodaeth gywir, gytbwys a phriodol i oedran am newidiadau sy'n effeithio ar gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ar-lein eraill
- Ymgynghori ac adborth i werthuso pa mor dda mae dulliau'r ysgol o ymdrin â ffonau symudol, gwasanaethau ar-lein ac ymgysylltu â theuluoedd yn gweithio.
- arweiniad a chefnogaeth i rieni ar reoli a chefnogi profiadau eu plant ar-lein a sut i roi gwybod am broblemau a'u rheoli.
- arweiniad i helpu rhieni i annog eu plant i roi gwybod am bryderon diogelu ar-lein, ni waeth am unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith
- dulliau sy'n gwerthuso effeithiolrwydd strategaeth yr ysgol ar ffonau symudol, gwasanaethau ar-lein ac ymgysylltu â theuluoedd

Y Gymuned Ehangach ac Asiantaethau

Mae'r ysgol yn cydnabod gwerth gweithio gyda sefydliadau allanol i gryfhau ymwybyddiaeth a darpariaeth leol o ddiogelwch ar-lein. Gallai hyn gynnwys:

- Rhannu gwybodaeth, adnoddau neu ddiweddaru diogelwch ar-lein â grwpiau cymunedol, teulu estynedig a'r gymuned ehangach.
- Darparu neu gefnogi cyfleoedd dysgu i'r teulu am dechnolegau digidol ac ymddwyn yn ddiogel ar-lein.
- Defnyddio gwefan yr ysgol neu sianeli cyfryngau cymdeithasol i gynnig cynnwys diogelwch ar-lein addas i'r gymuned ehangach.
- Cydweithredu â lleoliadau blynyddoedd cynnar, gwarchodwyr plant, grwpiau ieuenctid a chwaraeon, llyfrgelloedd, cyrff gwirfoddol ac asiantaethau lleol eraill.
- Galw ar arbenigedd asiantaethau allanol (e.e. Safer Internet Centre, CEOP, Partneriaethau Diogelu Lleol, timau Atal, ymarferwyr iechyd a'r Heddlu).
- Cyfrannu at weithgareddau ar y cyd ag ysgolion neu leoliadau eraill, gan gynnwys prosiectau pontio a digwyddiadau aml-ysgol.

- Cefnogi grwpiau allanol i adolygu a gwella eu hymarfer diogelwch ar-lein eu hunain.

Technoleg

Pwrpas

Mae'r ysgol yn cydnabod bod hidlo, monitro, diogelwch technegol, seiberddiogelwch a diogelu data effeithiol yn hanfodol i ddiogelu plant a gwarchod cymuned ehangach yr ysgol. Mae'r mesurau hyn yn cefnogi defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ac yn cynorthwyo addysgu, dysgu a gweinyddu effeithiol.

Rhoddir trefniadau manwl yn Atodiad C1 – Templed Polisi Hidlo a Monitro, ac Atodiad C2 – Templed Polisi Diogelwch Technegol.

Hidlo a Diogelu Ar-lein

Mae gan yr ysgol systemau hidlo a monitro priodol yn eu lle i helpu i warchod defnyddwyr rhag cynnwys a gweithgareddau ar-lein anghyfreithlon, amhriodol a niweidiol, yn unol â chanllawiau statudol. (e.e., Hwb – Safonau Digidol Addysg, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel) a chanllawiau ymarfer gorau (e.., UKSIC Appropriate Filtering and Monitoring)

Mae'r ysgol yn sicrhau bod:

- trefniadau hidlo a monitro'n seiliedig ar ddiogelu, yn gymesur ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- hidlo'n blocio cynnwys anghyfreithlon a rhoi mynediad priodol i oed a phriodol i rôl
- monitro'n helpu i adnabod pryderon diogelu'n ddiymdroi a chynorthwyo ymyrryd yn amserol
- holl ddyfeisiau'r ysgol yn cael eu hidlo a'u monitro, gan gynnwys wrth gael eu defnyddio oddi ar y safle
- staff a dysgwyr yn deall bod hidlo a monitro yn ei le, pam fod angen gwneud hyn a sut y mae pryderon yn cael eu huwchgyfeirio
- Os caniateir defnyddio dyfeisiau personol, bod defnyddwyr yn deall y gallai'r ysgol hidlo a monitro eu defnydd

Trosolwg ac adolygu

- mae gan uwch-arweinwyr, y Person Diogelu Dynodedig (DSP), Arweinydd Diogelwch Ar-lein (OSL), staff technegol a llywodraethwyr rolau a chyfrifoldebau clir.
- adolygir pa mor effeithiol yw hidlo a monitro'n flynyddol o leiaf ac ar ôl unrhyw newid neu ddigwyddiad sylweddol. (e.e., yn defnyddio Testfiltering)
- mae adroddiadau log yn wybodaeth sy'n helpu i wneud penderfyniadau diogelu.

- ni ddibynnir ar unrhyw system ar ei phen ei hun; mae llwybrau adrodd a barn broffesiynol yn ganolog o hyd.

Rhoddir manylion pellach yn Atodiad C1 – Templed Polisi Hidlo a Monitro

Diogelwch Technegol

Mae'r ysgol yn cymryd camau i sicrhau bod ei seilwaith technegol yn ddi-risg, dibynadwy, cael ei rheoli'n dda a chwrdd â'r gofynion statudol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod:

- mynediad at systemau a data'n cael ei reoli drwy ddilysu a chaniatâd priodol
- dyfeisiau, rhwydweithiau a systemau'n cael eu diogelu drwy ffurfweddu diogel, patsho a rhaglenni gwrth-faleiswedd
- trefniadau storio wrth gefn ac adfer yn eu lle i leihau effaith systemau'n methu neu ymosodiad
- digwyddiadau a gwendidau'n cael eu hadrodd, cofnodi a'u defnyddio i oleuo gwelliannau
- cyfrifoldebau am ddiogelwch technegol wedi eu diffinio'n glir a'u cefnogi gan arbenigedd priodol
- systemau'n cael eu hadolygu a'u profi'n gyson, yn cwrdd â gofynion statudol a delio â bygythiadau newydd.

Rhoddir mwy o fanylion yn Atodiad C2 – Templed Polisi Diogelwch Technegol.

Seiberddiogelwch

Mae'r ysgol yn cydnabod seiberddiogelwch fel cyfrifoldeb arweinyddiaeth a llywodraethu ac yn cymryd camau i leihau risg ac effaith digwyddiadau seiber. Mae'n cydnabod bod seiberddiogelwch yn fater diogelu, nid dim ond mater technegol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod:

- dull seiberddiogelwch yn ei le i atal, canfod, ymateb i ac adfer o fygythiadau seiber
- uwch-arweinwyr a llywodraethwyr yn deall risgiau seiber a derbyn sicrwydd priodol
- staff a dysgwyr yn cael eu haddysgu / hyfforddi i adnabod ac adrodd pryderon seiberddiogelwch
- trefniadau parhad busnes ac ymateb i ddigwyddiad yn eu lle ac yn cael eu hadolygu
- trefniadau seiberddiogelwch yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd yn unol â risgiau newydd.

Rhoddir mwy o fanylion yn Atodiad C3 – Templed Polisi Seiberddiogelwch.

Diogelu Data

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddiogelu data personol a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae (Deddf Data (Defnyddio a Mynediad) 2025 yn rhoi gofynion ychwanegol ar ysgolion – yn benodol bod gwasanaethau ar-lein a ddefnyddir gan ddysgwyr yn cwrdd â safonau diogelu uwch)

Mae'r ysgol yn sicrhau bod:

- data personol yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, teg a thryloyw
- Swyddog Diogelu Data (DPO) yn cael eu penodi a threfniadau llywodraethu priodol yn eu lle
- yr holl staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gallu ymateb yn briodol i ddigwyddiadau diogelu data.
- systemau yn eu lle i ymateb yn effeithiol i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau Mynediad at Ddata (gan destun y data)
- Asesiadau Effaith Diogelu Data wedi eu gwneud ar feddalwedd a systemau presennol a rhai y bwriedir eu defnyddio.
- hysbysiadau preifatrwydd yn egluro sut y defnyddir data a sut y gall bobl ymarfer eu hawliau
- data'n cael ei storio, rhannu a'i waredu'n ddiogel
- torri rheolau data'n cael ei adrodd a'i reoli'n unol â gofynion cyfreithiol
- diogelu data wedi'i wreiddio ar draws diogelu, addysgu, dysgu a gweinyddu.
- os defnyddir AI a Phenderfyniadau Awtomataidd, bod trosolwg dynol ar benderfyniadau pwysig, asesiadau risg yn cael eu gwneud a'r ysgol yn sicrhau bod systemau awtomataidd yn dryloyw a hawdd eu hesbonio.

Rhoddir mwy o fanylion yn Atodiad C4 – Templed Polisi Diogelu Data.

Adolygu

Mae'r trefniadau hidlo, monitro, seiberddiogelwch a diogelwch technegol a diogelu data'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu:

- newidiadau mewn technoleg
- risgiau diogelu newydd
- canllawiau cenedlaethol a disgwyliadau statudol

Ymarfer Technoleg

Pwrpas

Mae'r ysgol yn cydnabod bod defnydd diogel a chyfrifol dydd i ddydd o dechnoleg yn chwarae rôl hollbwysig mewn diogelu plant gan gefnogi eu dysgu a gwarchod cymuned yr ysgol. Mae disgwyliadau clir, ymarfer cyson a defnyddwyr gwybodus yn helpu i leihau risg a defnyddio technolegau digidol yn bositif a phwrpasol.

Mae'r dull hwn yn cefnogi'r dyletswyddau diogelu yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel gan bwysleisio'r cyfrifoldeb diogelu ac ysgol-gyfan, gan gynnwys y gofynion i ddelio â pheryglon diogelwch ar-lein drwy bolisi, ymarfer, addysg a hyfforddiant staff.

Mae trefniadau manwl wedi'u nodi yn yr atodiadau polisi perthnasol, gan gynnwys y templedi Diogelwch Technegol, Seiberddiogelwch, Diogelwch Data, Hidlo a Monitro, Rheoli Dyfeisiau a Chyfathrebu Cyhoeddus Ar-lein.

Rheoli Dyfeisiau

Mae'r ysgol yn rheoli'r defnydd o ddyfeisiau digidol mewn ffordd sy'n cefnogi diogelu, dysgu ac ymddygiad cyfrifol. Mae hyn yn adlewyrchu gofynion Cadw Dysgwyr yn Ddiogel bod angen polisi clir ar ffonau symudol / technoleg glyfar gan gysylltu defnyddio dyfeisiau'n benodol i ymddygiad, diogelu ac addysg.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod:

- disgwyliadau ar gyfer dyfeisiau'r ysgol a rhai personol yn cael eu diffinio a'u cyfathrebu'n glir
- defnydd o ddyfeisiau'n gyson â pholisïau diogelu, ymddygiad, diogelu data a defnydd derbyniol
- mesurau rheoli technegol a gweithdrefnol priodol yn eu lle i gefnogi defnydd diogel
- staff, dysgwyr ac ymwelwyr wedi eu hyfforddi / addysgu / hysbysu ac yn deall eu cyfrifoldebau wrth ddefnyddio dyfeisiau ar safle neu systemau'r ysgol
- addysg am ddefnydd diogel a chyfrifol o ddyfeisiau'n rhan o addysg diogelwch ar-lein yr ysgol
- mae polisïau clir ynghylch a yw dysgwyr yn cael defnyddio ffonau symudol neu ddyfeisiau clyfar personol eraill yn ystod y diwrnod ysgol
- mae unrhyw eithriadau i'r polisi ffonau symudol a dyfeisiau digidol eraill yn gyfyngedig, wedi'u diffinio'n glir, wedi'u hawdurdodi a'u rheoli'n briodol, er enghraifft lle bo angen am resymau meddygol, diogelu, hygyrchedd neu sy'n gysylltiedig ag ADY
- mae'r staff yn modelu gofynion yr ysgol ac yn defnyddio dyfeisiau personol dim ond pan fyddant wedi'u hawdurdodi a phan fydd hynny'n briodol yn broffesiynol
- mae gweithdrefnau'n cynnwys meddiannu, storio, cymryd oddi arnynt, chwilio a dychwelyd dyfeisiau, yn unol â pholisi'r ysgol a chanllawiau perthnasol.

Bod asesiadau risg yn goleuo penderfyniadau ar ddefnyddio dyfeisiau ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cynnwys Digidol

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall cynnwys digidol aml-foddol (gan gynnwys deallusrwydd artiffisial) gyfoethogi dysgu a chyfathrebu wrth eu defnyddio'n gyfrifol. Mae ei dull gweithredu yn cefnogi

gofynion diogelu yn benodol, delweddau rhywiol, cydsyniad, gorfodaeth, preifatrwydd a rhannu neu gamddefnyddio cynnwys.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod:

- disgwyliadau clir yn eu lle ar gyfer creu, defnyddio, storio a rhannu cynnwys digidol
- ystyriaethau caniatâd, preifatrwydd a diogelu'n cael eu cymhwyso'n gyson
- staff a dysgwyr yn cael eu hyfforddi / addysgu i ddeall eu cyfrifoldebau wrth greu neu rannu cynnwys digidol
- data a lluniau personol yn cael eu trin yn ddiogel a chyfreithlon
- defnyddir llwyfannau a chyfrifon a gymeradwyir gan yr ysgol lle mae'r cynnwys yn cynnwys gwybodaeth bersonol neu sensitif
- mae staff a dysgwyr yn deall y gall cynnwys gael ei gopïo, ei newid, ei ailgyhoeddi neu ei ddosbarthu y tu hwnt i'w gynulleidfa darged, gan gynnwys drwy dechnolegau deallusrwydd artiffisial
- Mae cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial neu gynnwys a gynorthwyir gan ddeallusrwydd artiffisial yn cael ei adolygu ar gyfer cywirdeb, cyfreithlondeb, priodoldeb, tuedd, tryloywder, hawlfraint a risg diogelu cyn ei ddefnyddio neu ei gyhoeddi
- Mae staff yr ysgol yn ymwybodol o'r canlynol ac yn eu deall: cyngor ac arweiniad i gefnogi lleoliadau addysg i ddeall ac ymateb i risgiau o ran diogelu sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial.
- polisi ac ymarfer yn cael eu hadolygu yn sgîl risgiau a thechnolegau newydd.

Cyfathrebu Ar-lein Cyhoeddus

Mae'r ysgol yn defnyddio cyfathrebu ar-lein i ddarparu gwybodaeth, dathlu llwyddiant ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach, gan hefyd reoli'r risgiau cysylltiedig. Mae'n cefnogi disgwyliadau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel o gwmpas ffiniau proffesiynol ac ymddygiad staff ar-lein, delio â risgiau llwyfannau cyhoeddus i ddiogelu ac enw da'r ysgol, ac atgyfnerthu ymgysylltu a thryloywder gyda rhieni. Mae wedi ystyried y risg o AI yn cam-drin lluniau, fel y mae canllawiau grŵp Rhybudd Cynnar o Niwed Ar-lein y DU yn ei nodi yn Diogelu lluniau eich lleoliad rhag cael eu cam-drin a cham-ddefnyddio gan AI

Mae'r ysgol yn sicrhau bod:

- cyfathrebu ar-lein cyhoeddus yn briodol, cywir ac yn cael ei reoli'n dda
- cyfathrebu cyhoeddus gan neu am yr ysgol yn cael ei fonitro gan ddelio ag unrhyw broblem lle bo'n briodol
- cynnwys a gyhoeddir yn cydymffurfio â gofynion diogelu, diogelu data a statudol.
- i leihau'r risg bod lluniau staff a dysgwyr sydd ar gael yn gyhoeddus yn cael eu cam-drin yn anghyfreithlon, mae ganddi weithdrefnau yn eu lle i reoli sut y rhennir y lluniau hynny ar-lein. (Canllawiau Hwb ar we-grafu)
- dim ond staff awdurdodedig a hyfforddedig sy'n cael cyhoeddi cyfathrebiadau'n gyhoeddus

- Mae cyfathrebiadau cyhoeddus â chymorth deallusrwydd artiffisial yn cael eu gwirio gan berson cyfrifol priodol cyn eu cyhoeddi ac maent yn parhau i fod yn destun atebolrwydd dynol
- gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein yn cael ei rhannu â rhieni, gofalwyr a'r gymuned
- prosesau clir yn eu lle i reoli cyfrifon ar-lein yr ysgol
- staff yn deall y disgwyliadau o ran ymddygiad proffesiynol ac ar-lein
- mae'r ysgol yn cyfleu newidiadau sydd wedi'u cadarnhau i bolisi yn unol ag arferion gorau a chanllawiau'r Llywodraeth.

Adolygu

Mae ymarfer technoleg yn cael ei adolygu'n gyson i adlewyrchu:

- newidiadau mewn technoleg ac ymddygiad ar-lein
- risgiau diogelu newydd
- adborth gan staff, dysgwyr a rhieni
- canllawiau cenedlaethol a disgwyliadau statudol

Canlyniadau

Mae effaith y Polisi Diogelwch Ar-lein ac ymarfer yn cael ei werthuso'n rheolaidd yn defnyddio tystiolaeth fel logiau digwyddiadau diogelwch ar-lein, cofnodion ymddygiad a bwlio, ac arolygon staff, dysgwyr a rhieni / gofalwyr. Dylid diffinio a gwerthuso sut y gwerthusir canlyniadau myfyrwyr fel rhan o'u cadw'n ddiogel ar-lein, fel rhan o brosesau asesu'r ysgol. Adroddir y canfyddiadau i grwpiau perthnasol a'u defnyddio i gryfhau'r ymarfer.

Mae'r broses yn sicrhau bod:

- Tystiolaeth o archwiliadau ac adolygiadau'n cael ei thrafod drwy drafodaeth broffesiynol gytbwys ochr yn ochr ag effaith gwaith atal (addysg, ymwybyddiaeth a hyfforddiant).
- Mae llwybrau adrodd clir yn eu lle fel bod patrymau, themâu a chanlyniadau'n cael eu rhannu'n rheolaidd ag uwch-arweinwyr a llywodraethwyr.
- Hysbysir rhieni / gofalwyr o batrymau a dysgu allweddol drwy weithgareddau ymwybyddiaeth a chyfathrebu diogelwch ar-lein yr ysgol.
- Mae diogelwch ar-lein a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu diweddaru mewn ymateb i dystiolaeth a risgiau newydd.
- Mae dysgu a thystiolaeth o effaith yn cael ei rannu, lle bo'n briodol, ag ysgolion eraill, asiantaethau ac awdurdodau lleol i gefnogi dull lleol cyson o weithredu diogelwch ar-lein.

Rhestr Atodiadau

Mae copïau o dempledi'r polisïau a chytundebau mwy manwl, sydd yn yr atodiad, ar gael yn adran ddolenni ac adnoddau'r agweddau perthnasol yn yr offeryn hunan-adolygu 360 safe, ac ar-lein yn Cadw'n Ddiogel Ar-lein ar Hwb

Mae'r atodiadau fel a ganlyn:

A1 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Dysgwr – dysgwyr hŷn
A2 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Dysgwr – dysgwyr Cynradd
A3 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Dysgwr – dysgwyr iau
A4 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhiant / Gofalwr
A5 – Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol Staff (a Gwirfoddolwyr)
A6 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Defnyddwyr Cymunedol
A7 – Templed Datganiad Polisi Diogelwch Ar-lein
A8 – Templed Polisi Ymddygiad Rhywiol Niweidiol
A9 – Templed Polisi Camddefnyddio Cyfrifiaduron a Dewisiadau Seiber
A10 – Ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnyddio – siart llif
A11 – Cofnod o adolygu dyfeisiau / gwefannau (ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnyddio)
A12 – Log Adroddiadau
B1 – Log Archwilio Anghenion Hyfforddiant
C1 – Templed Polisi Hidlo a Monitro
C2 – Templed Polisi Diogelwch Technegol (gan gynnwys Diogelwch Technegol a Rheoli Dyfeisiau)
C3 – Templed Polisi Seiberddiogelwch
C4 – Templed Polisi Diogelu Data
C5 – Templed Polisi Cyfathrebu Ar-lein Cyhoeddus
C6 – Templed Polisi Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Ysgolion
Deddfwriaeth
Dolenni i sefydliadau ac adnoddau eraill

Hoffai SWGfL gydnabod ystod o unigolion a sefydliadau y mae eu polisïau, dogfennau, cyngor ac arweiniad wedi cyfrannu at ddatblygu'r templed Polisi Diogelwch Ar-lein hwn ar gyfer ysgolion, a'r offeryn hunan-adolygu diogelwch ar-lein 360 safe:

SWGfL yw perchennog hawlfraint y templedi polisi hyn. Caniateir i ysgolion a sefydliadau addysgol eraill ddefnyddio'r templedi polisi am ddim i bwrpas adolygu a datblygu polisi. Dylai unrhyw berson neu sefydliad sydd am ddefnyddio'r ddogfen ar gyfer unrhyw bwrpas arall ofyn am ganiatâd gan SWGfL (onlinesafety@swgfl.org.uk) a chydnabod ei ddefnydd.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir, ar ddyddiad ei chyhoeddi yn Awst 2026. Fodd bynnag ni all SWGfL sicrhau ei chywirdeb ac nid yw ychwaith yn derbyn cyfrifoldeb am y defnydd a wneir o'r deunydd.

© SWGfL 2026

Atodiad A1- Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Dysgwr – dysgwyr hŷn

Mae'r darnau sy'n cynnwys cyngor neu arweiniad mewn GLAS. Dylai ysgolion adolygu a diwygio cynnwys y cytundeb hwn i sicrhau ei fod yn gyson â'u polisi diogelwch ar-lein a pholisïau perthnasol eraill yr ysgol.

Pwrpas y cytundeb defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:

- y bydd pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r we a thechnolegau digidol eraill at ddefnydd addysgol, personol a hamdden.
- bod systemau'r ysgol a'u defnyddwyr wedi eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai roi diogelwch y systemau yn y fantol a bod ganddynt fynediad da at dechnolegau digidol i'w cynorthwyo i ddysgu gan ddisgwyl, yn ei dro, bod y dysgwyr yn cytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

Ffurflen Cytundeb Defnydd Derbyniol Dysgwr

Cytunaf i ddefnyddio systemau digidol, dyfeisiau a gwasanaethau ar-lein yr ysgol yn gyfrifol i warchod fy niogelwch, diogelwch systemau'r ysgol, a phobl eraill.

Diogelwch Personol

- Bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o'i systemau, dyfeisiau, gwasanaethau ar-lein a'i chyfathrebu digidol.
- Byddaf yn cadw fy enwau defnyddwyr a fy nghyfrineiriau'n ddiogel a phreifat. Os oes bygythiad i'w diogelwch, byddaf yn adrodd hyn neu'n eu newid yn syth.
- Byddaf ond yn rhannu gwybodaeth bersonol fel fy enw neu gyfeiriad, pan fo wir angen a gyda chaniatâd.
- Byddaf yn ofalus wrth gyfarfod â chysylltiadau ar-lein wyneb yn wyneb, a dim ond gydag oedolyn ymddiriedol mewn lle cyhoeddus.
- Byddaf yn cymryd cyfrifoldeb am fy ngweithredoedd ar-lein, ac yn blocio, adrodd neu ddod â sgwrs i ben lle bo angen.
- Byddaf yn rhannu lluniau ohonof fy hun dim ond pan fo'n ddiogel ac yn sicrhau bod y lluniau'n briodol a pharchus.
- Byddaf ond yn tynnu neu'n rhannu lluniau ohonof fy hun, neu eraill, yn fy nillad i gyd. Rwy'n deall y gall rhannu cynnwys noeth neu hanner noeth achosi trallod, fod yn anghyfreithlon ac arwain at erlyn / cofnod troseddol.
- Rwy'n deall y gellir copïo, newid (gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial) delweddau a fideos a'u rhannu y tu hwnt i'm rheolaeth.
- Byddaf yn rhoi gwybod am ddeunydd neu negeseuon niweidiol neu annifyr neu unrhyw beth sy'n fy mhoeni neu'n fy ypsetio, i oedolyn ymddiriedol.

Parchu Gwaith a Gwybodaeth Pobl Eraill

- Byddaf yn gofyn am ganiatâd cyn defnyddio neu addasu gwaith rhywun arall.
- Byddaf yn gwirio gwybodaeth a welaf ar-lein, oherwydd nid yw bob amser efallai'n gywir neu'n wir.
- Byddaf ond yn defnyddio dulliau Deallusrwydd Artiffisial (AI) a gymeradwywyd gan yr ysgol gan sicrhau bod fy nefnydd yn foesegol, cyfreithlon a thryloyw.
- Byddaf yn gwirio cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial yn ofalus, gan gydnabod y gallai fod yn anghywir, yn gamarweiniol neu'n rhagfarnllyd, cyn ei ddefnyddio neu ei rannu.
- Pan fyddaf yn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i helpu i greu cynnwys digidol, byddaf yn sicrhau ei fod yn cael ei labelu felly.
- Byddaf yn osgoi lawrlwytho neu ddefnyddio deunydd gyda hawlfraint neu wedi'i warchod heb ganiatâd priodol.

Ymddwyn yn Gyfrifol Ar-lein

- Byddaf yn gwrtais a chyfrifol wrth gyfathrebu ag eraill. Ni ddefnyddiaf iaith gref, ymosodol neu amhriodol ac rwy'n deall y gallai fod gan bobl eraill farn wahanol.
- Ni wnaf fwlio, harasio, bygwth, ypsetio neu'n gwneud hwyl am ben eraill.
- Byddaf ond yn defnyddio llwyfannau neu feddalwedd a gymeradwywyd gan yr ysgol ac ni cheisiaf osgoi systemau hidlo / diogelwch. Os dof i wybod am ymgais o'r fath, byddaf yn adrodd hyn i oedolyn ymddiriedol.
- Rwy'n deall y gall risgiau seiberddiogelwch gynnwys gwe-rwydo, sgamiau, cynnwys wedi'i gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial a negeseuon ffug. Byddaf yn meddwl yn ofalus cyn agor dolenni, rhannu gwybodaeth neu ymateb i geisiadau annisgwyl.
- Byddaf yn adrodd unrhyw ddifrod, bai neu ddiffyg gyda chyfarpar neu feddalwedd yn syth, sut bynnag y digwyddodd.
- Byddaf yn dilyn gofynion yr ysgol ar gyfer defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau personol eraill ac yn parchu'r gofynion isafswm oedran ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, apiau a gwasanaethau ar-lein.
- Rwy'n deall bod cyfyngiadau oed wedi'u cynllunio i helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc. Os byddaf yn defnyddio gwasanaethau ar-lein, byddaf yn gwneud hynny'n ddiogel, yn gyfrifol ac yn unol â gofynion yr ysgol.
- Byddaf yn cydbwyso fy ngweithgareddau ar-lein ac all-lein i hybu ffordd iach o fyw.
- Byddaf yn diogelu fy enw da ar-lein ac enw da'r ysgol, ei staff, a dysgwyr eraill.
- Byddaf yn sicrhau bod fy ymddygiad yn adlewyrchu'n dda ar yr ysgol, o fewn a thu allan i leoliadau'r ysgol.

- Rwy'n deall y gallai rhai pobl ystyried rhai mathau o ymddygiad ar-lein i fod yn hwyl ond gall y canlyniadau fod yn ddifrifol – gan gynnwys tynnu (neu rannu) lluniau / fideos o staff, cwffio, dysgwyr mewn sefyllfaoedd a allai achosi embaras, neu greu cyfrifon ffug.
- Rwy'n gwybod fy mod i'n gallu siarad ag oedolyn rwy'n ymddiried ynddo os ydw i'n poeni am unrhyw beth rwy'n ei weld neu'n ei brofi ar-lein, hyd yn oed os ydw i'n meddwl fy mod i wedi torri un o'r rheolau hyn.

Canlyniadau Cam-ddefnyddio

- Rwy'n deall y gallai methu â dilyn y cytundeb hwn arwain at ganlyniadau, gan gynnwys colli mynediad at systemau'r ysgol, cadw ar ôl ysgol, atal dros dro, cysylltu â rhieni / gofalwyr, neu gynnwys yr heddlu mewn achosion difrifol.

Drwy ddilyn y canllawiau hyn, byddaf yn cyfrannu at amgylchedd ar-lein diogel, parchus a chynhyrchiol.

Rwyf wedi darllen a deall yr uchod ac yn cytuno i ddilyn y canllawiau hyn wrth:

- Ddefnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (o fewn a thu allan i'r ysgol)
- Defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol (pan ganiateir hyn)
- Defnyddio technolegau digidol y tu allan i'r ysgol mewn ffordd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r ysgol hon, e.e. cyfathrebu ag aelodau eraill o'r ysgol, agor a darllen e-byst a mynd ar wefan yr ysgol ayyb.

(Bydd angen i ysgolion benderfynu ydyn nhw angen i ddysgwyr lofnodi neu ond eu gwneud yn ymwybodol o ddefnydd derbyniol drwy raglenni addysg / codi ymwybyddiaeth).

Enw'r Dysgwr: ..... Grŵp / Dosbarth: .....

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

.....

Gwrthlofnod Rhiant / Gofalwr (dewisol)

Mater i ysgolion yw penderfynu a fydd angen i rieni / gofalwyr lofnodi'r cytundeb defnydd derbyniol rhiant / gofalwr (wele'r templed nes ymlaen yn y ddogfen hon). Mae hyn yn cynnwys nifer o ffurflenni caniatâd eraill (gan gynnwys lluniau digidol a fideo / caniatâd biometrig / caniatâd cyfrifiadura cwmwl).

Yn hytrach, gallai rhai ysgolion benderfynu ychwanegu blwch gwrthlofnod rhiant / gofalwr at y cytundeb defnydd derbyniol dysgwr hwn.

Atodiad A2 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol – dysgwyr cynradd

Mae'r darnau sy'n cynnwys cyngor neu arweiniad mewn GLAS. Dylai ysgolion adolygu a diwygio cynnwys y cytundeb hwn i sicrhau ei fod yn gyson â'u polisi diogelwch ar-lein a pholisïau perthnasol eraill yr ysgol.

Pwrpas y cytundeb defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:

- y bydd gan ddysgwyr fynediad da at ddyfeisiau a chynnwys ar-lein, y byddant yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio technoleg ddigidol i bwrpas addysgol, personol a hamdden
- helpu dysgwyr i ddeall ymddygiad ar-lein da yn yr ysgol, ond hefyd y tu allan i'r ysgol
- diogelu dyfeisiau a rhwydweithiau'r ysgol rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai roi diogelwch y systemau a'u defnyddwyr yn y fantol.

Cytundeb Defnydd Derbyniol

Cytunaf i ddefnyddio systemau digidol, dyfeisiau a gwasanaethau ar-lein yr ysgol yn ddiogel a chyfrifol i warchod fy niogelwch i, dysgwyr eraill a diogelwch systemau'r ysgol.

Aros yn Ddiogel Ar-lein

- Bydd yr ysgol yn gwirio sut y defnyddiaf ddyfeisiau a gwasanaethau ar-lein ~~a'r we~~ i gadw pawb yn ddiogel.
- Byddaf yn cadw fy enwau defnyddiwr a fy nghyfrineiriau'n breifat ac yn dweud wrth oedolyn ymddiriedol os bydd rhywun arall yn dod i wybod amdanynt.
- Byddaf yn ofalus wrth siarad gyda phobl ar-lein a dim ond yn siarad â phobl rwy'n eu hadnabod ac ymddiried ynddynt.
- Ni fyddaf yn rhannu gwybodaeth bersonol fel fy enw, cyfeiriad neu luniau heb ofyn i oedolyn ymddiriedol.
- Byddaf ond yn tynnu neu'n rhannu lluniau ohonof fy hun, neu eraill, yn fy nillad i gyd.
- Os gwelaf neu os clywaf rywbeth ar-lein sy'n fy mhoeni neu ypsetio, byddaf yn dweud wrth oedolyn ymddiriedol yn syth.
- Byddaf ond yn cwrdd â phobl rwyf wedi siarad gyda nhw ar-lein os bydd oedolyn ymddiriedol gyda fi.

Defnyddio Dyfeisiau a Gwasanaethau Ar-lein yn Gall

- Dim ond dyfeisiau, apiau, gemau a gwefannau y mae fy athro/athrawes neu riant/gofalwr yn dweud sy'n addas ar gyfer fy oedran y byddaf yn eu defnyddio.

- Rwy'n gwybod nad ydw i'n cael defnyddio rhai gwasanaethau ar-lein ac rwy'n gwybod beth yw'r rhain.
- Byddaf o hyd yn gofyn am ganiatâd ac yn gwirio ag oedolyn ymddiriedol cyn defnyddio gwaith neu luniau rhywun arall.
- Byddaf yn sicrhau bod y wybodaeth y dof ar ei thraws ar-lein yn wir drwy wirio'n ofalus.
- Byddaf ond yn defnyddio apiau neu bethau fel AI os dywedodd fy athrawes eu bod yn ocê, gan ofyn am help os na fyddaf yn siŵr.
- Ni fyddaf yn copïo na'n defnyddio miwsig, fideos neu gemau oni bai bod gen i ganiatâd.
- Byddaf yn dweud wrth oedolyn ymddiriedol am unrhyw ddifrod i ddyfeisiau neu os bydd unrhyw beth arall yn mynd o'i le.
- Byddaf yn holi oedolyn ymddiriedol cyn clicio ar unrhyw neges neu ddolen annisgwyl (hyd yn oed os ydyn nhw'n edrych fel rhai a ddaeth gan bobl rwy'n eu hadnabod).

Bod yn Barchus a Chyfrifol

- Byddaf yn trin pobl eraill yn garedig ar-lein, fel yn y byd go iawn.
- Byddaf yn gwneud dewisiadau da am beth i'w rannu ar-lein i ddiogelu fy hun ac eraill.
- Rwy'n deall nad yw pob ap neu wefan yn addas ar gyfer plant fy oedran i.
- Os ydw i eisiau ymuno ag ap, gêm neu gymuned ar-lein newydd, byddaf yn siarad ag oedolyn rwy'n ymddiried ynddo yn gyntaf.
- Byddaf yn defnyddio dyfeisiau am amser iach gan wneud amser ar gyfer gweithgareddau eraill hefyd.
- Byddaf o hyd yn meddwl sut y gallai fy ymddygiad ar-lein effeithio arnaf i, fy ffrindiau, a fy ysgol.
- Os ydw i'n gwneud camgymeriad ar-lein, rwy'n gwybod y gallaf ofyn i oedolyn rwy'n ymddiried ynddo am help.

Beth Sy'n Digwydd Os Torraf y Rheolau Hyn?

- Os na ddilynaf y rheolau hyn, gallai fy athro fy atal rhag defnyddio cyfrifiaduron neu ddyfeisiau, cael gair â fy rhieni neu ofalwyr neu gymryd camau eraill i fy helpu i wneud dewisiadau gwell yn y dyfodol.

Drwy ddilyn y rheolau hyn, gallaf fwynhau defnyddio technoleg yn ddiogel a chyfrifol.

Rwyf wedi darllen a deall yr uchod ac yn cytuno i ddilyn y canllawiau hyn wrth:

- Ddefnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (o fewn a thu allan i'r ysgol)
- Defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol (gyda chaniatâd), e.e. ffôn symudol, dyfeisiau gêmio ac USB, camerâu, ayyb.
- Pan fyddaf allan o'r ysgol ac yn rhan o unrhyw ymddygiad ar-lein a allai effeithio ar yr ysgol neu aelodau eraill o'r ysgol.

Enw'r Dysgwr: ..... Grŵp / Dosbarth: .....

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

Bydd angen i ysgolion benderfynu ydyn nhw angen i ddysgwyr lofnodi neu ond eu gwneud yn ymwybodol drwy raglenni addysg / codi ymwybyddiaeth.

Gwrthlofnod Rhiant / Gofalwr (dewisol)

Mater i ysgolion yw penderfynu a fydd angen i rieni / gofalwyr lofnodi'r cytundeb defnydd derbyniol rhiant / gofalwr (wele'r templed nes ymlaen yn y ddogfen hon yn y Cytundeb Rhiant / Gofalwr). Mae hyn yn cynnwys nifer o ffurflenni caniatâd eraill (gan gynnwys lluniau digidol a fideo / caniatâd biometrig / caniatâd cyfrifiadura cwmwl).

Yn hytrach, gallai rhai ysgolion benderfynu ychwanegu blwch gwrthlofnod rhiant / gofalwr at y cytundeb defnydd derbyniol dysgwr hwn.

Atodiad A3 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol – dysgwyr iau

Ein Rheolau Technoleg

Byddaf yn dilyn y rheolau hyn i ddefnyddio cyfrifiaduron, dyfeisiau llechen a'r we'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rheolau hyn yn ein helpu i gyd i aros yn ddiogel a chael hwyl yn defnyddio cyfrifiaduron a dyfeisiau llechen yn yr ysgol!

Aros yn Ddiogel

- Bydd fy athro neu athrawes yn gwylio beth a wnaf ar gyfrifiaduron, dyfeisiau llechen a'r we i fy nghadw'n ddiogel.
- Byddaf yn cadw fy nghyfrineiriau'n gyfrinach a dweud wrth yr athro os oes angen help arnaf.
- Rwy'n deall nad yw pobl ar-lein bob amser yn bwy y maen nhw'n dweud ydyn nhw. Byddaf ond yn siarad gyda phobl ar-lein os bydd fy athrawes neu oedolyn ymddiriedol yn dweud bod hynny'n ocê.
- Ni fyddaf yn rhannu fy enw, cyfeiriad na lluniau heb ofyn i fy athrawes neu oedolyn ymddiriedol yn gyntaf.
- Os gwelaf rywbeth sy'n fy mhoeni neu ypsetio, byddaf yn dweud wrth fy athro neu oedolyn ymddiriedol yn syth.
- Dim ond apiau a gemau y mae oedolyn rwy'n ymddiried ynddo yn dweud sy'n iawn i mi y byddaf i'n eu defnyddio.
- Os ydw i eisiau rhoi cynnig ar gêm neu ap newydd, byddaf yn gofyn i oedolyn rwy'n ymddiried ynddo yn gyntaf.

Defnyddio Technoleg yn Garedig

- Byddaf yn garedig wrth ddefnyddio technoleg, fel yn y byd go iawn.
- Byddaf yn gofalu am y cyfrifiaduron a'r dyfeisiau llechen a ddefnyddiaf.
- Byddaf ond yn edrych ar bethau os dywedodd fy athro eu bod yn ocê.

Gwneud Dewisiadau Da

- Byddaf yn gofyn i fy athrawes cyn defnyddio lluniau neu waith rhywun arall.
- Byddaf yn cymryd hoe reolaidd o sgriniau ac yn gwneud pethau hwyl eraill hefyd.
- Gwn y gallaf ddweud na / stopiwch wrth unrhyw un ar-lein sy'n gwneud i fi deimlo'n drist, annifyr, embaras neu'n fy ypsetio.
- Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le neu os nad ydw i'n siŵr beth i'w wneud, byddaf yn dweud wrth fy athro neu oedolyn rwy'n ymddiried ynddo oherwydd eu bod yno i fy helpu.

Beth sy'n Digwydd os Anghofiaf y Rheolau

- Os anghofiaf y rheolau, bydd fy athro yn fy helpu i ddysgu sut i wneud dewisiadau gwell y tro nesaf.

Llofnod (plentyn): .....

(Bydd angen i'r ysgol benderfynu ydyn nhw eisiau i blant lofnodi'r cytundeb neu beidio – ac ym mha oed – ar gyfer plant iau, dylai llofnod rhiant / gofalwr fod yn ddigon)

Llofnod (rhiant): .....

Atodiad A4 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhiant / Gofalwr

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan annatod o fywydau plant a phobl ifanc, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae'r technolegau hyn yn ddulliau pwerus sy'n agor drysau cyfle newydd i bawb. Maen nhw'n gallu ysgogi trafodaeth, hybu creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i hyrwyddo dysgu effeithiol. Dylai fod gan bobl ifanc hawl i gael mynediad diogel i'r we bob amser.

Pwrpas y polisi defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:

- y bydd pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r we a thechnolegau cyfathrebu eraill at ddefnydd addysgol, personol a hamdden.
- bod systemau'r ysgol a'u defnyddwyr wedi eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai roi diogelwch y systemau a'u defnyddwyr yn y fantol.
- bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch ar-lein ac yn cyfrannu at addysg a rhoi arweiniad i bobl ifanc o ran sut i ymddwyn ar-lein.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad da at dechnolegau digidol i wella eu dysgu gan ddisgwyl hefyd bod dysgwyr yn cytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol. Mae copi o'r cytundeb defnydd derbyniol dysgwr wedi'i atodi i'r ffurflen ganiatâd hon fel bod rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o sut y mae'r ysgol yn disgwyl i bobl ifanc yn eu gofal ymddwyn.
Gofynnir i rieni a gofalwyr lofnodi'r ffurflen ganiatâd isod i ddangos eu cefnogaeth o'r ysgol yn yr agwedd bwysig yma ar waith yr ysgol. (Bydd angen i ysgolion benderfynu ydyn nhw eisiau i rieni a gofalwyr lofnodi'r cytundeb defnydd derbyniol ar ran eu plentyn)

Ffurflen Ganiatâd

Enw'r Rhiant / Gofalwr: .....

Enw'r Dysgwr: .....

Fel rhiant / gofalwyr y dysgwr uchod, rwy'n rhoi caniatâd i fy mhlentyn gael mynediad at dechnolegau digidol yr ysgol.

Rwy'n deall bod yr ysgol wedi trafod y cytundeb defnydd derbyniol gyda fy mhlentyn ac wedi derbyn, neu y bydd yn derbyn, addysg diogelwch ar-lein i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnyddio technoleg a'r we'n ddiogel, o fewn a thu allan i'r ysgol.

Rwy'n deall y bydd yr ysgol yn cymryd rhagofalon rhesymol, gan gynnwys systemau monitro a hidlo, i sicrhau bod pobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio'r we a'i systemau. Rwyf hefyd yn deall na all yr

ysgol, yn y pen draw, fod yn gyfrifol am natur a chynnwys y deunyddiau a gyrchir ar y we ac wrth ddefnyddio dyfeisiau.

Rwy'n deall y bydd defnydd fy mhlentyn o'r systemau'n cael ei fonitro ac y bydd yr ysgol yn cysylltu gyda fi os oes ganddynt bryderon am achos posib o dorri'r cytundeb defnydd derbyniol.

Byddaf yn annog fy mhlentyn i ddefnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel adref ac yn rhoi gwybod i'r ysgol os byddaf yn poeni am ddiogelwch ar-lein fy mhlentyn.

Oherwydd bod yr ysgol yn casglu data personol drwy'r ffurflen hon, dylai hysbysu rhieni / gofalwyr ynghylch:

Y ffurflen hon (electronig neu brint)
Pwy fydd â mynediad at y ffurflen hon.
Ble fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw.
Am ba hyd fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw.
Sut fydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio.

Llofnod: .....

Dyddiad: .....

Defnyddio Lluniau Digidol / Fideo

Mae defnyddio lluniau digidol / fideo'n rhan bwysig o weithgareddau dysgu. Gall dysgwyr a staff recordio tystiolaeth o weithgareddau mewn gwersi a thu allan i'r ysgol. Gall y lluniau yna gael eu defnyddio mewn cyflwyniadau mewn gwersi eraill.

Gallai lluniau hefyd gael eu defnyddio i ddathlu llwyddiant drwy eu cyhoeddi mewn cylchlythyrau, ar wefan yr ysgol ac weithiau yn y cyfryngau cyhoeddus. Os bydd llun yn cael ei rannu'n gyhoeddus, ni chyhoeddir enwau gan osgoi, lle bo'n bosib, defnyddio lluniau 'wyneb ymlaen'.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn gofyn am ganiatâd rhiant / gofalwr cyn tynnu lluniau o aelodau'r ysgol.

Yn unol â chanllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae croeso i rieni / gofalwyr dynnu lluniau / fideos digidol o'u plant yn nigwyddiadau'r ysgol at eu defnydd personol (nid yw'r defnydd hwn yn dod o dan y Ddeddf Diogelu Data). I barchu preifatrwydd pawb ac weithiau i warchod, ni ddylid cyhoeddi'r lluniau hyn na threfnu iddynt fod ar gael i'r cyhoedd ar rwydweithiau cymdeithasol, ac ni ddylai rhieni / gofalwyr wneud sylw ar weithgareddau'n cynnwys dysgwyr eraill yn y lluniau / fideos digidol.

Gofynnir i rieni / gofalwyr lofnodi'r ffurflen ganiatâd isod fel bo'r ysgol yn gallu tynnu lluniau o'u plentyn a'u defnyddio a dangos cytundeb y rhieni / gofalwyr.

Oherwydd bod yr ysgol yn casglu data personol drwy'r ffurflen hon, dylai hysbysu rhieni / gofalwyr ynghylch:

Y ffurflen hon (electronig neu brint)	Y lluniau
Pwy fydd â mynediad at y ffurflen hon.	Ble y gallai'r lluniau gael eu cyhoeddi, e.e. Cyfryngau cymdeithasol, gwefan, yn y wasg leol, ayyb. (wele'r rhan berthnasol o'r ffurflen isod)
Ble fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw.	Pwy fydd yn cael gweld y lluniau
Am ba hyd fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw.	Ble fydd y lluniau'n cael eu cadw ac am ba hyd
Sut fydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio.	Sut fydd y lluniau'n cael eu dinistrio
	Sut i wneud cais i ddileu'r lluniau.

Ffurflen Ganiatâd Lluniau / Fideos Digidol

Enw'r Rhiant / Gofalwr:.....Enw'r Dysgwr:.....

Fel rhiant / gofalwr y plentyn uchod, rwy'n cytuno y gall yr ysgol dynnu lluniau / fideos digidol o fy mhlentyn / plant.	Ie / Na
Rwy'n cytuno i'r lluniau gael eu defnyddio:	
• i gefnogi gweithgareddau dysgu	Ie / Na

• fel rhan o gyhoeddusrwydd rhesymol i ddathlu llwyddiant a hybu gwaith yr ysgol	Ie / Na
Dylid mewnosod datganiadau fan hyn sy'n nodi'n glir lle fydd yr ysgol yn cyhoeddi lluniau	Ie / Na
Rwy'n cytuno os tynnaf luniau neu fideos digidol yn, neu o, ddigwyddiad yn yr ysgol sy'n cynnwys lluniau o blant heblaw fy mhlant fy hun, y byddaf yn glynu wrth y canllawiau hyn ar ddefnyddio'r lluniau hyn.	Ie / Na

Llofnod: .....

Dyddiad: .....

Defnyddio Ffurflen Ganiatâd Systemau Cwmwl

Gallai fod angen i ysgolion sy'n defnyddio gwasanaethau gwe-letya cwmwl ofyn am ganiatâd rhiant i greu cyfrif ar gyfer dysgwyr.

Bydd angen i ysgolion adolygu a diwygio'r rhan isod, gan ddibynnu ar ba wasanaeth gwe-letya cwmwl a ddefnyddir.

Mae'r ysgol yn defnyddio*enw darparwr y gwasanaeth cwmwl* ar gyfer dysgwyr a staff. Mae'r ffurflen ganiatâd hon yn disgrifio'r dulliau a chyfrifoldeb y dysgwr wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

Mae'r gwasanaethau canlynol ar gael i bob dysgwr fel rhan o bresenoldeb ar-lein yr ysgol yn*enw darparwr y gwasanaeth cwmwl*

Bydd defnyddio*enw darparwr y gwasanaeth cwmwl* yn cynorthwyo eich plentyn i gyd-greu, cyd-olygu a chyd-rannu ffeiliau a gwefannau fel rhan o brosiectau'r ysgol a chyfathrebu drwy e-bost â dysgwyr eraill a staff. Mae'r gwasanaethau hyn i gyd ar-lein ac ar gael 24/7 o unrhyw gyfrifiadur wedi'i gysylltu i'r we.

Mae'r ysgol o'r farn bod defnyddio'r dulliau hyn yn cyfoethogi profiad addysgol eich plentyn yn sylweddol.

Oherwydd bod yr ysgol yn casglu data personol a'i rannu â thrydydd parti, dylai hysbysu rhieni / gofalwyr ynghylch:

Y ffurflen hon (electronig neu brint)	Y data sy'n cael ei rannu â'r darparwr gwasanaeth

Pwy fydd â mynediad at y ffurflen hon.	Pa ddata fydd yn cael ei rannu a gyda phwy
Ble fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw	Pwy fydd yn cael gweld y data
Am ba hyd fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw	Ble fydd y data'n cael ei gadw ac am ba hyd
Sut fydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio	Sut i wneud cais i ddileu'r data

Ydych chi'n cytuno i'ch plentyn gael mynediad at wasanaethau cwmwl? Ydw / Nac ydw

Enw'r Dysgwr: .....Enw'r Rhiant / Gofalwr:.....

Llofnod: .....Dyddiad: .....

Defnyddio Systemau Biometrig yng Nghymru a Lloegr

Os yw'r ysgol yn defnyddio systemau biometrig (e.e. technoleg adnabod ôl bysedd / cledrau llaw) i adnabod plant i bwrpas mynediad, cofnodi presenoldeb, codi tâl, benthyg o'r llyfrgell, ayyb, rhaid (o dan ddeddfwriaeth 'Diogelu Rhyddidau' a Diogelu Data) iddi ofyn am ganiatâd rhiant neu ofalwr.

Mae'r ysgol yn defnyddio systemau biometrig i adnabod plant unigol yn y ffyrdd canlynol (dylai'r ysgol ddisgrifio fan hyn sut y mae'n defnyddio'r system fiometrig).

Mae gan dechnolegau biometrig fanteision penodol o'u cymharu â systemau adnabod awtomatig eraill oherwydd nad oes angen i'r dysgwr gofio dod a dim byd gyda nhw (i'r ffreutur neu lyfrgell yr ysgol) felly ni all golli dim byd, fel cerdyn sweipio.

Mae'r ysgol wedi gwneud yr asesiad effaith preifatrwydd data ac yn ffyddiog bod defnyddio'r technolegau hyn yn effeithiol ac wedi'i gyfiawnhau mewn cyd-destun ysgol.

Ni chedwir unrhyw luniau llawn o ôl-bysedd / cledrau llaw ac ni ellir ail-greu'r llun gwreiddiol o'r data. Hynny yw nid yw'n bosib, er enghraifft, ail-greu ôl-bys dysgwr neu hyd yn oed lun o ôl-bys o ddata sydd, mewn gwirionedd, yn rhes o rifau.

Oherwydd bod yr ysgol yn casglu data personol categori arbennig a **dileu fel bo'n briodol** ei rannu â thrydydd parti, dylai hysbysu rhieni / gofalwyr ynghylch:

Y ffurflen hon (electronig neu brint)	Y data sy'n cael ei rannu â'r darparwr gwasanaeth
Pwy fydd â mynediad at y ffurflen hon	Pa ddata fydd yn cael ei rannu a gyda phwy

Ble fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw	Pwy fydd yn cael gweld y data
Am ba hyd fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw	Ble fydd y data'n cael ei gadw ac am ba hyd
Sut fydd y ffurflen hon / y data'n cael ei ddinistrio	Sut y gellir tynnu caniatâd i brosesu data biometrig yn ôl

Enw'r Rhiant / Gofalwr: .....

Enw'r Dysgwr: .....

Fel rhiant / gofalwr y dysgwr uchod, rwy'n cytuno y gall yr ysgol ddefnyddio systemau adnabod biometrig, fel y disgrifir uchod.	Ie / Na
Rwy'n deall na ellir defnyddio'r lluniau i greu llun ôl-bys / cledr llaw fy mhlentyn ac na fydd y lluniau hyn yn cael eu rhannu â neb y tu allan i'r ysgol.	Ie / Na

Llofnod: .....

Canllawiau pellach

- Dylai'r ysgol hysbysu rhiant pob plentyn eu bod yn bwriadu prosesu data biometrig eu plentyn a hefyd eu bod yn gallu gwrthwynebu.
- Er mwyn i'r ysgol brosesu data biometrig plant, rhaid i un rhiant neu ofalwr o leiaf roi caniatâd ac nid oes unrhyw riant neu ofalwr wedi tynnu caniatâd yn ôl. Rhaid i hyn fod yn ysgrifenedig.
- Gall y plentyn wrthwynebu neu wrthod cymryd rhan mewn prosesu eu data biometrig, p'un ai y rhoddodd riant neu ofalwr ganiatâd neu beidio.
- Rhaid i ysgolion gynnig ffyrdd eraill rhesymol o ddefnyddio gwasanaethau i ddysgwyr na fydd yn defnyddio system adnabod biometrig awtomataidd.
- Dim ond unwaith dros y cyfnod fydd dysgwr yn mynychu'r ysgol y mae angen gofyn am ganiatâd, ond bydd angen caniatâd newydd os oes unrhyw newid i'r systemau biometrig a ddefnyddir.

Cytundeb Defnydd Derbyniol Dysgwr

Ar y tudalennau canlynol, rydym wedi copïo, er gwybodaeth i rieni a gofalwyr, y cytundeb defnydd derbyniol dysgwr.

Awgrymir wrth ysgrifennu'r cytundeb defnydd derbyniol dysgwr y dylid atodi copi i'r cytundeb defnydd derbyniol rhiant / gofalwr i roi gwybod i rieni a gofalwyr am y rheolau a'r ymddygiad yr ymrwymodd y dysgwr iddynt drwy lofnodi'r ffurflen.

Atodiad A5 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Staff (a Gwirfoddolwyr)

Mae'r rhannau sy'n cynnwys cyngor neu arweiniad mewn GLAS. Dylai ysgolion adolygu a diwygio cynnwys y cytundeb hwn i sicrhau ei fod yn gyson â'u Polisi Diogelwch Ar-lein a pholisïau perthnasol eraill yr ysgol.

Polisi'r Ysgol

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan annatod o fywydau pawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae'r we a thechnolegau digidol yn ddulliau pwerus sy'n gallu ysgogi trafodaeth, hybu creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i hyrwyddo dysgu effeithiol. Maen nhw hefyd yn rhoi cyfle i staff fod yn fwy creadigol a chynhyrchiol yn eu gwaith. Mae gan yr ysgol hawl i warchod ei hun a'i systemau a dylai fod gan bob defnyddiwr hawl i gael mynediad diogel i'r we a thechnolegau digidol bob amser.

Pwrpas y polisi defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:

- y bydd staff a gwirfoddolwyr yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel ar-lein ac wrth ddefnyddio technoleg ddigidol at ddefnydd addysgol, personol a hamdden.
- bod systemau'r ysgol a'u defnyddwyr wedi eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai roi diogelwch y systemau a'u defnyddwyr yn y fantol
- bod staff wedi eu gwarchod rhag risg bosib wrth ddefnyddio technoleg yn eu gwaith pob dydd.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod gan staff a gwirfoddolwyr fynediad da at dechnoleg ddigidol i gyfoethogi eu gwaith ac ehangu cyfleoedd dysgu, gan ddisgwyl hefyd bod staff a gwirfoddolwyr yn cytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol, gwybodus a chymwys yn broffesiynol.

Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol

Rwy'n deall bod yn rhaid i fi ddefnyddio systemau'r ysgol yn gyfrifol, i leihau'r risg i breifatrwydd, diogelwch cymuned yr ysgol a diogelwch ei systemau. Rwy'n cydnabod y potensial sydd gan dechnolegau digidol i gyfoethogi dysgu a cheisiaf eu hintegreiddio mewn ffordd sy'n gyson â pholisi, ethos a gwerthoedd yr ysgol.

Ar gyfer fy niogelwch proffesiynol a phersonol:

- Rwy'n deall bod hidlo a monitro yn fesurau diogelu sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu dysgwyr, staff a systemau'r ysgol. Pan fydd fy rôl yn gofyn am hynny, byddaf yn gweithredu'n brydlon ar bryderon neu rybuddion yn unol â gweithdrefnau diogelu'r ysgol.
- Rwy'n deall bod y rheolau yn y cytundeb hwn hefyd yn berthnasol i'r dyfeisiau a'r technolegau hyn y tu allan i'r ysgol, ac i drosglwyddo data personol / sensitif (digidol neu bapur) y tu allan i'r ysgol

- Rwy'n deall mai prif bwrpas dyfeisiau a systemau technoleg ddigidol yr ysgol yw defnydd addysgol a byddaf ond yn eu defnyddio at ddefnydd personol neu hamdden sy'n gyson â pholisïau perthnasol yr ysgol.
- Ni wnaf ddatgelu fy enw defnyddiwr neu gyfrinair i neb arall na'n ceisio defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair neb arall.
- Byddaf yn cadw fy nghyfrineiriau'n ddiogel ac yn unol â pholisi diogelwch perthnasol yr ysgol
- Byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw bryder ynghylch diogelu, seiberddiogelwch, hidlo, monitro neu ddiogelu data gan ddefnyddio gweithdrefnau adrodd yr ysgol y cytunwyd arnynt.
- Byddaf yn cwblhau'r hyfforddiant diogelwch ar-lein, diogelu a seiberddiogelwch sy'n ofynnol gan yr ysgol ac yn diweddaru fy ngwybodaeth.

Byddaf yn broffesiynol wrth gyfathrebu ac wrth ddefnyddio technolegau a systemau digidol:

- Ni cheisiaf gael mynediad, copïo, tynnu allan na newid ffeiliau defnyddiwr arall, heb eu caniatâd penodol.
- Byddaf yn cyfathrebu â phobl eraill mewn ffordd broffesiynol. Ni ddefnyddiaf iaith ymosodol neu amhriodol a deallaf y gallai fod gan bobl eraill wahanol farn.
- Byddaf yn sicrhau wrth dynnu a / neu gyhoeddi lluniau o bobl eraill y gwnaf hynny gyda'u caniatâd ac yn unol â pholisi'r ysgol ar ddefnyddio lluniau / fideos digidol, a chan ystyried caniatâd rhiant / gofalwr. Ni ddefnyddiaf fy nghyfarpar personol i recordio'r lluniau hyn, oni bai fod gen i ganiatâd. Os cyhoeddir y lluniau hyn (e.e. ar wefan yr ysgol), ni fydd yn bosib adnabod y rhai sydd yn y lluniau yn ôl eu henw neu unrhyw wybodaeth bersonol arall.
- Byddaf ond yn defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn yr ysgol yn unol â pholisïau'r ysgol.
- Byddaf yn cyfathrebu â dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr yn unig ac yn defnyddio systemau swyddogol yr ysgol. Bydd unrhyw gyfathrebu o'r fath yn broffesiynol o ran ei naws a'i ddull.
- Ni chymraf ran mewn unrhyw weithgaredd ar-lein a allai amharu ar fy nghyfrifoldebau proffesiynol.

Diogelu Dysgwyr, Systemau Ysgolion a Gwybodaeth

- Byddaf yn glynu wrth yr holl ganllawiau a deddfwriaeth berthnasol (e.e. Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a GDPR y DU)
- Byddaf yn sicrhau fy mod yn ymwybodol o risgiau seiberddiogelwch ac ni fyddaf yn ymateb i unrhyw gyfathrebiad a allai greu bygythiad i fy nata i neu ddata / systemau'r ysgol
- Ni fyddaf yn cysylltu nac yn defnyddio gyriannau USB anawdurdodedig na dyfeisiau storio allanol eraill, gan y gallant gynnwys maleiswedd o feirysau a allai beryglu diogelwch systemau a data'r ysgol.

- Wrth ddefnyddio systemau AI yn fy rôl broffesiynol, gwnaf hynny'n gyfrifol a byddaf:
  - ond yn defnyddio technoleg AI a gymeradwywyd gan yr ysgol
  - yn ymwybodol o risgiau rhagfarn a gwahaniaethu gan werthuso allbwn systemau AI yn feirniadol i adnabod hyn
  - i ddiogelu data personol a sensitif, byddaf yn sicrhau bod gen i ganiatâd penodol wrth lanlwytho gwybodaeth sensitif am yr ysgol i systemau AI
  - yn gofalu i beidio â thorri rheolau hawlfraint nac eiddo deallusol – gan gymryd gofal i osgoi bod eiddo deallusol, gan gynnwys eiddo deallusol dysgwyr, yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi modelau AI cynhyrchiol heb ganiatâd priodol
  - yn sicrhau bod dogfennau, e-byst, cyflwyniadau ac allbynnau eraill wedi eu dylanwadu gan AI yn cynnwys labeli neu nodiadau clir yn dangos cymorth AI
  - yn gwerthuso allbynnau a gynhyrchwyd gan AI yn feirniadol i sicrhau bod ffeithiau cynnwys a gynhyrchwyd gan AI yn cael eu gwirio a'u hadolygu am gywirdeb cyn rhannu neu gyhoeddi
  - yn defnyddio dulliau AI cynhyrchiol yn gyfrifol i greu cynnwys didwyll a buddiol gan barchu hunaniaeth a lles unigolion
  - rwy'n cydnabod bod deallusrwydd artiffisial yn cefnogi fy marn broffesiynol, ond nid yw'n ei disodli. Rwy'n parhau i fod yn gyfrifol am gywirdeb, priodoldeb a goblygiadau diogelu unrhyw waith sydd wedi cael cymorth deallusrwydd artiffisial.
- byddaf yn dilyn disgwyliadau a pholisïau'r ysgol ar ddefnyddio ffonau symudol a dyfeisiau eraill cysylltiedig mewn modd proffesiynol, gan sicrhau defnydd a ganiateir yn unig
- wrth gyfathrebu'n broffesiynol, byddaf ond yn defnyddio technoleg a systemau a gymeradwywyd gan yr ysgol.
- ni ddefnyddiaf fy nghyfrifon personol ar systemau'r ysgol
- yn dilyn ymarfer diogel a di-risg ar sail gwybodaeth wrth glicio ar ddolenni i gynnwys o'r tu allan i fy sefydliad, i leihau'r risg o fygythiad seiberddiogelwch
- byddaf yn helpu i ddiogelu systemau'r ysgol drwy ddilyn gweithdrefnau seiberddiogelwch yr ysgol.
- ni cheisiaf gael mynediad at gynnwys anghyfreithlon, amhriodol neu niweidiol ar systemau'r ysgol
- byddaf yn parchu mesurau hidlo, monitro a mesurau diogelwch eraill ac yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch eu heffeithiolrwydd.
- rwy'n deall y gallai rhai gwefannau neu wasanaethau gael eu cyfyngu am resymau diogelu a byddaf yn defnyddio proses yr ysgol y cytunwyd arni lle mae angen mynediad at ddibenion addysgol dilys.
- ni wnaf osod na cheisio gosod rhaglenni diawdurdod o unrhyw fath ar un o ddyfeisiau'r ysgol, na cheisio addasu gosodiadau dyfeisiau, oni bai fod polisi'r ysgol yn caniatáu hyn
- ni cheisiaf anablu neu achosi difrod i gyfarpar yr ysgol nac i gyfarpar sy'n perthyn i eraill
- byddaf ond yn cludo, dal, datgelu neu rannu gwybodaeth bersonol amdanaf i neu bobl eraill yn unol â Pholisi Diogelu Data'r ysgol (neu bolisi perthnasol arall). Os trosglwyddir data

personol digidol y tu allan i'r rhwydwaith lleol diogel, rhaid ei amgryptio. Rhaid storio dogfennau papur sy'n cynnwys data personol mewn storfa gyda chlo arni.

- rwy'n deall ei bod yn ofynnol, o dan y polisi diogelu data, i ddata unrhyw staff neu ddysgwr y mae gen i fynediad ato'n cael ei gadw'n breifat a chyfrinachol, heblaw os oes angen i fi'n gyfreithiol neu o dan bolisi'r ysgol ddatgelu gwybodaeth o'r fath i rywun mewn awdurdod priodol.
- dim ond gwasanaethau cwmwl a llwyfannau digidol sydd wedi'u cymeradwyo gan yr ysgol y byddaf yn eu defnyddio i storio neu rannu gwybodaeth am yr ysgol.
- yn adrodd unrhyw ddifrod neu ddiffyg ar gyfarpar neu feddalwedd yn syth, sut bynnag y gallai fod wedi digwydd.

Wrth ddefnyddio technoleg ddigidol yn broffesiynol neu at ddefnydd personol a gymeradwywyd gan yr ysgol:

- Byddaf yn sicrhau bod gen i ganiatâd priodol i ddefnyddio gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith, ac yn adlewyrchu hyn drwy gydnabod yn briodol, yn enwedig os defnyddiwyd AI i greu cynnwys
- Os yw cynnwys wedi'i warchod gan hawlfraint, ni wnaf lawrlwytho na dosbarthu copïau (gan gynnwys miwsig a fideos).

Rwy'n deall fy mod yn gyfrifol am y pethau a wnaf o fewn a thu allan i'r ysgol:

- Rwy'n deall os methaf â chydymffurfio â'r cytundeb defnydd derbyniol hwn, y gallwn wynebu camau disgyblu. Gallai hyn gynnwys (dylai ysgolion ddiwygio'r rhan yma i gynnwys sancsiynau perthnasol yn ôl eu polisïau ymddygiad) rhybudd, atal dros dro, cyfeirio at y Llywodraethwyr a / neu'r Awdurdod Lleol ac, yn achos gweithgaredd anghyfreithlon, at yr Heddlu.

Rwyf wedi darllen a deall yr uchod ac yn cytuno i ddefnyddio systemau technoleg ddigidol yr ysgol (o fewn a thu allan i'r ysgol) a fy nyfeisiau fy hun (yn yr ysgol ac wrth gyfathrebu'n ymwneud â'r ysgol) o fewn y canllawiau hyn.

Enw Staff / Gwirfoddolwr: .....

Llofnod: .....

Dyddiad: .....

Atodiad A6 – Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Defnyddwyr Cymunedol

Pwrpas y cytundeb defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:

- bod defnyddwyr cymunedol o dechnolegau digidol yr ysgol yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r systemau a dyfeisiau hyn
- bod systemau a dyfeisiau'r ysgol a'u defnyddwyr wedi eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai roi diogelwch y systemau a'u defnyddwyr yn y fantol.
- bod defnyddwyr wedi eu gwarchod rhag niwed posib wrth ddefnyddio'r systemau a dyfeisiau hyn

Cytundeb Defnydd Derbyniol

Rwy'n deall bod yn rhaid i fi ddefnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol yn gyfrifol, i sicrhau nad oes risg i fy niogelwch i nac i ddiogelwch systemau a dyfeisiau a defnyddwyr eraill. Bydd y cytundeb hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw ddyfeisiau personol y dof gyda fi i'r ysgol:

- Rwy'n deall y bydd fy nefnydd o systemau a dyfeisiau'r ysgol yn cael ei fonitro
- Ni ddefnyddiaf ddyfais bersonol wnes i ddod gyda fi i'r ysgol mewn unrhyw ffordd heblaw'r hyn a fyddai'n briodol mewn ysgol.
- Ni cheisiaf lanlwytho, lawrlwytho na chael mynediad at unrhyw ddeunydd anghyfreithlon (lluniau cam-drin plant yn rhywiol, deunydd troseddol hiliol, deunydd terfysgaeth ac eithafol, pornograffi oedolion o dan y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus) neu amhriodol neu a allai achosi niwed neu drallod i eraill. Ni cheisiaf ddefnyddio unrhyw raglen neu feddalwedd a allai adael i fi osgoi'r systemau hidlo / diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad at ddeunyddiau o'r fath.
- Byddaf yn adrodd unrhyw ddeunydd neu ddigwyddiad anghyfreithlon, amhriodol neu niweidiol yn syth y dof yn ymwybodol ohono, i'r person priodol.
- Ni cheisiaf gael mynediad, copïo, tynnu allan na newid ffeiliau defnyddiwr arall, heb ganiatâd.
- Byddaf yn sicrhau os tynnaf a / neu os cyhoeddaf luniau o eraill, y gwnaf hynny dim ond gyda'u caniatâd. Ni ddefnyddiaf fy nghyfarpar personol i recordio'r lluniau hyn, heb ganiatâd. Os cyhoeddir lluniau, ni fydd yn bosib adnabod y rhai sydd yn y lluniau yn ôl eu henw neu unrhyw wybodaeth bersonol arall.
- Ni wnaf gyhoeddi na rhannu unrhyw wybodaeth a gefais yn yr ysgol ar unrhyw wefan bersonol, gwefan rhwydweithio cymdeithasol neu mewn ffordd arall, heb ganiatâd yr ysgol.
- Ni cheisiaf, heb ganiatâd, lawrlwytho na lanlwytho deunydd swmpus a allai lyncu capasiti rhyngrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag gallu gwneud eu gwaith.
- Ni wnaf osod na cheisio gosod rhaglenni o unrhyw fath ar un o ddyfeisiau'r ysgol na cheisio addasu gosodiadau cyfrifiaduron, heb ganiatâd i wneud hynny.
- Ni cheisiaf anablu neu achosi difrod i gyfarpar yr ysgol nac i gyfarpar sy'n perthyn i eraill
- Byddaf yn adrodd unrhyw ddifrod neu ddiffyg ar gyfarpar neu feddalwedd yn syth, sut bynnag y digwyddodd.

- Byddaf yn sicrhau bod gen i ganiatâd i ddefnyddio gwaith gwreiddiol eraill yn fy ngwaith fy hun
- Os yw cynnwys wedi'i warchod gan hawlfraint, ni wnaf lawrlwytho na dosbarthu copïau (gan gynnwys miwsig a fideos).
- Rwy'n deall os methaf â chydymffurfio â'r cytundeb defnydd derbyniol hwn, bod gan yr ysgol hawl i atal fy mynediad at systemau / dyfeisiau'r ysgol

Rwyf wedi darllen a deall yr uchod ac yn cytuno i ddefnyddio systemau'r ysgol (o fewn a thu allan i'r ysgol) a fy nyfeisiau fy hun (yn yr ysgol ac wrth gyfathrebu'n ymwneud â'r ysgol) o fewn y canllawiau hyn.

Oherwydd bod yr ysgol yn casglu data personol drwy'r ffurflen hon, dylai hysbysu defnyddwyr cymunedol ynghylch:

Pwy fydd â mynediad at y ffurflen hon	Sut fydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio
Ble fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw.	Am ba hyd fydd y ffurflen hon yn cael ei chadw

Enw: ..... Llofnod: ..... Dyddiad: .....

Atodiad A7 – Datganiad Polisi Diogelwch Ar-lein

Yn [enw'r ysgol], rydym eisiau i bob defnyddiwr fod yn ddiogel, hyderus ac wedi eu cefnogi wrth ddefnyddio technoleg – p'un ai'n dysgu yn yr ysgol, adref neu yn y gymuned. Mae diogelwch ar-lein yn rhan o ddiogelu a lles. Nid "mater TG yn unig" ydy o: mae amdan bobl, perthnasoedd, ymddygiad, dysgu a gwarchod.

Crëwyd ein strategaeth diogelwch ar-lein o gwmpas pedwar maes ar sail canlyniadau sy'n cryfhau ymarfer dydd i ddydd:

- Arweinyddiaeth a pholisi sy'n nodi disgwyliadau clir
- Addysg sy'n gwella sgiliau, gwydnwch ac ymddwyn yn bositif
- Technoleg sy'n gwarchod defnyddwyr a chefnogi dysgu diogel
- Adolygiad effaith sy'n profi beth sy'n gweithio a beth y byddwn yn ei wella.

Arweinyddiaeth a pholisi: eglurder, cysondeb ac atebolrwydd

- Pan fydd arweinyddiaeth yn gryf, daw diogelwch ar-lein yn rhan o "sut y gwnawn bethau yma" – nid rhywbeth untro.

Cyfrifoldebau clir

- Gwnawn yn siŵr fod rolau'n glir a bod uwch-arweinwyr, y Person Diogelwch Dynodedig, Arweinydd Diogelwch Ar-lein, llywodraethwyr a staff / darparwyr technegol, i gyd yn eu deall. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau diogelu a rhagofalon technegol yn gweithio gyda'i gilydd.
- Mae hyn yn gwella: penderfyniadau cyflymach, uwchgyfeirio pryderon yn gywir, ac na "chollir" gweithredu rhwng timau.
- Mantais i ddefnyddwyr: cymorth mwy diogel a chyson i blant ac oedolion.

Grŵp Diogelwch Ar-lein Cydlynol

- Rydym yn cynnwys y lleisiau iawn – arweinwyr, staff, llywodraethwyr a (lle bo'n briodol) dysgwyr a theuluoedd – fel bod diogelwch ar-lein yn ymatebol i brofiadau gwirioneddol a risgiau newydd.
- Mae hyn yn gwella: cydberchnogaeth a dull ysgol gyfan.
- Mantais i ddefnyddwyr: yn cryfhau ymarfer mwy diogel yn yr ysgol ac adref.

Polisi y mae pawb yn ei ddeall a'i ddilyn

- Mae ein polisi diogelwch ar-lein yn gyson â disgwyliadau diogelu ac wedi'i gysylltu i bolisïau cysylltiedig fel y gall staff a theuluoedd weld un dull clir a chyson o weithio.
- Mae hyn yn gwella: llai o feysydd niwlog a phenderfyniadau mwy hyderus.
- Mantais i ddefnyddwyr: ffiniau clir ac ymatebion dibynadwy.

Disgwyliadau defnydd derbyniol sy'n gwarchod pawb

- Gosodwn ddisgwyliadau syml, priodol i oed ar gyfer dysgwyr, a disgwyliadau proffesiynol clir i staff, fel bod pawb yn deall beth yw defnydd diogel a pharchus.
- Mae hyn yn gwella: ymddygiad, cysondeb, a thegwch.
- Mantais i ddefnyddwyr: gofodau ar-lein mwy diogel a llai o ddigwyddiadau niweidiol.

Adrodd ac ymateb sy'n arwain at weithredu

- Hyrwyddwn ddiwylliant lle y mae pobl yn teimlo y medrant godi llais gan ymateb yn gyson, cofnodi pryderon, gweithredu'n ddiymdroi a dysgu o batrymau a risgiau newydd.
- Mae hyn yn gwella: adnabod yn gynnar ac ymyriadau diogelu effeithiol.
- Mantais i ddefnyddwyr: cymorth cynt i blant; pawb yn teimlo bod rhywun yn gwrando a'u bod wedi eu gwarchod.

Addysg: dysgwyr hyderus ac oedolion gwybodus

- Addysgwn ddiogelwch ar-lein i wella gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwydnwch – fel y gall dysgwyr fwynhau manteision technoleg a rheoli risg.

Dysgu wedi'i gynllunio i ddysgwyr

- Mae addysg diogelwch ar-lein yn gynyddol, cynhwysol ac yn cael ei addasu'n gyson. Defnyddiwn lais y dysgwr i addasu'r hyn a addysgwn a'i gadw'n berthnasol.
- Mae hyn yn gwella: dewisiadau mwy diogel, ymddygiad ar-lein iachach, a gofyn yn hyderus am gymorth.
- Mantais i ddefnyddwyr: dysgwyr yn fwy parod am heriau ar-lein go iawn.

Hyfforddiant staff sy'n cefnogi ymarfer diogelu

- Mae'r staff i gyd yn derbyn cynefino a chael eu diweddaru'n barhaus er mwyn adnabod pryderon, ymateb yn briodol a modelu ymarfer diogel. Mae rolau allweddol yn derbyn lefel uwch o hyfforddiant i arwain a gwneud penderfyniadau gwybodus.
- Mae hyn yn gwella: hyder a chysondeb ar draws y gweithlu.
- Mantais i ddefnyddwyr: pryderon yn cael eu trin yn dawel, cywir a diymdroi.

Llywodraethwyr yn cael eu hyfforddi i herio a chefnogi

- Mae llywodraethwyr yn deall eu dyletswyddau ac yn gallu gofyn y cwestiynau iawn am bolisi, hyfforddiant, cwricwlwm, hidlo / monitro, a seiberddiogelwch.
- Mae hyn yn gwella: atebolrwydd a gwelliannau parhaus.
- Mantais i ddefnyddwyr: mae diogelwch ar-lein yn flaenoriaeth barhaus, nid dim ond ar ôl i rywbeth ddigwydd.

Partneriaethau cryf gyda theuluoedd ac asiantaethau

- Cyfathrebwn ganllawiau ymarferol i deuluoedd gan weithio gyda phartneriaid perthnasol. Rhannwn hefyd ymarfer effeithiol y tu allan i'n hysgol, i gefnogi cymunedau mwy diogel.

- Mae hyn yn gwella: negeseuon cydlynol a chymorth cynt.
- Mantais i ddefnyddwyr: plant yn profi disgwyliadau cyson yn yr ysgol ac adref.

Technoleg: gwarchod sy'n cynorthwyo dysgu

- Defnyddiwn fesurau rheoli technegol cymesur i leihau cysylltiad plant â niwed wrth gefnogi addysgu a dysgu.

Hidlo effeithiol

- Mae hidlo'n lleihau'r risg o fynediad at gynnwys niweidiol ac anghyfreithlon ac yn cael ei adolygu fel bo'n aros yn addas i bwrpas.
- Mantais i ddefnyddwyr: pori ac ymchwil fwy diogel.

Monitro ar sail diogelu

- Mae monitro'n helpu i adnabod pryderon yn gynnar gan gefnogi ymyrryd yn amserol, o'i wneud gyda llywodraethu priodol a diogelu data.
- Mantais i ddefnyddwyr: ymyrryd yn amserol pan fydd risg yn codi.

Systemau sicr a gwydnwch seiber

- Gwarchodwn rwydweithiau, dyfeisiau a chyfrifon gan baratoi am fygythiadau fel gwe-rwydo a maleiswedd – i osgoi aflonyddu ar ddysgu a gwarchod defnyddwyr.
- Mantais i ddefnyddwyr: gwasanaethau mwy diogel, llai o ddigwyddiadau, adferiad cynt.

Diogelu data sy'n cryfhau ymddiriedaeth

- Rydym yn trin gwybodaeth bersonol a sensitif yn ofalus a chyfreithlon, gyda phrosesau ac atebolrwydd clir.
- Mantais i ddefnyddwyr: parchu preifatrwydd a llai o risg o gamddefnyddio.

Ymarfer dydd i ddydd diogel

- Rheolwn ddyfeisiau'n gyson (gan gynnwys disgwyliadau gyda dyfeisiau personol lle bo'n berthnasol), dilynwn fesurau diogelu a sicrhau caniatâd ar gyfer cynnwys digidol, a chyfathrebwn yn gyfrifol drwy ein sianeli cyhoeddus.
- Mantais i ddefnyddwyr: llai o gamgymeriadau diangen a diwylliant digidol mwy diogel a chyfrifol.

Effaith: profi beth sy'n gweithio a gwella beth sydd ddim

- Adolygwn yn rheolaidd pa mor dda y mae ein polisïau a'n hymarfer yn gweithio, y dystiolaeth a beth fyddwn yn ei wella nesaf. Mae hyn yn cadw ein dull yn gyfredol, wedi'i dargedu ac effeithiol.

Sut i godi pryder neu gael cymorth

Os oes unrhyw beth ar-lein yn eich poeni, rydym eisiau gwybod.

- Dysgwyr: siaradwch ag oedolyn dibynadwy, eich athro dosbarth / tiwtor neu gynorthwyydd addysgu, neu'r tîm diogelu.
- Rhieni / gofalwyr: cysylltwch â [enw'r DSP / e-bost diogelu / ffôn].
- Staff: dilynwch y gweithdrefnau diogelu a chofnodi pryderon yn ddiymdroi.

Ein hymrwymiad

Byddwn yn parhau i gryfhau arweinyddiaeth, addysg, technoleg ac adolygiadau effaith fel bod technoleg yn [enw'r ysgol] yn cael ei defnyddio'n ddiogel, parchus ac mewn ffordd bositif – a'n cymuned yn hyderus bod diogelu ar-lein yn gadarn, cyson ac yn gwella'n barhaus.

Atodiad A8 – Templed Polisi Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (Newydd)

Pwrpas

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall ymddygiad rhywiol niweidiol fod yn digwydd ond heb gael ei adrodd a'i fod yn digwydd yn gynyddol ar-lein drwy rannu lluniau, pwysau rheolgar, ecsbloetio a cham-drin dienw.

Pwrpas y polisi hwn yw disgrifio dull yr ysgol o atal, adnabod ac ymateb i Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB), harasio rhywiol a thrais rhywiol rhwng plant.

Mae'r polisi hwn yn rhan o fframwaith diogelu'r ysgol a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â pholisïau perthnasol eraill.

Mae gan yr ysgol agwedd dim goddefgarwch tuag at ymddygiad rhywiol yn unol â chanllawiau diogelu cenedlaethol (wele'r rhestr isod)

Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Pob dysgwr, staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr
- Ymddygiad sy'n digwydd yn a thu allan i'r ysgol lle y mae'n effeithio ar gymuned yr ysgol

Cyd-destun Deddfwriaethol a Chenedlaethol

Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol gan gynnwys:

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

- Estyn - Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Hwb - Canllawiau Rhannu Lluniau Noeth a Hanner Noeth

Rolau a Chyfrifoldebau

- Mae Llywodraethwyr yn cadw trosolwg strategol, sicrhau bod y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol a monitro tueddiadau diogelu.
- Mae uwch-arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o barch a chydraddoldeb gan sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n gyson a bod staff yn derbyn hyfforddiant
- Mae'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) yn arwain ar ymateb i ddigwyddiadau, sicrhau y dilynir gweithdrefnau diogelu, cwblhau asesiadau risg a chynnal cyswllt ag asiantaethau allanol.
- Rhaid i bob aelod o staff herio ymddygiad amhriodol, adrodd pryderon yn syth i'r DSP ac ymateb i ddatgelu mewn ffordd dawel a chefnogol.

Datganiad Polisi

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

- Ei bod yn ymarfer dull diogelu ysgol gyfan i atal ymddygiad rhywiol niweidiol
- Y cymerir pob adroddiad o ddifrif gan ymateb yn ddiymdroi
- Bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi, credu a'u gwarchod
- Bod plant sy'n dangos ymddygiad niweidiol yn derbyn cymorth diogelu ac addysgol priodol
- Y rheolir digwyddiadau'n unol â gweithdrefnau diogelu a statudol
- Bod patrymau a thueddiadau'n cael eu monitro i oleuo strategaethau atal

Atal ac Addysg

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

- Y darperir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (ARhP) o ansawdd uchel
- Bod dysgwyr yn cael eu haddysgu am ganiatâd, perthnasoedd parchus a ffiniau iach
- Bod addysg diogelwch ar-lein yn trafod cam-drin rhywiol, pwysau rheolgar a niwed drwy luniau
- Bod iaith rywiaethol, menyw-gasineb a stereoteipiau niweidiol ar sail rhywedd yn cael eu herio bob tro
- Yr anogir dysgwyr i wylio'n bositif o'r ochr ac adrodd unrhyw broblemau a welant
- Bod systemau adrodd yn hygyrch, priodol ac yn cael eu cyfathrebu'n glir

Adrodd ac Ymateb

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

- Bod nifer o wahanol ffyrdd o adrodd ar gael a phawb yn eu deall
- Y cofnodir pob digwyddiad yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau diogelu a diogelu data
- Bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau lle bo'n briodol
- Bod diogelwch a lles y rhai a effeithir yn cael ei flaenoriaethu
- Bod asiantaethau arbenigol allanol yn cael eu defnyddio lle bo angen
- Bod materion troseddol yn cael eu cyfeirio at yr heddlu lle bo'n briodol.

Cymorth a Rheoli Risg

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

- Bod dioddefwyr yn derbyn cymorth bugeiliol a diogelu priodol
- Bod plant sy'n dangos ymddygiad niweidiol yn derbyn ymyriadau cymesur ac addysgol
- Bod asesiadau risg yn ddeinamig ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Bod goruchwyliaeth a chynlluniau diogelwch yn gymesur a gwarchodol

Ymddygiad Rhywiol Niweidiol Ar-lein

Rheolir digwyddiadau ar-lein yn unol â chanllawiau cenedlaethol a gallai hyn gynnwys gwasanaethau adrodd arbenigol lle bo'n briodol.

Hyfforddiant ac Adolygu

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

- Bod staff DSP yn derbyn hyfforddiant diogelu arbenigol
- Bod y staff i gyd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar ddiogelu
- Bod Llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant trosolwg priodol
- Bod y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiweddaru i ymateb i newid deddfwriaeth neu risgiau newydd

Atodiad A9 – Templed Polisi Camddefnyddio Cyfrifiaduron a Dewisiadau Seiber

Pwrpas

Pwrpas y polisi hwn yw disgrifio dull yr ysgol o atal, adnabod ac ymateb i gamddefnyddio cyfrifiaduron a seiberdroseddu posib yn ymwneud â dysgwyr.

Mae camddefnyddio cyfrifiaduron yn cael ei gydnabod fel mater diogelu ac mae'r polisi hwn yn cefnogi trefniadau diogelu, Diogelwch Ar-lein, Hidlo a Monitro, Diogelwch Technegol a Seiberddiogelwch ehangach yr ysgol.

Mae pob rhanddeiliad, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol a lle bo'n berthnasol y Partner Cymorth Technoleg Addysg, yn gyfrifol am ddiogelu pobl ifanc rhag camddefnyddio cyfrifiaduron ac yn ymwybodol o'r rhaglen Dewisiadau Seiber sy'n cael ei harwain gan yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA) a'i rheoli'n lleol gan Unedau Troseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol (rhan o'r rhwydwaith plismona cenedlaethol). Mae'r peryglon i bobl ifanc os ydynt yn croesi'r llinell i gyflawni seiberdroseddau'n fater diogelu.

Mae'n aml yn digwydd heb i'r unigolyn sylweddoli eu bod yn torri'r gyfraith a dyna pam fod angen cymorth ar bobl ifanc i wneud y Dewisiadau Seiber iawn wrth ddefnyddio technoleg. Ystyrir bod pobl ifanc gyda diddordeb mewn technoleg, IQ uchel, ac ysfa i gymryd rhan mewn ymddygiad risg yn fwy tebygol o seiberdroseddu, ond hefyd nid yw llawer o'r rhai sy'n troseddu am y tro cyntaf yn ymwybodol o beth yn union yw'r gyfraith ar seiberdroseddu. Mae oed cyfartalog seiberdroseddwyr tro cyntaf yn y DU wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r rhaglen Dewisiadau Seiber yn gweithio gydag unigolion sy'n cyflawni, neu gyda risg o gyflawni, seiberdroseddau all ond cael eu cyflawni gyda thechnoleg, yn defnyddio dyfeisiau i gyflawni'r drosedd a hefyd fel targed y troseddu.

Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Pob dysgwr, staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr
- Ymddygiad o fewn a thu allan i'r ysgol lle bo'n effeithio ar gymuned yr ysgol

Datganiad Polisi

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- Dysgwyr yn deall bod rhai gweithgareddau ar-lein yn anghyfreithlon
- Cytundebau Defnydd Derbyniol yn nodi disgwyliadau a chanlyniadau cyfreithiol yn glir
- Camddefnyddio cyfrifiaduron yn cael ei drin fel pryder diogelu yn y lle cyntaf

- Staff yn deall risgiau seiber newydd a llwybrau cyfeirio
- Pryderon yn cael eu cyfeirio'n syth at y Person Diogelu Dynodedig (DSP)
- Angen gofyn am gyngor neu gyfeirio allanol priodol lle bo angen

Atal ac Addysg

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- Dysgwyr yn cael eu haddysgu am Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 a risgiau seiberdroseddu
- Y cwricwlwm yn hyrwyddo ymddygiad digidol moesegol a chyfreithlon
- Addysg diogelwch ar-lein yn trafod hacio, maleiswedd, gwe-rwydo, ymosodiadau gwadu-gwasanaeth, a chamddefnyddio data
- Dysgwyr yn cael eu cyfeirio ymlaen at lwybrau positif i ddatblygu eu sgiliau seiber
- Staff yn ymwybodol o ganllawiau ac adnoddau Dewisiadau Seiber y NCA

Rolau a Chyfrifoldebau

- Mae Llywodraethwyr yn cadw trosolwg strategol ar ddiogelu ac atal seiberdroseddu.
- Mae uwch-arweinwyr yn sicrhau bod addysg ataliol yn cael ei darparu a staff yn cael eu hyfforddi'n briodol.
- Mae'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) yn asesu pryderon, cwblhau asesiadau risg diogelu, cadw cofnodion a gofyn am gyngor allanol lle bo'n briodol.
- Mae staff technegol yn monitro defnydd rhwydwaith yn unol â'r Polisi Hidlo a Monitro ac yn adrodd pryderon i'r DSP.
- Rhaid i staff adrodd unrhyw amheuaeth o gamddefnyddio cyfrifiadur yn syth a chadarnhau disgwyliadau cyfreithiol a moesegol.

Adnabod ac Adrodd

Gallai camddefnyddio cyfrifiaduron gynnwys:

- Mynediad diawdurdod at systemau neu gyfrifon
- Ceisio osgoi mesurau hidlo neu fonitro
- Defnyddio maleiswedd neu hacio
- Ymosodiadau gwadu-gwasanaeth
- Cynaeafu cyfrineiriau neu rannu cymwysterau
- Dwyn data neu ymyrryd â systemau

Os bydd pryder yn codi, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y DSP, asesiad risg diogelu'n cael ei wneud a rhieni / gofalwyr yn cael eu hysbysu oni bai y byddai gwneud hynny'n cynyddu risg.

Cyfeirio at Ddewisiadau Seiber

Os yw'r DSP yn credu y gallai fod risg bod y dysgwr yn cyflawni seiberdroseddau, neu'n gwneud hynny'n barod, bydd yn cyfeirio'r dysgwr at y rhaglen Dewisiadau Seiber leol (mae manylion cyswllt

pob Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol yn yr adran "beth i'w wneud os ydych yn poeni" ar waelod tudalen Dewisiadau Seiber y NCA). Os yw'r DSP yn ansicr a yw dysgwr yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer eu cyfeirio, dylid gofyn am gyngor gan y tîm Dewisiadau Seiber lleol:

- De Cymru (yn ymgorffori ardaloedd Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed Powys): tarian.cyber.prevent@south-wales.police.uk
- Gogledd Cymru: Cyber.Prevent@nwrocu.police.uk

Mae gan rieni a gofalwyr hefyd gyfle i adrodd seiberdroseddu posib yn uniongyrchol i'r tîm Dewisiadau Seiber lleol ond argymhellir adrodd pryderon yn ymwneud â'r ysgol i'r DSP.

Cymorth a Rheoli Risg

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- Asesiadau risg yn gymesur ac yn cael eu hadolygu'n gyson
- Cymorth addysgol ac ymddygiad yn cael ei roi
- Dysgwyr yn cael eu cefnogi i arallgyfeirio eu sgiliau technegol mewn ffordd bositif
- Ymatebion diogelu'n gyson â'r fframwaith diogelu ehangach

Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- Staff yn derbyn diweddariadau diogelu ar risgiau camddefnyddio cyfrifiaduron
- Staff DSP yn deall llwybrau a throthwyon ar gyfer cyfeirio dysgwyr
- Llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau trosolwg
- Rhieni / gofalwyr yn cael eu cyfeirio ymlaen at ganllawiau perthnasol lle bo'n briodol

Monitro ac Adolygu

- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiweddaru mewn ymateb i newid deddfwriaeth, canllawiau cenedlaethol neu risgiau newydd.
- Bydd tueddiadau o ran digwyddiadau, ac adolygiadau diogelu, yn goleuo gwella parhaus.


Mae'r templed polisi hwn yn seiliedig ar ddogfen i ysgolion a gyhoeddwyd gan Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol De-Ddwyrain (Lloegr) ac wedi'i ddiwygio i'w ddefnyddio ar draws y DU. Hoffai SWGfL gydnabod cymorth SEROCU am roi caniatâd i addasu a defnyddio'r ddogfen hon.

Bydd angen i ysgolion gysylltu â'u tîm ROCU / Dewisiadau Seiber lleol ar gyfer prosesau lleol:

Gogledd Cymru - Cyber.Prevent@nwrocu.police.uk

Rhanbarthau eraill - tarian.cyber.prevent@south-wales.police.uk.

Atodiad A10 Ymateb i ddigwyddiadau camddefnyddio – siart llif



[1] Mae'r siart llif yma'n cynnig proses ar-lein ar gyfer delio â digwyddiadau diogelwch ar-lein. Gallwch ei haddasu i gyd-fynd â'ch polisi ac ymarfer diogelu presennol i sicrhau dull cyson o reoli digwyddiadau diogelu yn eich lleoliad chi. Fel arfer cynhelir Cyfarfod Adolygu Digwyddiad (IRM) cyn gynted â phosib ar ôl digwyddiad difrifol i benderfynu'r camau nesaf, fel arfer yn dilyn y camau diogelu a gymerir yn syth (dylid nodi na fydd efallai angen cynnal IRM ar gyfer digwyddiadau llai difrifol).

Atodiad A11 - Cofnod o adolygu dyfeisiau / gwefannau (ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnyddio)

Grŵp: .....

Dyddiad: .....

Rheswm dros ymchwilio: .....

.....

.....

Manylion y person adolygu cyntaf

Enw: .....

Swydd: .....

Llofnod: .....

Manylion yr ail berson adolygu

Enw: .....

Swydd: .....

Llofnod: .....

Enw a lleoliad y cyfrifiadur a ddefnyddiwyd i adolygu (ar gyfer gwefannau)

.....

.....

Cyfeiriad y wefan / dyfais	Rheswm am y pryder

Casgliadau a chamau i'w cymryd neu a gymerwyd yn barod

Atodiad A12 – Log Adrodd

Grŵp: .....

Dyddiad	Amser	Digwyddiad	Camau a gymerwyd		Digwyddiad wedi'i adrodd gan	Llofnod
			Beth?	Gan bwy?		

Atodiad B1 – Log Archwilio Anghenion Hyfforddiant

Enw / Grŵp: .....

Hyfforddiant perthnasol yn y 12 mis diwethaf	Angen hyfforddiant wedi'i adnabod	I'w gwrdd gan	Cost	Dyddiad adolygu

Atodiad C1 – Templed Polisi Hidlo Cynnwys y We a Diogelu Ar-lein

Diben

- Diben y polisi hwn yw sicrhau bod systemau hidlo cynnwys y we a diogelu ar-lein priodol ar waith i ddiogelu dysgwyr a staff rhag cynnwys ar-lein niweidiol neu anghyfreithlon, gan alluogi dysgu, addysgu ac ymarfer proffesiynol diogel ac effeithiol. Mae hidlo cynnwys y we a diogelu ar-lein yn rhan o gyfrifoldebau diogelu ehangach yr ysgol ac yn cael eu gweithredu yn unol â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a'r Safonau digidol addysg

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Pob defnyddiwr amgylchedd digidol yr ysgol
- Pob dyfais sy'n eiddo i'r ysgol
- Unrhyw ddyfais sy'n cael mynediad at rwydwaith neu gysylltiad rhyngrwyd yr ysgol
- Hidlo cynnwys y we a diogelu ar-lein a ddarperir trwy wasanaethau trydydd parti neu wasanaethau a reolir

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Mae llywodraethwyr yn darparu goruchwyliaeth strategol a sicrwydd bod safonau hidlo cynnwys y we a diogelu ar-lein yn cael eu bodloni.
- Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod systemau priodol ar waith, wedi'u hadolygu a bod adnoddau ar gael iddynt.
- Mae'r DSP/OSL yn arwain ymatebion diogelu sy'n deillio o hidlo cynnwys y we a rhybuddion diogelu ar-lein.
- Mae'r darparwr gwasanaeth TG / Partner Cymorth Technoleg Addysg yn cynnal systemau ac yn darparu adroddiadau fel y cytunwyd.
- Mae pob aelod o staff yn adrodd am bryderon ynghylch mynediad, rhybuddion neu effeithiolrwydd y system.

Datganiad Polisi

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei hidlo i rwystro cynnwys anghyfreithlon, niweidiol ac amhriodol
- Mae systemau monitro ar waith i nodi pryderon diogelu a galluogi ymyrraeth amserol
- Mae hidlo cynnwys y we a diogelu ar-lein yn gymesur, yn dryloyw ac yn seiliedig ar risg
- Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio a'u deall yn glir

- Caiff y ddarpariaeth ei hadolygu'n rheolaidd a'i gwella mewn ymateb i risg, ymarfer a chanllawiau

Cydnabyddir bod hidlo cynnwys y we a diogelu ar-lein yn cefnogi diogelu, nid yn disodli addysg, goruchwyliaeth na barn broffesiynol.

Hidlo

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod systemau hidlo cynnwys y we yn gwneud y canlynol:

- Rhwystro mynediad at gynnwys anghyfreithlon, gan gynnwys deunydd cam-drin plant yn rhywiol, deunydd terfysgol a chynnwys anghyfreithlon arall
- Rheoli cynnwys amhriodol a/neu niweidiol (gan gynnwys termau a chanlyniadau chwilio). Gallai'r rhain gynnwys:
    - Gamblo
    - Iaith casineb/gwahaniaethu
    - Cynnwys niweidiol
    - Camwybodaeth/Twyllwybodaeth
    - Tor-hawlfraint a dwyn hawlfraint
    - Pornograffi
    - Hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta
    - Trais yn erbyn menywod a merched
- Yn briodol i oedran ac yn addas ar gyfer amgylchedd addysgol
- Yn cael eu cymhwyso'n gyson i bob defnyddiwr, dyfais a chysylltiad rhyngrwyd, gan gynnwys cysylltiadau wrth gefn
- Caniatáu adnabod defnyddwyr a dyfeisiau unigol rhag ofn y bydd y polisi hidlo cynnwys y we yn cael ei dorri
- Ni ddylai unrhyw ddefnyddiwr allu analluogi nac osgoi systemau sy'n hidlo cynnwys anghyfreithlon.
- Atal osgoi trwy VPNs, gwasanaethau dirprwyol neu dechnolegau tebyg
- Cefnogi mynediad gwahaniaethol ar gyfer gwahanol grwpiau defnyddwyr (e.e. staff a dysgwyr)
- Yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i osgoi gor-flocio amhriodol a allai gyfyngu ar ddysgu ac addysgu

Mae'r ysgol yn deall galluoedd a chyfyngiadau'r system a'r effaith bosibl ar weithredu a pholisi.

Bydd yr ysgol yn defnyddio offer a chanllawiau cydnabyddedig i sicrhau effeithiolrwydd y ddarpariaeth hidlo cynnwys y we e.e., testfiltering.com

Diogelu ar-lein

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod diogelu ar-lein:

- Yn galluogi nodi pryderon diogelu mewn modd amserol

- Yn defnyddio cyfuniad o oruchwyliaeth ffisegol, gwiriadau â llaw a systemau technegol yn ôl yr angen
- Yn cynhyrchu rhybuddion y gall staff hyfforddedig eu blaenoriaethu a gweithredu arnynt
- Yn destun adolygiad dynol a barn broffesiynol
- Wedi'i gyfleu'n glir i ddefnyddwyr drwy bolisi a chytundebau defnydd derbyniol

Dylai diogelu ar-lein fod yn gymesur â phroffil risg yr ysgol ac ni ddylai greu diwylliant o wyliadwriaeth.

Adolygu a Hyfforddiant

Dylid adolygu hidlo cynnwys y we a darpariaeth diogelu ar-lein o leiaf unwaith y flwyddyn a phryd bynnag y bydd risgiau neu dechnolegau'n newid. Bydd staff, llywodraethwyr a'r rhai sydd â chyfrifoldebau penodol yn derbyn hyfforddiant priodol.

Atodiad C2 - Polisi Templed Diogelwch Technegol

(gan gynnwys Rheoli Mynediad, Dyfeisiau a Digwyddiadau)

Diben

- Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r ysgol yn amddiffyn ei seilwaith, systemau a dyfeisiau technegol i sicrhau amgylchedd digidol diogel a gwydn. Mae'n cefnogi diogelu, diogelu data a pharhad busnes ac yn cydweddu â'r Safonau digidol addysg

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Staff, dysgwyr a llywodraethwyr
- Cyflenwyr gwasanaethau a datrysiadau trydydd parti
- Rhwydweithiau, gweinyddion a systemau cwmwl ysgolion
- Dyfeisiau sy'n eiddo i'r ysgol
- Cyfrifon defnyddwyr a rheolaethau mynediad
- Ffurfweddu a rheoli dyfeisiau, gan gynnwys dyfeisiau personol lle y'u caniateir

Datganiad Polisi

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ei systemau technegol yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n:

- Diogelu defnyddwyr a data rhag mynediad neu gamddefnydd heb awdurdod
- Cefnogi mynediad diogel a dibynadwy at wasanaethau digidol
- Galluogi canfod, ymateb ac adferiad o ddigwyddiadau technegol
- Yn gymesur â'r risg ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd

Rheoli Mynediad a Dilysu

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae gan bob defnyddiwr gyfrifon unigryw gyda hawliau mynediad priodol
- Caiff hawliau defnyddwyr newydd eu dyrannu fel rhan o'r broses sefydlu
- Caiff mynediad ei ddileu ar unwaith pan fydd defnyddwyr yn gadael yr ysgol
- Mae cyfrineiriau a dulliau dilysu yn adlewyrchu canllawiau Cyber Essentials a'r Safonau digidol addysg
- Defnyddir dilysu aml-ffactor (MFA) ar gyfer systemau sensitif lle bo'n briodol
- Mae mynediad gweinyddwr wedi'i gyfyngu a'i fonitro
- Mae gweinyddwyr systemau a'r rhai sydd â mynediad i'r system gyfan/data cyfrinachol yn defnyddio dyfais diogelwch ffisegol yn ogystal ag MFA i gael mynediad at systemau.

Diogelwch a Chynnal a Chadw Systemau

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae systemau a meddalwedd wedi'u trwyddedu, eu cefnogi a'u cadw'n gyfredol
- Mae patsys diogelwch yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon
- Mae diogelwch gwrthfeirws a maleiswedd ar waith ar draws pob system
- Mae copïau wrth gefn yn cael eu cymryd yn rheolaidd, eu storio'n ddiogel (yn lleol ac oddi ar y safle, gyda chylchdro) a'u profi'n rheolaidd
- Mae mynediad ffisegol i seilwaith yn cael ei reoli

Rheoli Dyfeisiau

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae'r Safonau rheoli dyfeisiau yn cael eu dilyn
- Mae disgwyliadau clir yn bodoli ar gyfer defnyddio dyfeisiau sy'n eiddo i'r ysgol a dyfeisiau personol
- Mae dyfeisiau'r ysgol wedi'u ffurfweddu'n ddiogel a'u rheoli'n briodol, gyda phatsys a diweddariadau rheolaidd/awtomatig
- Lle caniateir dyfeisiau personol, mae disgwyliadau wedi'u diffinio'n glir a'u hasesu o ran risg
- Mae Cytundebau Defnydd Derbyniol yn cyfeirio at ddefnydd cyfrifol o ddyfeisiau
- Mae defnyddwyr yn derbyn canllawiau ar ddefnyddio dyfeisiau'n ddiogel ac yn briodol

Rheoli Cyflenwyr

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae darpariaeth gwasanaethau a datrysiadau trydydd parti wedi'u contractio'n ddigonol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Gall cyflenwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â pholisi'r ysgol ac yn cydweddu â'r Safonau digidol addysg

Rheoli Digwyddiadau

Bydd digwyddiadau technegol yn cael eu cofnodi, eu huwchgyfeirio a'u hadolygu. Bydd digwyddiadau difrifol yn cael eu rheoli yn unol â gweithdrefnau diogelu a pharhad busnes.

Adolygu a Hyfforddiant

Bydd trefniadau diogelwch technegol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd staff sydd â chyfrifoldebau penodol yn derbyn hyfforddiant priodol, a bydd defnyddwyr yn cael eu haddysgu ar eu cyfrifoldebau.

Atodiad C3 - Templed Polisi Seiberddiogelwch

Diben

Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r ysgol yn atal, yn canfod, yn ymateb i ac yn adfer o fygythiadau seiber. Mae'n cefnogi dyletswydd gofal yr ysgol i ddiogelu defnyddwyr a data ac

yn cydweddu â'r Safonau Digidol Addysg, y Cynllun ymateb ysgolion i ddigwyddiadau seiber, Canllawiau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) a Cyber Essentials NCSC

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Bygythiadau seiber gan gynnwys gwe-rwydo, meddalwedd wystlo, maleiswedd a mynediad heb awdurdod
- Staff, dysgwyr a llywodraethwyr
- Cyflenwyr gwasanaethau a datrysiadau trydydd parti
- Systemau technegol a gwasanaethau cwmwl
- Ymateb i ddigwyddiadau a pharhad busnes

Datganiad Polisi

Bydd yr ysgol yn mabwysiadu dull rhagweithiol, sy'n seiliedig ar risg, o ymdrin â seiberddiogelwch er mwyn:

- Lleihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau seiber
- Sicrhau ymateb amserol ac effeithiol i fygythiadau
- Meithrin ymwybyddiaeth a gwydnwch ar draws cymuned yr ysgol

Strategaeth Seiberddiogelwch

Bydd yr ysgol yn cynnal strategaeth seiberddiogelwch sy'n:

- Cael ei chefnogi gan uwch arweinwyr a llywodraethwyr
- Wedi'i llywio gan asesiad risg a dysgu o ddigwyddiadau
- Yn cael ei hadolygu'n rheolaidd yn unol â bygythiadau sy'n dod i'r amlwg
- Yn cynnwys yr holl wasanaethau a datrysiadau, gan gynnwys y rhai gan gyflenwyr trydydd parti

Rheoli Cyflenwyr

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod cyflenwyr:

- Yn gallu dangos ymlyniad i bolisi'r ysgol a chydweddiad â'r Safonau digidol addysg a'r Cynllun ymateb ysgolion i ddigwyddiadau seiber
- Yn gyfarwydd â chynllun ymateb i ddigwyddiadau'r ysgol ac yn gallu ymateb yn effeithiol

Ymwybyddiaeth ac Addysg

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae staff yn cael hyfforddiant seiberddiogelwch rheolaidd sy'n cwmpasu gwe-rwydo, dwyn manylion adnabod, dolenni maleisus, teilwra cymdeithasol, meddalwedd wystlo, sgamiau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial a bygythiadau eraill sy'n dod i'r amlwg.
- Mae dysgwyr yn cael addysg sy'n briodol i'w hoedran am seiberddiogelwch, sgamiau, diogelu cyfrifon a defnyddio systemau'n gyfreithlon ac yn gyfrifol.
- Mae llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau goruchwylio

Ymateb i Ddigwyddiadau

Bydd yr ysgol yn cynnal cynllun ymateb clir i ddigwyddiadau seiber sy'n:

- diffinio rolau a llwybrau uwchgyfeirio
- cael ei gefnogi gan strategaeth gyfathrebu effeithiol
- cefnogi diogelu a pharhad busnes
- defnyddio ymarferion seiberddigwyddiadau o bryd i'w gilydd i brofi parodrwydd a nodi gwelliannau.
- sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi a'u hadolygu
- nodi cyfrifoldebau ar gyfer diogelu, ymateb technegol, cyfathrebu, diogelu data ac adrodd allanol.

Sicrwydd Allanol

Lle bo'n briodol, bydd yr ysgol yn defnyddio arbenigedd allanol i asesu seiberwydnwch a bydd yn gweithio tuag at safonau neu ardystiadau cydnabyddedig.

Adolygu

Bydd trefniadau seiberddiogelwch yn cael eu hadolygu'n flynyddol, neu'n gynt os bydd digwyddiadau, canllawiau neu newidiadau mewn technoleg yn ei gwneud yn ofynnol. Dylai gwersi a ddysgwyd o reoli digwyddiadau lywio gwelliannau i'r strategaeth.

Atodiad C4 - Templed Polisi Diogelwch Data

Diben

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod data personol a sensitif yn cael ei drin yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn dryloyw, yn unol â deddfwriaeth diogelu data'r DU a chanllawiau statudol. Mae'r polisi'n cefnogi diogelu, preifatrwydd ac ymddiriedaeth ar draws cymuned yr ysgol ac yn rhan o ddull ehangach yr ysgol o ymdrin â diogelwch ar-lein a diogelwch gwybodaeth.

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Yr holl ddata personol a brosesir gan yr ysgol
- Yr holl staff, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr a chontractwyr
- Testunau data gan gynnwys staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr
- Pob cofnod digidol a phapur

- Pob trydydd parti sy'n prosesu data ar ran yr ysgol

Cyd-destun Deddfwriaethol a chanllawiau

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gyfredol y DU, gan gynnwys GDPR y DU fel y'i diwygiwyd a'i hategwyd gan ddeddfwriaeth berthnasol y DU:

- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU)
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025, lle bo'n berthnasol i weithgareddau prosesu'r ysgol
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth
- Canllawiau perthnasol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Canllawiau i ysgolion roi'r strategaeth rheoli gwybodaeth ar waith
- Diogelu data ar gyfer ysgolion a cholegau

Datganiad Polisi

Mae'r ysgol yn cydnabod ei rôl fel Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod data personol:

- Wedi'i brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
- Wedi'i gasglu at ddibenion penodedig a chyfreithlon
- Yn ddigonol, perthnasol a chyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol
- Yn gywir ac yn cael ei gadw'n gyfredol
- Wedi'i gadw dim ond cyhyd ag sydd angen
- Wedi'i ddiogelu rhag mynediad heb awdurdod, colled neu gamddefnydd

Cydnabyddir diogelwch data fel cyfrifoldeb diogelu ac mae wedi'i wreiddio ar draws arweinyddiaeth, llywodraethu ac ymarfer dyddiol.

Mae systemau sy'n gallu defnyddio deallusrwydd artiffisial neu systemau awtomataidd sy'n cynnwys data personol yn cael eu hasesu cyn eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys ystyried sail gyfreithlon, tryloywder, lleihau data, diogelwch, cywirdeb, rhagfarn a'r angen am oruchwyliaeth ddynol.

Dim ond pan fydd gofynion diogelu data a diogelwch yr ysgol wedi'u bodloni y bydd gwybodaeth bersonol neu sensitif yn cael ei rhoi mewn systemau deallusrwydd artiffisial cymeradwy.

Llywodraethu a Rolau

Swyddog Diogelu Data (DPO)

Bydd yr ysgol yn penodi Swyddog Diogelu Data (mewnol neu allanol) a fydd:

- Yn darparu cyngor annibynnol a monitro cydymffurfiaeth
- Yn cefnogi Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAs)
- Yn gweithredu fel y pwynt cyswllt gyda'r ICO
- Yn adrodd yn uniongyrchol i uwch arweinwyr a llywodraethwyr

Mae'r DPO yn gweithredu'n annibynnol ac yn cael ei gefnogi gydag amser, mynediad ac adnoddau priodol.

Llywodraethwyr

Mae'r llywodraethwyr yn gwneud y canlynol:

- Cymeradwyo ac adolygu polisïau diogelu data
- Darparu goruchwyliaeth strategol o gydymffurfiaeth a risg
- Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu
- Derbyn adroddiadau ar doriadau data, archwiliadau a risgiau

Uwch Arweinwyr a Staff

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau'r canlynol:

- Mae diogelu data wedi'i ymgorffori mewn systemau a diwylliant
- Mae staff yn derbyn hyfforddiant priodol
- Mae gweithdrefnau'n cael eu gweithredu'n gyson
- Mae toriadau data yn cael eu rheoli yn unol â pholisi'r ysgol ac yn unol â chanllawiau'r ICO.

Mae'r holl staff a llywodraethwyr yn gyfrifol am drin data personol yn ddiogel ac adrodd am bryderon neu ddigwyddiadau ar unwaith.

Prosesu Cyfreithlon a Thryloywder

Bydd yr ysgol yn:

- Nodi a chofnodi seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu data personol
- Cymhwyso amodau ychwanegol ar gyfer prosesu data categori arbennig
- Cynnal Hysbysiadau Preifatrwydd clir a hygyrch ar gyfer dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff a llywodraethwyr
- Sicrhau bod testunau data yn deall eu hawliau

- Sicrhau bod cydsyniad yn cael ei ystyried a'i sefydlu gyda thestunau data a'i ddefnyddio dim ond lle bo'n briodol a byth fel dewis diofyn lle mae tasg gyhoeddus neu rwymedigaeth gyfreithiol yn berthnasol.

Cofnodion, Mapio a Rheoli Risg

Bydd yr ysgol yn cynnal:

- Cofnod o Weithgareddau Prosesu (RoPA)
- Cofrestr asedau data, gan gynnwys gwasanaethau trydydd parti a chwmwl
- Amserlenni cadw a gwaredu clir
- Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAs) ar gyfer prosesu newydd neu risg uchel

Ystyrir diogelu data yng nghyfnod dylunio unrhyw system neu broses newydd ("diogelu data o'r cychwyn ac yn ddiofyn").

Diogelwch Data a Rheolaethau Mynediad

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae mynediad at ddata personol yn seiliedig ar rôl ac yn gyfyngedig
- Mae cyfrifon defnyddwyr wedi'u diogelu gan ddilysiad cryf
- Mae dyfeisiau sy'n cael mynediad at ddata personol wedi'u diogelu a'u hamgryptio lle bo'n briodol
- Dim ond ar systemau cymeradwy y caiff data personol ei storio
- Mae gwasanaethau cwmwl yn bodloni gofynion diogelu data a diogelwch y DU
- Mae contractau trydydd parti yn cynnwys cymalau prosesu data priodol
- Mae cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel a'u gwaredu'n briodol.

Rhannu a Throsglwyddo Data

Bydd data personol yn cael ei rannu yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- Lle mae sail gyfreithiol
- Gyda mesurau diogelwch priodol ar waith
- Gan ddefnyddio dulliau trosglwyddo diogel
- Gyda thrydydd partïon cymeradwy

Cymerir gofal ychwanegol pan geir mynediad at ddata o bell neu pan gaiff ei drosglwyddo oddi ar y safle.

Hawliau Testun Data

Bydd yr ysgol yn cynnal pob hawl sy'n berthnasol i'r data, gan gynnwys:

- Hawl i gael gwybodaeth
- Hawl mynediad (Ceisiadau Mynediad gan y Testun)

- Hawl i gywiro
- Hawl i ddileu (lle bo'n berthnasol)
- Hawl i gyfyngu ar brosesu neu wrthwynebu iddo

Mae gweithdrefnau ar waith i reoli ceisiadau o fewn amserlenni statudol.

Toriadau Data a Rheoli Digwyddiadau

Bydd yr ysgol yn:

- Cynnal gweithdrefnau clir ar gyfer adrodd a rheoli toriadau data
- Asesu'r risg i hawliau a rhyddid unigolion
- Hysbysu'r ICO o fewn 72 awr lle bo angen
- Cofnodi bob toriad a phob achos lle roedd torri bron â digwydd
- Defnyddio dysgu o ddigwyddiadau i wella ymarfer

Caiff toriadau data eu trin fel digwyddiadau difrifol a gallant hefyd sbarduno gweithdrefnau diogelu lle bo'n briodol.

Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae'r holl staff a llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant diogelu data rheolaidd
- Mae staff newydd yn derbyn hyfforddiant fel rhan o'r broses sefydlu
- Darperir hyfforddiant wedi'i dargedu lle mae rolau'n ei gwneud yn ofynnol
- Addysgir dysgwyr am breifatrwydd a diogelu data fel rhan o'r cwricwlwm, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran

Monitro ac Adolygu

Bydd y polisi hwn yn:

- Cael ei adolygu o leiaf yn flynyddol
- Cael ei ddiweddaru mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllawiau neu risg
- Cael ei gefnogi gan archwiliadau a gwiriadau cydymffurfio

Statws

Dylid darllen y Polisi Diogelwch Data hwn ochr yn ochr â dogfennau canlynol yr ysgol:

- Polisi Diogelu a Diogelwch Plant
- Polisi Diogelwch Ar-lein
- Polisi Diogelwch Technegol

- Polisi Seiberddiogelwch
- Polisi Rheoli a Chadw Cofnodion

Atodiad C5 – Templed Polisi Cyfathrebu Ar-lein Cyhoeddus

Diben

Diben y polisi hwn yw nodi sut mae'r ysgol yn rheoli cyfathrebu cyhoeddus ar-lein er mwyn lleihau risg, hyrwyddo diogelu a diogelwch ar-lein, dathlu llwyddiant a chyfathrebu'n effeithiol â chymuned ehangach yr ysgol.

Mae cyfathrebiadau cyhoeddus ar-lein yn cynnwys gwefan yr ysgol, cylchlythyrau, platfformau dysgu, systemau negeseuon cyhoeddus a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol.

- Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r polisïau Diogelwch Ar-lein, Hidlo Cynnwys y We a Diogelu Ar-lein, Diogelwch Technegol, Seiberddiogelwch a Diogelwch Data ac yn adlewyrchu Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Hwb – Polisïau, gweithdrefnau, egwyddorion ac arferion i ysgolion ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol; Canllawiau Gwe-grafu Hwb (delweddau).

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Pob aelod o staff a'r llywodraethwyr
- Pob cyfathrebiad cyhoeddus ar-lein sy'n cynrychioli'r ysgol
- Cyfrifon a phlatfformau swyddogol yr ysgol
- Cyfrifon personol lle mae eu defnydd yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr ysgol, yn ei chynrychioli neu lle gallai fod yn rhesymol eu cysylltu â'r ysgol mewn cyd-destun proffesiynol
- Cynnwys ysgol a gyhoeddir ar unrhyw adeg, o unrhyw leoliad neu blatfform ar-lein

Datganiad Polisi

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae cyfathrebiadau cyhoeddus ar-lein yn gywir, yn gyfreithlon ac yn briodol
- Rhoddir blaenoriaeth i ystyriaethau diogelu
- Mae data personol yn cael ei ddiogelu yn unol â'r Polisi Diogelwch Data
- Cyhoeddir delweddau a fideos yn unol â gweithdrefnau cydsyniad yn unig
- Mae hawlfraint ac eiddo deallusol yn cael eu parchu
- Mae cyfathrebu'n adlewyrchu safonau proffesiynol
- Caiff cyfeiriadau cyhoeddus at yr ysgol eu monitro'n briodol
- Dim ond drwy gyfrifon a phlatfformau awdurdodedig ysgolion y gwneir cyfathrebiadau cyhoeddus swyddogol.

- Mae cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial neu gynnwys â chymorth deallusrwydd artiffisial yn cael ei adolygu gan berson ac yn cael ei labelu er tryloywder cyn ei gyhoeddi.

Rolau a Chyfrifoldebau

- Mae llywodraethwyr yn darparu goruchwyliaeth strategol a sicrwydd bod cyfathrebiadau cyhoeddus ar-lein yn bodloni gofynion diogelu, diogelu data a chyhoeddi statudol.
- Mae uwch arweinwyr yn cymeradwyo cyfrifon swyddogol ac yn goruchwylio prosesau monitro a chymedroli.
- Mae gweinyddwyr cyfrifon yn cynnal mynediad diogel, yn monitro cynnwys yn rheolaidd ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi.
- Rhaid i bob aelod o staff ddilyn y polisi hwn, cynnal safonau proffesiynol ac adrodd am bryderon.

Creu Cyfrifon Cyhoeddus Ar-lein

- Dim ond ar ôl cymeradwyaeth uwch arweinwyr y caniateir creu cyfrifon cyhoeddus ar-lein newydd.
- Rhaid i gynigion ddiffinio pwrpas, cynulleidfa, aelodau staff cyfrifol a threfniadau monitro.
- Rhaid bod gan o leiaf ddau aelod o staff awdurdodedig fynediad at unrhyw gyfrif cyhoeddus swyddogol.
- Bydd cyfrifon swyddogol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ddiogel, eu trosglwyddo, eu harchifo neu eu cau pan nad oes eu hangen mwyach neu pan fydd cyfrifoldeb yn newid.

Monitro a Chymedroli

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Caiff cyfathrebiadau cyhoeddus eu monitro'n rheolaidd
- Caiff sylwadau eu hadolygu a'u cymedroli'n briodol
- Caiff 'dilynwyr' cyfrifon ysgolion eu monitro'n rheolaidd
- Mae cynnwys niweidiol neu amhriodol yn cael ei drin yn briodol, gan gynnwys ei ddileu, adrodd arno, ei gadw fel tystiolaeth neu ei uwchgyfeirio pan fo angen.
- Rhoddir gwybod am bryderon diogelu ar unwaith drwy weithdrefnau diogelu'r ysgol; mae digwyddiadau difrifol eraill yn cael eu cofnodi a'u huwchgyfeirio i uwch arweinwyr neu asiantaethau allanol perthnasol fel y bo'n briodol.

Safonau Proffesiynol

Rhaid i bob cyfathrebiad cyhoeddus:

- Bod yn barchus ac yn broffesiynol
- Osgoi cynnwys gwahaniaethol, sarhaus neu enllibus
- Diogelu cyfrinachedd
- Osgoi trafod cwynion mewnol
- Osgoi datgelu gwybodaeth sensitif

Defnyddio Delweddau a'r Cyfryngau

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Ceir cydsyniad priodol
- Mae delweddau'n briodol ac yn urddasol
- Ni chaiff dysgwyr eu hadnabod yn ddiangen
- Caiff delweddau eu tynnu lle tynnir cydsyniad yn ôl

- Er mwyn lleihau'r risg y bydd delweddau, fideos, sain neu gynnwys arall sy'n dangos staff neu ddysgwyr yn cael eu copïo, eu trin neu eu camddefnyddio, gan gynnwys drwy dechnolegau deallusrwydd artiffisial, mae gan yr ysgol weithdrefnau sy'n rheoli sut mae cynnwys o'r fath yn cael ei ddewis a'i rannu'n gyhoeddus. (d.s. UKSIC guidance Best Practices for Managing Images and Videos on School Websites, School Image Guidance, and Hwb - Gwe-grafu
    - Mae staff yn ystyried a allai cyhoeddi lleoliad a chyd-destun ochr yn ochr â delweddau gynyddu risgiau diogelu neu breifatrwydd.

Defnydd Personol a Chysylltiad â'r Ysgol

Gall staff ddefnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol; fodd bynnag:

- Pan fydd staff yn nodi eu bod yn gysylltiedig â'r ysgol, rhaid iddynt gynnal ffiniau proffesiynol priodol a chydymffurfio ag ymddygiad staff perthnasol a disgwyliadau defnydd derbyniol.
- Ni ddylai defnydd personol effeithio ar safonau proffesiynol nac enw da'r ysgol
- Ni ddylai staff ymgysylltu â dysgwyr presennol drwy gyfrifon personol
- Gall defnydd gormodol neu amhriodol yn ystod oriau gwaith arwain at gamau disgyblu

Ymdrin â Chwynion a Cham-drin

Lle gwneir sylwadau negyddol ar-lein:

- Bydd yr ysgol yn ymateb yn gymesur
- Bydd cynnwys ymosodol, bygythiol neu niweidiol yn cael ei reoli'n gymesur, gan gynnwys recordio, adrodd, blocio, dileu neu gyfeirio at blatfformau neu asiantaethau perthnasol fel y bo'n briodol.
- Dylid cyfeirio cwynion rhieni/gofalwyr at weithdrefnau cwyno ffurfiol
- Gall materion difrifol gael eu huwchgyfeirio at uwch arweinwyr neu asiantaethau allanol

Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Bydd yr ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Mae staff sy'n gyfrifol am gyfrifon cyhoeddus yn cael arweiniad a hyfforddiant priodol ar ddiogelu, diogelu data, diogelwch cyfrifon, cymedroli, uwchgyfeirio a defnyddio cynnwys â chymorth deallusrwydd artiffisial yn gyfrifol.
- Mae llywodraethwyr yn deall cyfrifoldebau goruchwylio
- Mae'r gymuned ehangach yn cael gwybod am y safonau disgwyliedig

Adolygu a Gwelliant Parhaus

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiweddaru mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol, canllawiau cenedlaethol neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Atodiad C6 - Templed Polisi Diogelwch Ar-lein Ysgol – Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol) mewn Ysgolion

Rhagarweiniad

Mae'r South West Grid for Learning Trust (SWGfL) yn elusen sydd wedi bod ar flaen y gad o ran cefnogi ysgolion gyda diogelwch ar-lein ers 20 mlynedd ac mae'n cael ei chydnabod fel arweinydd byd-eang mewn arloesedd diogelwch ar-lein

Wrth i ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (AI cynhyrchiol) barhau i ddatblygu a dylanwadu ar y byd rydym yn byw ynddo, mae ei rôl mewn addysg hefyd yn esblygu. Ar hyn o bryd mae 3 dimensiwn allweddol i ddefnyddio AI cynhyrchiol mewn ysgolion: cefnogaeth i ddysgwyr, cefnogaeth i athrawon a gweithrediadau ysgolion; mae sicrhau bod yr holl ddefnydd yn ddiogel, yn foesegol ac yn gyfrifol yn hanfodol.

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg am fanteision AI cynhyrchiol i wella dysgu personol a symleiddio tasgau gweinyddol, tra hefyd yn codi pryderon ynghylch preifatrwydd data, defnydd moesegol, a pharodrwydd athrawon i integreiddio offer AI cynhyrchiol yn effeithiol i ystafelloedd dosbarth.

Mae'r ddeialog barhaus hon yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth o botensial trawsnewidiol AI cynhyrchiol mewn addysg, wedi'i gydbwyso â'r angen i'w weithredu'n ofalus i amddiffyn lles dysgwyr a hyrwyddo canlyniadau teg. Mae'r ystyriaethau hyn yn llunio llwybr ar gyfer ymgorffori AI cynhyrchiol mewn ysgolion, gan ganolbwyntio ar hyfforddi athrawon, canllawiau moesegol, a meithrin cymhwysedd digidol ymhlith dysgwyr.

Sut i Ddefnyddio'r Templed hwn

Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu fel templed i arweinwyr ysgolion i'w cynorthwyo i greu eu Polisi AI cynhyrchiol eu hunain.

O fewn y templed hwn, dangosir adrannau sy'n cynnwys gwybodaeth neu ganllawiau mewn GLAS. Rhagwelir y byddai ysgolion yn tynnu'r adrannau hyn o'u dogfen bolisi wedi'i chwblhau, er mai penderfyniad y grŵp sy'n cynhyrchu'r polisi fydd hwn.

Lle mae adrannau yn y templed wedi'u hysgrifennu mewn ITALIG, rhagwelir y byddai ysgolion yn dymuno ystyried a ddylent gynnwys yr adran neu'r datganiad hwnnw yn eu polisi gorffenedig.

Lle mae adrannau wedi'u hamlygu mewn PRINT BRAS, awgrymir y dylai'r rhain fod yn rhan hanfodol o bolisi ysgol.

Cefndir Deddfwriaethol a Dogfennau Allweddol

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein y DU 2023 wedi'i chynllunio i wneud y rhyngrwyd yn fwy diogel, yn enwedig i blant a defnyddwyr agored i niwed, trwy reoleiddio cynnwys ar-lein a dwyn cwmnïau technoleg i gyfrif am ddeunydd niweidiol. Nid yw wedi'i ddeall yn llawn eto ble y gallai fod bylchau mewn rheoleiddio i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed posibl a achosir gan AI. Ofcom yw'r rheoleiddiwr diogelwch ar-lein yn y DU ac mae'n gyfrifol am gyhoeddi codau ymarfer a chanllawiau ar sut y gall cwmnïau gydymffurfio â'u dyletswyddau.

Ar hyn o bryd nid oes deddfwriaeth benodol ynghylch defnyddio AI cynhyrchiol mewn ysgolion, ond mae canllawiau wedi'u datblygu ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd wrth i'r dechnoleg esblygu. Efallai y bydd ysgolion am edrych ar yr adnoddau canlynol:

- Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn addysg – cyfleoedd ac ystyriaethau ar gyfer ysgolion a lleoliadau
- AI cynhyrchiol: Cadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein
- Sylfeini AI: modiwl hyfforddi ar-lein
- Hwb - Beth yw deallusrwydd artiffisial: fideo a gynhyrchwyd gan Gydweithrediad Cymru ar gyfer dylunio dysgu
- AI Opportunities Action Plan (Llywodraeth y DU)
- Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2024 Ofcom
- Deddf Deallusrwydd Artiffisial yr UE 2024 - Crynodeb defnyddiol o ystyriaethau lefel uchel 4 pwynt
- Fframwaith Cymhwysedd Deallusrwydd Artiffisial UNESCO i Fyfyrwyr (Canllawiau)
- Fframwaith Cymhwysedd Deallusrwydd Artiffisial UNESCO i Staff (Canllawiau)

Cyd-destun

Mae AI cynhyrchiol yn cynrychioli naid drawsnewidiol mewn technoleg, gan alluogi peiriannau i greu testun, delweddau, sain a fideo gyda chywirdeb a chreadigrwydd rhyfeddol. Yn deillio o ddatblygiadau mewn dysgu peirianyddol, yn enwedig dysgu dwfn, mae modelau cynhyrchiol fel GPT ('Generative Pre-trained Transformer') a DALL·E yn defnyddio setiau data enfawr i ddeall a chynhyrchu cynnwys sy'n dynwared mynegiant dynol. Gan ganolbwyntio ar destun i ddechrau, mae'r modelau hyn wedi esblygu i fod yn aml-foddol, gan integreiddio a phrosesu gwahanol fathau o fewnbwn, fel testun a delweddau, i gynhyrchu allbynnau cydlynol.

Ers lansio systemau cynnar fel GPT-2 OpenAI yn 2019, mae'r maes wedi datblygu'n gyflym, gan ddatgloi cyfleoedd mewn addysg wrth godi ystyriaethau hanfodol ynghylch moeseg, preifatrwydd data a mynediad teg.

Yn ôl Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein Ofcom 2025 ac Adroddiad Plant a Rhieni: adroddiad agweddau a defnydd o gyfryngau Ofcom 2025 mae mabwysiadu AI cynhyrchiol yn sylweddol uwch ymhlith plant a phobl ifanc nag oedolion, gyda 79% o bobl ifanc ar-lein (13–17) a 40% o blant iau (7–12) yn defnyddio'r offer hyn. Snapchat My AI yw'r platfform mwyaf poblogaidd, a ddefnyddir gan 51% o bobl ifanc ar-lein 7–17 oed, tra mai ChatGPT yw'r prif offeryn ar gyfer oedolion. Mae plant yn defnyddio AI cynhyrchiol yn bennaf ar gyfer tasgau creadigol, sgwrsio, a dod o hyd i wybodaeth, gydag 11% o blant 8–17 oed yn defnyddio AI fel partner sgwrsio neu "ffrind". Fodd bynnag, mae bwlch amlwg rhwng hyder a chymhwysedd: mae 40% o blant 13–17 oed yn ymddiried mewn newyddion a gynhyrchir gan AI cymaint â mewn cynnwys a ysgrifennwyd gan bobl, a methodd 25% o'r rhai a honnodd eu bod yn adnabod cynnwys a gynhyrchwyd gan AI â'i adnabod pan gafodd ei brofi.

Rhaid i ysgolion nawr lywio'r dirwedd hon yn feddylgar, gan lunio polisïau sy'n harneisio manteision AI cynhyrchiol ar gyfer creadigrwydd a dysgu wrth flaenoriaethu diogelwch, sicrwydd a llesiant dysgwyr.

Polisi ar ddefnyddio AI Cynhyrchiol mewn Ysgolion

Datganiad o fwriad

Mae technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) eisoes yn cael ei defnyddio'n helaeth mewn amgylcheddau masnachol ac mae'n cael ei defnyddio fwyfwy mewn addysg. Rydym yn cydnabod bod integreiddio offer AI cynhyrchiol i addysg yn cynnig llawer o gyfleoedd, gan gynnwys y potensial i wella profiadau addysgol a chefnogi staff gyda rhai tasgau gweinyddol. Fodd bynnag, rhaid i'w defnydd flaenoriaethu diogelwch, cyfrifoldeb, moeseg, ymddiriedaeth a chynhwysiant.

Rydym hefyd yn sylweddoli bod risgiau ynghlwm wrth ddefnyddio systemau AI cynhyrchiol, ond y gellir lliniaru'r rhain trwy ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol, gan eu diwygio yn ôl yr angen i fynd i'r afael â risgiau.

Byddwn yn addysgu staff a dysgwyr am ddefnydd diogel a moesegol o AI cynhyrchiol, gan eu paratoi ar gyfer dyfodol lle mae technolegau AI yn debygol o chwarae rhan gynyddol.

Bydd diogelu staff a dysgwyr, fel bob amser, yn flaenllaw yn ein polisi a'n hymarfer.

Polisïau cysylltiedig

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau eraill yr ysgol:

- Polisi Diogelu Data
- Polisïau disgyblu staff a chodau ymddygiad
- Polisi ymddygiad
- Polisi gwrth-fwlio
- Polisi diogelwch ar-lein
- Cytundebau Defnydd Derbyniol
- *Polisïau'r Cwricwlwm*
- Ychwanegwch unrhyw bolisïau eraill a allai fod yn berthnasol

Datganiadau Polisi

- Mae'r ysgol yn cydnabod y manteision posibl o ddefnyddio AI cynhyrchiol mewn cyd-destun addysgol - gan gynnwys gwella dysgu ac addysgu, gwella prosesau gweinyddol, rheoli llwyth gwaith a pharatoi staff a dysgwyr ar gyfer dyfodol lle bydd technoleg AI yn rhan annatod ohono. Anogir staff i ddefnyddio offer sy'n seiliedig ar AI cynhyrchiol i gefnogi eu gwaith lle bo'n briodol, o fewn y fframweithiau a ddarperir isod ac mae'n ofynnol iddynt fod yn broffesiynol gyfrifol ac atebol am y maes hwn o'u gwaith.
- Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, gan gyfeirio at y canllawiau a gynhwysir yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
- Byddwn yn darparu hyfforddiant perthnasol i staff *a llywodraethwyr* o ran manteision, defnydd a risgiau posibl AI cynhyrchiol. Byddwn yn cefnogi staff i nodi anghenion hyfforddi a datblygu er mwyn galluogi cyfleoedd perthnasol.
- Byddwn yn ceisio gwreiddio dysgu am AI cynhyrchiol fel y bo'n briodol yn ein cynnig cwricwlwm, gan gynnwys cefnogi dysgwyr i ddeall sut mae AI cynhyrchiol yn gweithio, ei fanteision posibl, ei risgiau, a'i effeithiau moesegol a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r strategaethau i ddysgwyr ymgysylltu'n gyfrifol ag offer AI cynhyrchiol.
- Fel y nodir yn y cytundeb defnydd derbyniol staff, bydd staff yn cael eu cefnogi i ymgysylltu ag offer AI cynhyrchiol yn gyfrifol, gan sicrhau bod data personol a sensitif yn cael eu diogelu. Dim ond data dienw y bydd staff yn ei fewnbynnu er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy neu sensitif.
- Bydd staff bob amser yn sicrhau bod offer AI cynhyrchiol a ddefnyddir yn cydymffurfio â GDPR a rheoliadau diogelu data eraill. Rhaid iddyn nhw wirio bod offer yn bodloni safonau diogelwch data cyn eu defnyddio ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r ysgol.
- Bydd gofyn i bob aelod o staff ystyried yn ofalus y defnydd o unrhyw offeryn AI cynhyrchiol a chynnwys uwch arweinyddiaeth mewn gwneud penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd.

- Dylai staff bob amser ddefnyddio cyfrifon a ddarperir gan yr ysgol at ddibenion gwaith. Mae'r cyfrifon hyn wedi'u ffurfweddu i gydymffurfio â gofynion diogelwch a goruchwylio sefydliadol, gan leihau'r risg o doriadau data.
- Byddwn yn diogelu gwybodaeth sensitif. Ni ddylai staff fewnbynnu gwybodaeth sensitif, fel dogfennau mewnol neu gynlluniau strategol, i offer trydydd parti AI cynhyrchiol oni bai eu bod wedi'u gwirio'n benodol at y diben hwnnw. Rhaid iddyn nhw bob amser gydnabod a diogelu data sensitif.
- Bydd yr ysgol yn sicrhau, pan gaiff AI cynhyrchiol ei ddefnyddio, na fydd yn torri hawlfraint na chonfensiynau eiddo deallusol – cymerir gofal i osgoi defnyddio eiddo deallusol, gan gynnwys eiddo deallusol y dysgwyr, i hyfforddi modelau AI cynhyrchiol heb gydsyniad priodol.
- Rhaid i staff roi gwybod ar unwaith i'r timau mewnol perthnasol am unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chamddefnyddio AI cynhyrchiol, toriadau data neu allbynnau amhriodol. Mae adrodd cyflym yn helpu i liniaru risgiau ac yn hwyluso ymateb prydlon.
- Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o'r holl offer sy'n cael eu defnyddio, eu pwrpas a'r risgiau posibl. (Mae matricsau asesu risg wedi'u hatodi fel atodiad)
- Rydym yn ymwybodol o'r risg bosibl o wahaniaethu a rhagfarn yn allbynnau offer AI ac mae gennym ymyriadau a phrotocolau ar waith i ddelio ag unrhyw broblemau a allai godi. Wrth gaffael a gweithredu systemau AI cynhyrchiol, byddwn yn dilyn gofal a diwydrwydd dyladwy i flaenoriaethu tegwch a diogelwch.
- *Bydd yr ysgol yn cefnogi rhieni a gofalwyr yn eu dealltwriaeth o ddefnyddio AI cynhyrchiol yn yr ysgol (gallai hyn fod drwy "ganllaw AI yn ein hysgol")*
- *Lle mae staff yn defnyddio offer AI cynhyrchiol i gefnogi eu harferion dysgu ac addysgu, fel wrth asesu gwaith dysgwyr, bydd hyn yn bwrpasol, yn ystyriol, gyda ffocws clir ar sicrhau effaith a dealltwriaeth a lliniaru risg.*
- *Bydd staff yn sicrhau bod dogfennau, negeseuon e-bost, cyflwyniadau, ac allbynnau eraill sy'n cael eu dylanwadu gan AI yn cynnwys labeli neu nodiadau clir sy'n nodi cymorth AI.*
- *Bydd staff yn sicrhau bod yr holl gynnwys a gynhyrchir gan AI yn cael ei wirio am ffeithiau a'i adolygu am gywirdeb cyn ei rannu neu ei gyhoeddi.*
- Bydd defnydd amhriodol o offer AI cynhyrchiol, gan gynnwys torri safonau diogelu data, camddefnyddio gwybodaeth sensitif, neu fethu â chadw at y cytundeb hwn, yn destun camau disgyblu fel y'u diffinnir ym Mholisi Disgyblu Staff.

Cyfrifoldebau

Pennaeth ac Uwch Arweinwyr

Yn gyfrifol am gynllunio'n strategol sut y bydd AI cynhyrchiol yn cael ei defnyddio yn yr ysgol, sefydlu polisïau a gweithdrefnau AI a sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r rhain.

Person Diogelu Dynodedig (DSP) / Arweinydd Diogelwch Ar-lein

Mae gan ein Person Diogelu Dynodedig / Arweinydd Diogelwch Ar-lein gyfrifoldeb am ddiogelwch ar-lein yn yr ysgol. Disgwylir iddo feddu ar wybodaeth am AI cynhyrchiol a'i oblygiadau diogelu a gwybodaeth ymarferol fanwl am ganllawiau allweddol. Rydym yn sicrhau ei fod yn derbyn hyfforddiant arbenigol priodol, sy'n gymesur â'i rôl a bod hyfforddiant parhaus yn cael ei ddarparu i holl staff yr ysgol.

Swyddog Diogelu Data

Bydd y Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am ddarparu cyngor ac arweiniad ynghylch rhwymedigaethau diogelu data mewn perthynas â defnyddio AI cynhyrchiol, gan gynnwys Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAs) cysylltiedig.

Staff Technegol

Bydd staff technegol / Arweinwyr TG yn gyfrifol am gymorth a chanllawiau technegol, gyda sylw penodol i seiberddiogelwch ac effeithiolrwydd systemau hidlo a monitro. (Rhaid i ysgolion sydd â chontractau allanol ar gyfer cymorth technegol sicrhau bod eu Partner Cymorth Technoleg Addysg yn ymwybodol o ofynion yr ysgol ynghylch AI cynhyrchiol ac yn cydymffurfio â pholisïau'r ysgol. Dylai ysgolion o'r fath hefyd archwilio'r gwasanaethau hyn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio)

Staff

Cyfrifoldeb yr holl staff yw darllen a deall y polisi hwn a'r Cytundebau Defnydd Derbyniol cysylltiedig. Rhaid i bob aelod o staff roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau a amheuir sy'n ymwneud â defnyddio AI cynhyrchiol yn unol â pholisi'r ysgol. Bydd yr holl staff yn herio unrhyw ymddygiad amhriodol. Mae gan staff ddyletswydd i sicrhau'r canlynol:

- mae amgylchedd yr ysgol yn ddiogel
- mae data / gwybodaeth sensitif a chyfrinachol yn ddiogel
- nad yw eu gweithredoedd yn peryglu enw da'r ysgol a bod
- dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau

Llywodraethwyr

Rydym yn sicrhau bod gan ein corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o sut mae AI cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun yr ysgol a'r manteision a'r risgiau posibl o'i ddefnyddio. Maent yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd, sy'n eu galluogi i gefnogi'r ysgol a herio lle bo angen. Gall hyn gynnwys gwerthuso'r defnydd o AI cynhyrchiol yn y cwricwlwm, gweinyddiaeth a chyfathrebu, gan sicrhau bod risgiau sy'n ymwneud â'r materion hyn yn cael eu nodi, bod llwybrau adrodd ar gael, a bod risgiau'n

cael eu lliniaru'n effeithiol. (Efallai y bydd ysgolion am ychwanegu yma unrhyw bwyllgor Llywodraethwyr penodol a fydd yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol e.e., Pwyllgor Risg ac Archwilio)

Rhieni/gofalwyr

Rydym yn gweithio'n galed i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr drwy:

- *sesiynau rheolaidd yn yr ysgol*
- *rhannu cylchlythyrau*
- *rhannu gwybodaeth ar-lein e.e. gwefan, cyfryngau cymdeithasol*
- *darparu gwybodaeth am y cwricwlwm*
- Rhestrwch unrhyw ffyrdd eraill y gallech ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

Mae ein rhieni a'n gofalwyr yn cael gwybod sut mae AI cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol ac yn derbyn canllawiau ar arfer da yn ei ddefnydd a'r risgiau o gamddefnyddio a allai effeithio ar ddysgu neu ddiogelwch eu plentyn. Fe'u hanogir i roi gwybod am unrhyw bryderon i'r ysgol a rhoddir gwybod iddynt y bydd pob digwyddiad yn cael ei drin â gofal a sensitifrwydd.

Grwpiau agored i niwed

Rydym yn cydnabod bod dysgwyr agored i niwed yn fwy tebygol o fod mewn perygl o gamddefnyddio AI cynhyrchiol (yn eu defnydd eu hunain neu drwy weithredoedd eraill). Rydym yn sicrhau bod dysgwyr agored i niwed yn cael cynnig cefnogaeth briodol i ganiatáu iddynt gael budd llawn o ddefnyddio AI cynhyrchiol, gan fod yn ymwybodol o'r risgiau posibl.

Ystyrir bod plant yn destun data agored i niwed ac felly mae unrhyw broses sy'n cynnwys eu data personol yn debygol o fod yn "risg uchel". Os defnyddir proses awtomataidd AI i wneud penderfyniadau arwyddocaol am bobl, mae hyn yn debygol o sbarduno'r angen am Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA).

Adrodd

Mae ein systemau adrodd yn cael eu hyrwyddo'n dda, yn hawdd eu deall ac yn hawdd cael mynediad atynt i staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr adrodd am faterion a phryderon yn hyderus, gan wybod y byddant yn cael eu trin o ddifrif. Bydd pob adroddiad yn cael ei drin yn gyflym ac yn sensitif a bydd canlyniadau'n cael eu rhannu lle bo'n briodol. Rydym hefyd yn ymateb i adroddiadau dienw, neu adroddiadau a wneir gan drydydd partïon. Gellir gwneud hyn drwy: (diwygiwch yn ôl yr angen)

- aelod staff enwebedig
- mecanweithiau adrodd ysgol sefydledig
- offeryn adrodd ar-lein/all-lein
- llwybrau adrodd dienw/cyfrinachol

- cysylltiadau â sefydliadau cenedlaethol neu leol
- *rhestrwch unrhyw systemau eraill yma*

Ymateb i ddigwyddiad neu ddatgeliad

Mae ein hymateb bob amser yn seiliedig ar egwyddorion diogelu cadarn ac yn dilyn prosesau diogelu a disgyblu'r ysgol. Mae'n bwyllog, yn ystyriol ac yn briodol ac yn rhoi'r dysgwr yng nghanol pob penderfyniad a wneir.

- Rhaid adrodd ar bob digwyddiad AI cynhyrchiol (gan gynnwys toriadau data a/neu allbynnau amhriodol) ar unwaith i'r timau mewnol perthnasol. Mae adrodd effeithiol yn helpu i liniaru risgiau ac yn hwyluso ymateb prydlon.
- Lle y bo'n berthnasol / angenrheidiol bydd digwyddiadau yn cael eu hadrodd i asiantaethau allanol e.e. yr Heddlu, awdurdod lleol, Swyddogion Diogelu Data, ICO.
- Bydd pob digwyddiad sy'n gysylltiedig ag AI yn cael ei gofnodi drwy systemau cofnodi arferol yr ysgol.

Os bydd staff yn camddefnyddio AI cynhyrchiol, bydd y prosesau disgyblu staff arferol yn cael eu dilyn.

Asesu risg

Mae'n allweddol bod ein dull o reoli risg yn cydweddu â'n dull diogelu ehangach, ac yn ei ategu.

Mae'r ysgol yn deall, er gwaethaf llawer o fanteision cadarnhaol wrth ddefnyddio AI cynhyrchiol, fod rhai risgiau y bydd angen eu nodi a'u rheoli, gan gynnwys:

- Risgiau cyfreithiol, masnachol, diogelwch a moesegol
- Diogelu Data
- Seiberddiogelwch
- Twyll
- Diogelu a llesiant
- Dyletswydd gofal

Gellir defnyddio'r matrics enghreifftiol sydd wedi'i gynnwys ar ddiwedd y templed polisi hwn i werthuso risg o fewn yr ysgol a gellir ei olygu a'i addasu yn unol â hynny trwy weithdrefnau arferol yr ysgol

Addysg a hyfforddiant

Mae dull addysgol ein hysgol yn ceisio datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnolegau digidol sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys AI cynhyrchiol.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i integreiddio AI cynhyrchiol yn effeithiol o fewn amgylchedd ein hysgol. Byddwn yn defnyddio AI cynhyrchiol yn gyfrifol, yn ddiogel ac yn bwrpasol i gefnogi gydag amrywiaeth o dasgau megis:

- cynorthwyo gyda rhai swyddogaethau gweinyddol arferol
- helpu i ddarparu profiadau dysgu mwy personol
- cefnogi cynllunio gwersi, marcio, adborth ac adrodd
- darparu cyd-destunau i gefnogi datblygiad sgiliau meddwl beirniadol
- cefnogi dylunio cwricwlwm ac asesu ar lefel ysgol

Bydd llythrennedd AI, sy'n cynnwys gallu meddwl yn feirniadol, ymgysylltu â thystiolaeth a gwybodaeth, gwirio ffynonellau a defnyddio creadigrwydd, yn hanfodol. Mae'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben, y dylid eu datblygu ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad yng Nghwricwlwm Cymru, yn canolbwyntio ar adeiladu'r tueddiadau hyn. Dull ein hysgol yw cyflwyno'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon lle mae'n briodol ac yn berthnasol yn ein cwricwlwm.

Mae ein dull yn cael yr amser y mae'n ei haeddu ac mae'n ddilys h.y., yn seiliedig ar faterion cyfredol yn genedlaethol, yn lleol ac o fewn proffil risg ein lleoliad. Caiff ei lunio a'i werthuso gan ddysgwyr ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol i sicrhau ei fod yn ddeinamig, yn esblygu ac yn seiliedig ar angen. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- *Ymgysylltu â dysgwyr*
- *Gwerthusiad beirniadol o dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chanfyddiadau ymchwil*
- *Arolygon*
- *Grwpiau ffocws*
- *Ymgysylltu â rhieni*
- *Ymgynghoriad staff*
- *Hyfforddiant staff*

Wrth i AI cynhyrchiol ddod yn rhan annatod o addysg fodern, mae'n bwysig bod staff yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i integreiddio offer AI cynhyrchiol yn gyfrifol i brosesau addysgu, dysgu a gweinyddu. Drwy feithrin llythrennedd AI, gall staff baratoi dysgwyr yn hyderus ar gyfer dyfodol lle mae AI yn allweddol i arloesedd a chyfle.

- Byddwn yn cefnogi ac yn sicrhau y gall yr holl staff gael mynediad at hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol, cyfrifol a moesegol technolegau sy'n dod i'r amlwg mewn addysg.

- Byddwn yn integreiddio risgiau a mesurau diogelwch sy'n gysylltiedig ag AI i hyfforddiant diogelu blynyddol, gan gydweddu â chanllawiau statudol, gan gynnwys 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'.
- Byddwn yn cefnogi staff i nodi, asesu a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thechnolegau AI cynhyrchiol, gan gynnwys materion fel algorithmau rhagfarnllyd, torri preifatrwydd a chynnwys niweidiol.
- Byddwn yn cefnogi staff i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR y DU a rheoliadau perthnasol eraill wrth ddefnyddio systemau AI cynhyrchiol.
- Byddwn yn hyrwyddo arferion moesegol wrth ddefnyddio AI cynhyrchiol, gan sicrhau bod y technolegau hyn yn cyfrannu at gydraddoldeb, tegwch a chynhwysiant mewn addysg.
- Byddwn yn grymuso staff i addysgu dysgwyr am ddefnydd diogel a moesegol AI cynhyrchiol, gan feithrin diwylliant o ymwybyddiaeth, gwydnwch a gwneud penderfyniadau gwybodus yn yr oes ddigidol.

Defnyddir yr adnoddau canlynol:

- Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol – Canllawiau Hwb - Adnoddau, canllawiau a gwybodaeth i ymarferwyr addysg, dysgwyr a theuluoedd ar AI cynhyrchiol.
- Hwb - Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc
- Common Sense Education AI literacy and digital citizenship materials
- Cwricwlwm i Gymru - Hwb
- Sylfeini AI: modiwl hyfforddi ar gyfer ymarferwyr addysg

Dolenni ychwanegol

- SWGfL – Artificial Intelligence and Online Safety

Atodiad C6a - Matrics Asesu Risg ar gyfer Ysgolion sy'n Gweithredu AI cynhyrchiol

Cyflwyniad

Bwriad y matrics asesu risg canlynol yw helpu ysgolion i nodi, gwerthuso a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu AI cynhyrchiol mewn prosesau addysgol.

Mae'r matrics yn ystyried risgiau posibl ar draws gwahanol feysydd, gan gynnwys diogelu data, ystyriaethau moesegol, ac uniondeb gweithredol. Mae ffocws penodol ar faterion diogelu a llesiant, gan amlygu risgiau posibl i les dysgwyr a chynnig strategaethau i liniaru'r risgiau hyn yn effeithiol. Dylai ysgolion ddiwygio cynnwys y matrics yn ôl yr angen ac ystyried y proffil risg sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau eu hunain.

Matrics Asesu Risg

Maes Risg	Disgrifiad o'r Risg	Tebygolrwydd (Isel/Canolig/ Uchel)	Effaith (Isel/Canolig/ Uchel)	Lefel Risg (Isel/Canolig/ Uchel)	Mesurau lliniaru
Hyfforddiant AI cynhyrchiol	Hyfforddiant neu ganllawiau annigonol yn effeithio ar allu staff i fabwysiadu, defnyddio a monitro AI cynhyrchiol yn ddiogel ac yn foesegol yn eu hysgol.				Sicrhau bod yr holl staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant rheolaidd i gefnogi defnydd diogel a moesegol o AI cynhyrchiol mewn dysgu ac addysgu.
Diogelu Data a Thorri Preifatrwydd	Mynediad heb awdurdod i ddata sensitif neu wybodaeth bersonol, gan arwain at bryderon diogelu a risg fasnachol.				Gweithredu amgryptio cryf, archwiliadau rheolaidd, a pholisïau rheoli data sy'n cydymffurfio â GDPR a chynnal archwiliadau preifatrwydd rheolaidd.
Seiberfwlio	Mwy o botensial ar gyfer bwlio trwy offer cyfathrebu sy'n cael eu cyfryngu gan AI.				Monitro offer cyfathrebu AI cynhyrchiol, gweithredu mecanweithiau adrodd clir, a darparu cefnogaeth i ddysgwyr.
Gorddibyniaeth ar AI cynhyrchiol	Gorddibyniaeth ar offer AI cynhyrchiol yn lleihau rhyngweithiadau rhyngbersonol ymhlith dysgwyr. Lleihau ymreolaeth athrawon a gwneud penderfyniadau beirniadol trwy				Annog gweithgareddau dysgu cydweithredol a chydbwyso defnydd o AI cynhyrchiol ag ymgysylltiad cymdeithasol. Diffinio ffiniau clir

	orddefnyddio offer AI cynhyrchiol.				ar gyfer defnyddio AI cynhyrchiol ac adolygu ei effaith ar addysgeg yn rheolaidd.
Triniaeth Emosiynol	Systemau AI cynhyrchiol yn effeithio'n anfwriadol ar iechyd meddwl dysgwyr trwy gynnwys wedi'i guradu.				Monitro cynnwys a gynhyrchir gan AI, cynnwys gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, a hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau.
Cynnwys neu Ymddygiad Amhriodol	AI cynhyrchiol yn amlygu dysgwyr i ddeunyddiau / ymddygiad niweidiol neu anaddas				Cynnal profion trylwyr o offer AI cynhyrchiol, cymhwyso hidlo a monitro effeithiol a sicrhau goruchwyliaeth ddynol.
Effaith ar Iechyd Meddwl	Gorddefnydd o offer AI cynhyrchiol yn achosi straen, pryder neu ddibyniaeth mewn dysgwyr.				Monitro patrymau defnydd, darparu adnoddau iechyd meddwl, a gosod disgwyliadau ar ddefnyddio systemau AI cynhyrchiol.
Rhagfarn a Gwahaniaethu	Systemau AI cynhyrchiol yn lledaenu rhagfarnau sy'n effeithio ar lesiant neu gynhwysiant dysgwyr. Modelau AI cynhyrchiol yn cynhyrchu canlyniadau gwahaniaethol neu ragfarnllyd.				Archwilio algorithmau AI cynhyrchiol yn rheolaidd am ragfarn a darparu addysg a hyfforddiant llythrennedd cyfryngau cynhwysol.

Camddefnyddio AI	Dysgwyr yn defnyddio offer AI cynhyrchiol at ddibenion niweidiol, anfoesegol neu anghyfreithlon (e.e. noethni).				Addysgu dysgwyr ar ddefnydd cyfrifol a phriodol o AI cynhyrchiol a sefydlu polisïau defnydd clir.
Camwybodaeth	Creu neu ledaenu cynnwys niweidiol neu gamarweiniol a gynhyrchir gan AI.				Addysgu staff a dysgwyr i wirio allbynnau AI cynhyrchiol a sefydlu polisïau clir ar gyfer gwirio dilysrwydd cynnwys.
Rhaniad Digidol	Mynediad anghyfartal at offer AI cynhyrchiol ymhlith dysgwyr o grwpiau demograffig amrywiol.				Darparu mynediad teg at adnoddau AI cynhyrchiol a sicrhau bod atebion amgen ar gael.
Ymwybyddiaeth Moeseg AI	Diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff a dysgwyr ynghylch goblygiadau moesegol AI cynhyrchiol.				Darparu hyfforddiant ac addysg ar foeseg AI cynhyrchiol a'i ddefnydd cyfrifol. Sefydlu grŵp 'Moeseg mewn AI'.
Cywirdeb Data	Systemau AI cynhyrchiol yn cynhyrchu argymhellion anghywir neu gamarweiniol.				Dilysu allbynnau AI cynhyrchiol yn rheolaidd a chynnwys goruchwyliaeth ddynol mewn gwneud penderfyniadau.
Cydymffurfiaeth Gyfreithiol	Diffyg cydymffurfio â chyfreithiau ynghylch defnyddio AI cynhyrchiol a data dysgwyr.				Deall gofynion cyfreithiol. Cynnal adolygiadau cyfreithiol ac ymgynghori ag

					arbenigwyr ar reoliadau sy'n gysylltiedig ag AI cynhyrchiol.
Seiberddiogelwch	Defnydd cynyddol o offer AI cynhyrchiol mewn seiberymosodiadau sy'n targedu systemau a data ysgolion.				Cryfhau protocolau seiberddiogelwch ac addysgu staff a dysgwyr ar arferion diogel ar-lein.

Diffiniadau Tebygolrwydd ac Effaith

- Tebygolrwydd: Y tebygolrwydd y bydd y risg a nodwyd yn digwydd.
    - Isel: Annhebygol o ddigwydd o dan amgylchiadau arferol.
    - Canolig: Digwyddiad posibl yn seiliedig ar dueddiadau neu wendidau yn y gorffennol.
    - Uchel: Yn debygol o ddigwydd heb ymyrraeth.
- Effaith: Difrifoldeb yr effaith pe bai'r risg yn digwydd.
    - Isel: Ychydig yn unig o darfu gyda chanlyniadau cyfyngedig.
    - Canolig: Tarfu cymedrol yn effeithio ar brosesau allweddol.
    - Uchel: Tarfu sylweddol gyda chanlyniadau difrifol.

Cynllun Gweithredu

Efallai y bydd ysgolion am greu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r matrics asesu risg. Dylai eich cynllun ystyried dull cyn ac ar ôl i ddangos yr effaith a fwriadwyd ar gyfer eich camau gweithredu arfaethedig. Gallai'r camau gweithredu hyn gynnwys (diwygiwch yn ôl y galw).

1. *Penodi arweinydd diogelu i oruchwylio gweithredu AI cynhyrchiol a'i effaith ar les dysgwyr.*
2. *Darparu hyfforddiant rheolaidd i staff ar ddiogelwch ar-lein, moeseg AI, a defnydd cyfrifol.*
3. *Adolygu'r cynnig cwricwlwm i nodi ble y gellid ymgorffori materion sy'n gysylltiedig ag AI cynhyrchiol mewn dysgu mewn rhannau perthnasol a phriodol o'r cwricwlwm.*

4. *Sefydlu mecanweithiau adrodd tryloyw ar gyfer unrhyw bryderon diogelu neu lesiant sy'n gysylltiedig ag AI cynhyrchiol.*
5. *Cydweithio â rhieni a gofalwyr i godi ymwybyddiaeth am risgiau ac arferion gorau AI cynhyrchiol.*
6. *Cynnal adolygiadau blynyddol o offer AI cynhyrchiol a'u heffaith ar lesiant dysgwyr, gan ddiweddaru'r matrics risg yn ôl yr angen.*

Adolygu a Diweddaru

Bydd yr ysgol yn adolygu ac yn diweddaru'r matrics hwn yn flynyddol neu pryd bynnag y bydd technolegau AI newydd neu heriau diogelu yn codi.

Atodiad C6b - Cytundeb Defnydd Derbyniol Staff (a Gwirfoddolwyr) AI Cynhyrchiol a Thechnolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Bydd yn rhaid i ysgolion benderfynu a ydynt am gael cytundeb Defnydd Derbyniol Staff/Gwirfoddolwyr AI cynhyrchiol penodol fel y darperir isod neu a ddylent ddibynnu ar y cyfeiriadau o fewn yr AUA Staff/Gwirfoddolwyr cyffredinol (fel yn Atodiad A4).

Polisi Ysgol

Mae technolegau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys AI cynhyrchiol, yn cael eu hintegreiddio fwyfwy i leoliadau addysgol a bywydau staff a dysgwyr. Mae gan y technolegau hyn botensial i wella creadigrwydd, hyrwyddo dysgu personol, a gwella effeithlonrwydd gweithredol. Fodd bynnag, mae eu defnydd hefyd yn cyflwyno risgiau sy'n gofyn am bolisïau ac arferion clir i sicrhau diogelwch, sicrwydd a chymhwyso moesegol.

Nod y polisi defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:

- Mae staff a gwirfoddolwyr yn ddefnyddwyr cyfrifol o AI cynhyrchiol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, gan flaenoriaethu ystyriaethau diogelwch a moesegol.
- Mae systemau a defnyddwyr ysgolion yn cael eu hamddiffyn rhag camddefnydd neu niwed sy'n deillio o ddefnyddio AI cynhyrchiol.
- Mae gan staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau wrth ymgysylltu ag AI cynhyrchiol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg mewn cyd-destunau proffesiynol a phersonol.

Cytundeb Defnydd Derbyniol

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi ddefnyddio AI cynhyrchiol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg yn gyfrifol er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch, preifatrwydd, neu ddiogelwch cymuned yr ysgol a'i systemau. Rwy'n cydnabod potensial y technolegau hyn ar gyfer gwella dysgu a byddaf yn ymdrechu i'w hintegreiddio mewn ffordd sy'n cydweddu â pholisi, ethos a gwerthoedd yr ysgol.

Er fy niogelwch proffesiynol a phersonol:

- Rwy'n deall y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o offer a thechnolegau AI cynhyrchiol.
- Dim ond at ddibenion a awdurdodwyd gan yr ysgol y byddaf yn defnyddio offer a thechnolegau AI cynhyrchiol a byddaf yn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau diogelu data (e.e. GDPR y DU) wrth drin data personol.
- Byddaf yn sicrhau mai dim ond i systemau AI cynhyrchiol sydd â chymeradwyaeth benodol a mesurau diogelwch cadarn ar waith y caiff unrhyw wybodaeth sensitif neu bersonol adnabyddadwy am staff, dysgwyr, neu rieni/gofalwyr ei rhoi mewn systemau.
- Byddaf yn rhoi gwybod i'r person priodol ar unwaith am unrhyw ddigwyddiadau neu anomaleddau sy'n gysylltiedig ag AI cynhyrchiol a allai ddangos camddefnydd, rhagfarn neu niwed.

Yn fy nghyfathrebiadau a'm gweithredoedd:

- Byddaf yn parchu hawlfraint, eiddo deallusol, a safonau moesegol wrth uwchlwytho cynnwys i ysgogi allbynnau AI cynhyrchiol.
- Byddaf yn gwerthuso allbynnau systemau AI cynhyrchiol yn feirniadol er mwyn osgoi lledaenu gwybodaeth anghywir neu gynnwys rhagfarnllyd a byddaf yn sicrhau bod pob penderfyniad gyda chymorth AI yn cael ei wneud gyda goruchwyliaeth ddynol briodol.
- Byddaf yn cyfathrebu'n broffesiynol ac yn gyfrifol wrth ddefnyddio systemau AI cynhyrchiol.
- Byddaf yn sicrhau tryloywder trwy briodoli'n briodol lle mae AI cynhyrchiol wedi'i ddefnyddio.

Wrth ymgysylltu â dysgwyr:

- Byddaf yn cefnogi dysgwyr ar ddefnydd diogel, moesegol, priodol ac effeithiol o AI cynhyrchiol.

- Byddaf yn defnyddio offer AI cynhyrchiol i ymgysylltu â dysgwyr mewn ffyrdd sy'n cynnal ac yn gwella eu preifatrwydd, eu llesiant a'u hymddiriedaeth.

Wrth ddefnyddio systemau ac adnoddau'r ysgol:

- Byddaf yn defnyddio systemau AI cynhyrchiol yn unol â mesurau diogelwch a phrotocolau mynediad sefydledig.
- Byddaf yn sicrhau bod unrhyw rhaglenni AI cynhyrchiol a ddefnyddir mewn addysgu neu weinyddu yn cael eu gwirio ac yn cydymffurfio â pholisïau'r ysgol.
- Byddaf yn sicrhau nad yw offer AI cynhyrchiol yn cael eu defnyddio i ddynwared pobl eraill na chreu cynnwys camarweiniol neu niweidiol.

Wrth drin data:

- Byddaf yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau diogelu data'r ysgol wrth ddefnyddio AI cynhyrchiol ar gyfer dadansoddi data neu adrodd.
- Byddaf yn sicrhau bod gennyf awdurdodiad penodol wrth uwchlwytho gwybodaeth sensitif sy'n gysylltiedig â'r ysgol i systemau AI cynhyrchiol.

Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd:

- Byddaf yn defnyddio offer AI cynhyrchiol yn gyfrifol i greu cynnwys dilys a buddiol, gan sicrhau parch at hunaniaeth a llesiant unigolion.
- Rwy'n deall y gallai camddefnyddio AI cynhyrchiol neu dechnolegau sy'n dod i'r amlwg arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys rhybuddion, gwaharddiad, neu atgyfeiriad at yr awdurdodau priodol.
- Rwy'n cydnabod bod y cytundeb hwn yn berthnasol i bob gweithgaredd sy'n gysylltiedig ag AI cynhyrchiol o fewn ac y tu allan i safle'r ysgol sy'n gysylltiedig â'm cyfrifoldebau proffesiynol.

Atodiad C6c - Ffurflen Gais am Offerynnau AI Cynhyrchiol

Argymhellir mai dim ond offer AI cynhyrchiol sydd wedi'u cymeradwyo gan yr ysgol y dylai ysgolion ganiatáu eu defnyddio. Mae'r ffurflen isod yn caniatáu i staff geisio cymeradwyaeth i ddefnyddio offer y maent wedi'u cael yn ddefnyddiol ac sy'n debygol o fodloni meini prawf cymeradwyo'r ysgol.

Person cyswllt:

Swydd:

Dyddiad y cais:

Manylion Offeryn/Adnodd AI cynhyrchiol

Enw'r offeryn/adnodd AI:

Diben y defnydd:

Manteision disgwyliedig:

Risgiau posibl:

Mae'r pwyntiau canlynol wedi cael eu cydnabod: (rhowch gylch - YDYN / NAC YDYN)

- Cydymffurfiaeth GDPR y DU: Rhaid i ddefnyddwyr AI cynhyrchiol gynnal eu cyfrifoldebau diogelu data yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR UK).

- Cytundeb defnydd derbyniol: Rhaid i ddefnyddwyr AI cynhyrchiol sicrhau bod ei ddefnydd yn gyson â Chytundeb Defnydd Derbyniol Staff yr ysgol a dylent ddeall eu cyfrifoldebau dros liniaru risgiau cysylltiedig, fel yr amlinellir yma: https://hwb.gov.wales/gwella-ysgolion-ac-arweinyddiaeth/safonau-digidol-addysg/deallusrwydd-artiffisial-cynhyrchiol-mewn-addysg/#considerations-for-schools-and-settings-around-generative-ai

- Achos defnydd AI cynhyrchiol: Rhaid i ddefnyddwyr sefydlu pwrpas clir ar gyfer defnyddio offer penodol AI cynhyrchiol trwy ddefnydd effeithiol a moesegol.

Cymeradwyaeth y Pennaeth: (rhowch gylch - IE / NA)

Dyddiad cymeradwyo:

Cydnabyddiaeth: Mae'r ffurflen hon yn deillio o un a ddefnyddir gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer ei ysgolion.

Deddfwriaeth

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r fframwaith deddfwriaethol y cynhyrchwyd y templed polisi a'r canllawiau diogelwch ar-lein hwn oddi tano. Mae'n bwysig nodi, yn gyffredinol, bod gweithred sy'n anghyfreithlon os caiff ei chyflawni all-lein hefyd yn anghyfreithlon os caiff ei chyflawni ar-lein.

Argymhellir ceisio cyngor cyfreithiol os bydd problem neu sefyllfa diogelwch ar-lein yn codi.

Mae crynodeb defnyddiol o ddeddfwriaeth berthnasol ar gael yn: Adrodd am Gynnwys Niweidiol: Deddfau ynghylch ymddygiadau niweidiol

Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i:

- Dileu neu ddiwygio data neu raglenni heb awdurdod;
- Cael mynediad heb awdurdod i gyfrifiadur;
- "Clustfeinio" ar gyfrifiadur;
- Gwneud defnydd heb awdurdod o amser neu gyfleusterau cyfrifiadurol;
- Llygru neu ddileu data neu raglenni yn faleisus;
- Gwrthod mynediad i ddefnyddwyr awdurdodedig.

Efallai y bydd ysgolion am edrych ar wefan yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol sy'n cynnwys gwybodaeth am y Rhaglen Cyber Choices. Mae gan Uned Troseddau Seiber Rhanbarthol TARIAN (RCCU) erbyn hyn swyddogion 'Atal Seiber' pwrpasol y mae eu rôl yw atal pobl ifanc rhag cyflawni seiberdroseddu a/neu aildroseddu. Mae adnoddau cefnogi ar gael ar Hwb.

Deddf Diogelu Data 1998

Mae hyn yn amddiffyn hawliau a phreifatrwydd data unigolion. Er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, rhaid casglu a defnyddio gwybodaeth am unigolion yn deg, ei storio'n ddiogel ac yn saff a pheidio â'i datgelu i unrhyw drydydd parti yn anghyfreithlon. Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i ddata person:

- Cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon;
- Cael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig.
- Bod yn ddigonol, perthnasol a heb fod yn ormodol.
- Bod yn gywir.
- Heb ei gadw'n hirach nag sydd angen.
- Cael ei brosesu yn unol â hawliau'r testun data.
- Yn ddiogel.
- Heb ei drosglwyddo i wledydd eraill heb amddiffyniad digonol.

Deddf Diogelu Data 2018:

Yn diweddaru Deddf 1998, yn ymgorffori'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac yn anelu at:

- Hwyluso trosglwyddo gwybodaeth yn ddiogel o fewn yr Undeb Ewropeaidd.
- Atal pobl neu sefydliadau rhag dal a defnyddio gwybodaeth anghywir am unigolion. Mae hyn yn berthnasol i wybodaeth sy'n ymwneud â bywydau preifat neu fusnes.
- Rhoi hyder i'r cyhoedd ynghylch sut y gall busnesau ddefnyddio eu gwybodaeth bersonol.
- Rhoi'r hawl gyfreithiol i destunau data wirio'r wybodaeth sydd gan fusnesau amdanynt. Gallant hefyd ofyn i'r rheolwr data ei ddinistrio.
- Rhoi mwy o reolaeth i destunau data dros sut mae rheolwyr data yn trin eu data.
- Rhoi pwyslais ar atebolrwydd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau gael prosesau ar waith sy'n dangos sut maen nhw'n trin data yn ddiogel.
- Ei wneud yn ofynnol i gwmnïau gadw data personol pobl yn ddiogel ac yn saff. Rhaid i reolwyr data sicrhau nad yw'n cael ei gamddefnyddio.
- Ei wneud yn ofynnol i ddefnyddiwr neu ddeiliad y data gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae gan bob testun data hawl i:

- Derbyn gwybodaeth glir am yr hyn y byddwch chi'n defnyddio eu data ar ei gyfer.
- Mynediad i'w gwybodaeth bersonol eu hunain.
- Gofyn am ddiwygio eu data os yw wedi dyddio neu wedi'i ddileu. Gelwir y rhain yn hawl i gywiro a hawl i ddileu
- Gofyn am wybodaeth am y rhesymeg y tu ôl i unrhyw benderfyniadau awtomataidd, fel os yw meddalwedd gyfrifiadurol yn gwrthod mynediad iddynt at fenthyciad.
- Atal neu ymholi am brosesu awtomataidd eu data personol.

Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 (DUAA)

Mae'r ddeddf hon yn diweddaru, yn hytrach na disodli, cyfraith diogelu data bresennol y DU, gan gynnwys GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Ar gyfer ysgolion, mae'r gofynion sylfaenol i drin data personol yn gyfreithlon, yn deg, yn dryloyw ac yn ddiogel yn parhau. Ond mae'r Ddeddf yn cyflwyno ac yn egluro darpariaethau sy'n ymwneud â meysydd fel prosesu cyfreithlon, gwneud penderfyniadau awtomataidd, rhannu data a thrin cwynion diogelu data. Dylai ysgolion adolygu eu polisïau diogelu data, eu gwybodaeth am breifatrwydd a'u gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r newidiadau, gan roi sylw penodol i sut mae data disgyblion, staff a rhieni/gofalwyr yn cael ei gasglu, ei gyrchu, ei rannu a'i ddefnyddio, ac i'r defnydd o dechnolegau datblygol a gwasanaethau ar-lein sy'n prosesu data personol.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i unigolion ofyn am wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae gan bob awdurdod cyhoeddus a chwmni sy'n eiddo'n llwyr i awdurdodau cyhoeddus rwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Wrth ymateb i geisiadau, mae'n rhaid iddynt ddilyn nifer o weithdrefnau penodol.

Deddf Cyfathrebiadau 2003

Mae anfon neges neu ddeunydd arall drwy gyfrwng y Rhyngrwyd sy'n sarhaus iawn neu o gymeriad anweddus, aflan neu fygythiol; neu anfon neges ffug drwy gyfrwng y Rhyngrwyd neu ei ddefnyddio'n barhaus at ddiben achosi annifyrrwch, anghyfleustra neu bryder diangen yn euog o drosedd sy'n agored, ar gollfarn, i garchar. Mae'r geiriad hwn yn bwysig oherwydd bod trosedd yn gyflawn cyn gynted ag y bydd y neges wedi'i hanfon: nid oes angen profi unrhyw fwriad na phwrpas.

Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988

Mae'n drosedd anfon llythyr, cyfathrebiad electronig neu erthygl arall anweddus, sarhaus neu fygythiol at berson arall.

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Mae'n drosedd i unrhyw berson ryng-gipio unrhyw gyfathrebiad yn fwriadol a heb awdurdod cyfreithlon. Caniateir monitro neu gadw cofnod o unrhyw fath o gyfathrebu electronig, er mwyn:

- Sefydlu'r ffeithiau;
- Sicrhau cydymffurfiaeth ag arferion neu weithdrefnau rheoleiddiol neu hunanreoleiddiol;
- Dangos safonau sy'n cael eu cyflawni neu y dylid eu cyflawni gan bobl sy'n defnyddio'r system;
- Ymchwilio i neu ganfod defnydd heb awdurdod o'r system gyfathrebu;
- Atal neu ganfod troseddau neu er budd diogelwch cenedlaethol;
- Sicrhau gweithrediad effeithiol y system.
- Mae monitro ond nid recordio hefyd yn ganiataol er mwyn:
- Canfod a yw'r cyfathrebiad yn un busnes neu bersonol;
- Diogelu neu gefnogi staff y llinell gymorth.
- Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i fonitro ei systemau a'i chyfathrebu yn unol â'i hawliau o dan y ddeddf hon.

Deddf Nodau Masnach 1994

Mae hyn yn darparu amddiffyniad i Nodau Masnach Cofrestredig, a all fod yn unrhyw symbol (geiriau, siapiau neu ddelweddau) sy'n gysylltiedig â set benodol o nwyddau neu

wasanaethau. Ni ddylid defnyddio Nodau Masnach Cofrestredig heb ganiatâd. Gall hyn hefyd ddeillio o ddefnyddio Marc sy'n ddryslyd o debyg i Farc sy'n bodoli eisoes.

Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988

Mae'n drosedd copïo'r cyfan, neu ran sylweddol o waith hawlfraint. Fodd bynnag, mae peth caniatâd cyfyngedig i ddefnyddwyr, megis delio teg, sy'n golygu nad oes angen caniatâd o dan rai amgylchiadau i gopïo symiau bach ar gyfer ymchwil anfasnachol neu astudiaeth breifat. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer Hawliau Moesol, lle gall awduron erlyn os nad yw eu henw wedi'i gynnwys mewn gwaith a ysgrifennwyd ganddynt, neu os yw'r gwaith wedi'i ddiwygio mewn ffordd sy'n amau eu henw da. Mae hawlfraint yn cwmpasu deunyddiau ar ffurf brintiedig ac electronig, ac mae'n cynnwys geiriau, delweddau a synau, delweddau symudol, darllediadau teledu a chyfryngau eraill (e.e. YouTube).

Deddf Cyfathrebiadau 1984

Mae'n drosedd anfon neges neu ddeunydd arall sy'n sarhaus iawn neu o gymeriad anweddus, aflan neu fygythiol. Mae hefyd yn drosedd anfon neges sydd â'r bwriad o achosi annifyrrwch, anghyfleustra neu bryder diangen i rywun arall y mae'r anfonwr yn gwybod ei bod yn ffug.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

Mae hyn yn diffinio trosedd o aflonyddu bwriadol, sy'n cwmpasu pob math o aflonyddu, gan gynnwys rhywiol. Mae person yn euog o drosedd os, gyda'r bwriad o achosi aflonyddwch, braw neu ofid i berson, maen nhw'n:

- Defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, camdriniol neu sarhaus, neu ymddygiad anhrefnus; neu'n
- Arddangos unrhyw ysgrifen, arwydd neu gynrychiolaeth weladwy arall, sy'n fygythiol, yn gamdriniol neu'n sarhaus, a thrwy hynny'n achosi aflonyddwch, braw neu ofid i'r person hwnnw neu berson arall.

Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd bygwth pobl oherwydd eu ffydd, neu ysgogi casineb crefyddol drwy arddangos, cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol. Mae cyfreithiau eraill eisoes yn amddiffyn pobl rhag bygythiadau yn seiliedig ar eu hil, eu cenedligrwydd neu eu cefndir ethnig.

Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997

Ni ddylai person ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfateb i aflonyddu ar rywun arall ac y mae ef / hi yn gwybod neu y dylai wybod sy'n cyfateb i aflonyddu ar y llall. Mae person y mae ei ymddygiad yn peri i rywun arall ofni, ar o leiaf ddau achlysur, y bydd trais yn cael ei

ddefnyddio yn ei erbyn yn euog o drosedd os yw'n gwybod neu os dylai wybod y bydd ei ymddygiad yn peri i'r llall ofni felly ar bob un o'r achlysuron hynny.

Deddf Diogelu Plant 1978

Mae'n drosedd cymryd, caniatáu cymryd, gwneud, meddu ar, dangos, dosbarthu neu hysbysebu delweddau anweddus o blant yn y Deyrnas Unedig. Plentyn at y dibenion hyn yw unrhyw un o dan 18 oed. Mae edrych ar ddelwedd anweddus o blentyn ar eich cyfrifiadur yn golygu eich bod wedi creu delwedd ddigidol. Mae delwedd o blentyn hefyd yn cwmpasu ffug-luniau (a gasglwyd yn ddigidol neu fel arall). Gall rhywun a geir yn euog o drosedd o'r fath wynebu hyd at 10 mlynedd yn y carchar

Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Cyflawnir trosedd meithrin perthynas rywiol os ydych chi dros 18 oed ac wedi cyfathrebu â phlentyn dan 16 oed o leiaf ddwywaith (gan gynnwys dros y ffôn neu gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd) mae'n drosedd cwrdd â nhw neu deithio i gwrdd â nhw unrhyw le yn y byd gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rhywiol. Mae achosi i blentyn dan 16 oed wylio gweithred rywiol yn anghyfreithlon, gan gynnwys edrych ar ddelweddau fel fideos, lluniau neu gamerâu gwe, er eich boddhad eich hun. Mae hefyd yn drosedd i berson mewn swydd o ymddiriedaeth gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gydag unrhyw berson o dan 18 oed, y maent mewn swydd o ymddiriedaeth gydag ef. (Fel arfer, mae athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, staff cysylltiadau yn dod o dan y categori ymddiriedaeth hwn). Mae unrhyw gyfathrach rywiol gyda phlentyn o dan 13 oed yn cyflawni'r drosedd o dreisio.

Deddf Trefn Gyhoeddus 1986

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i ysgogi casineb hiliol drwy arddangos, cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol. Fel Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006 mae hefyd yn gwneud meddu ar ddeunydd llidiol gyda'r bwriad o'i ryddhau yn drosedd. Cyfarwyddiaeth Plant, Teuluoedd ac Addysg tudalen 38 Ebrill 2007.

Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959 a 1964

Mae cyhoeddi erthygl “anweddus” yn drosedd. Mae cyhoeddi yn cynnwys trosglwyddo electronig.

Deddf Hawliau Dynol 1998

Nid yw hyn yn ymdrin ag unrhyw fater penodol yn benodol nac unrhyw faes pwnc ar wahân o fewn y gyfraith. Mae'n fath o "gyfraith uwch", sy'n effeithio ar bob cyfraith arall. Yng nghyd-destun ysgol, mae hawliau dynol i fod yn ymwybodol ohonynt yn cynnwys:

- Yr hawl i gael treial teg
- Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth
- Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
- Rhyddid mynegiant
- Rhyddid ymgynnull
- Gwahardd gwahaniaethu
- Yr hawl i addysg

Nid yw'r hawliau hyn yn absoliwt. Mae'n rhaid i'r ysgol barchu'r hawliau a'r rhyddid hyn, gan eu cydbwyso yn erbyn yr hawliau, y dyletswyddau a'r rhwymedigaethau hynny sy'n deillio o ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Deddf Troseddau Difrifol 2015

Cyflwynwyd trosedd newydd o gyfathrebu rhywiol â phlentyn. Hefyd crëwyd troseddau a gorchmynion newydd ynghylch troseddau gangiau (gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant)

Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015

Mae porn dial – fel y'i gelwir yn gyffredin bellach – yn cynnwys dosbarthu delweddau neu fideos preifat a phersonol rhywiol o unigolyn heb eu cydsyniad, gyda'r bwriad o achosi cywilydd a gofid iddynt. Yn aml, defnyddir porn dial yn faleisus i gywilyddio cyn-bartneriaid. Gwnaed porn dial yn drosedd benodol yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015. Mae'r Ddeddf yn nodi, os cewch eich cyhuddo o born dial a'ch cael yn euog o'r drosedd, y gallech gael eich erlyn a wynebu dedfryd o hyd at ddwy flynedd yn y carchar.

Am ragor o arweiniad neu gefnogaeth cysylltwch â'r Llinell Gymorth Porn DialDeddf Diogelwch Ar-lein 2023

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn set newydd o gyfreithiau sy'n amddiffyn plant ac oedolion ar-lein. Mae'n rhoi amrywiaeth o ddyletswyddau newydd ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau chwilio, gan eu gwneud yn fwy cyfrifol am ddiogelwch eu defnyddwyr ar eu platfformau. Bydd y Ddeddf yn rhoi dyletswyddau newydd i ddarparwyr weithredu systemau a phrosesau i leihau'r risgiau y bydd eu gwasanaethau'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch anghyfreithlon, ac i dynnu cynnwys anghyfreithlon i lawr pan fydd yn ymddangos.

Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer Diogelwch Ar-lein. Bydd yn nodi camau y gall darparwyr eu cymryd i gyflawni eu dyletswyddau diogelwch mewn codau ymarfer. Mae ganddo ystod eang o bwerau i asesu a gorfodi cydymffurfiaeth darparwyr â'r fframwaith.

Diogelwch i bobl ifanc

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein yn creu cyfrifoldeb cyfreithiol (“dyletswydd gofal”) ar weithredwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr i amddiffyn defnyddwyr o dan 18 oed rhag cynnwys niweidiol, yn benodol

- Gorfodi gofynion oedran isafswm
- Cyhoeddi asesiadau risg
- Diogelu plant rhag cynnwys niweidiol a gyhoeddir ar y gwasanaeth
- Cymhwyso'r Telerau ac Amodau yn gywir

Diogelwch i oedolion

Er bod y Ddeddf yn canolbwyntio ar yr angen i ddiogelu pobl ifanc ar-lein, mae rhai darpariaethau sy'n canolbwyntio ar ddiogelu oedolion (a fydd o fudd i bob defnyddiwr) gan gynnwys

- Y gallu i addasu eich porthiant
- Rhwystro troliau ar-lein
- Troseddoli cynnwys penodol
- Dileu cynnwys sydd eisoes yn anghyfreithlon

Gorfodaeth

Mae Ofcom wedi cael ei benodi’n rheoleiddiwr ac mae ganddo bwerau i gael gwybodaeth gan weithredwyr gwefannau ynghylch sut maen nhw’n delio â niwed ar-lein ac i gymryd camau os na fyddan nhw’n cydymffurfio â’u dyletswyddau newydd, gan gynnwys

- Ymchwilio i weithredwyr gwefannau a'u cydymffurfiaeth â'r Bil
- Rhoi cosbau ariannol i gwmnïau nad ydynt yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau
- Cyhoeddi canllawiau ar gydymffurfiaeth
- Cyhoeddi hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwefannau roi gwybodaeth neu gydweithredu ag ymchwiliad Ofcom

Dolenni i sefydliadau neu ddogfennau eraill

Gallai'r dolenni canlynol helpu'r rhai sy'n datblygu neu'n adolygu polisi diogelwch ar-lein ysgol ac yn creu eu darpariaeth diogelwch ar-lein:

Llywodraeth Cymru

Diogelu plant (gan gynnwys Cadw Dysgwyr yn Ddiogel)
Cyngor ar fwlio yn yr ysgol

Hwb

Hafan Hwb
Diogelwch ar-lein: Pum cwestiwn allweddol ar gyfer gyrff llywodraethu er mwyn helpu i herio ysgolion a cholegau i ddiogelu eu dysgwyr yn effeithiol
Fframwaith Cymhwysedd Digidol
Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles
Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 4 a 5 Diogelwch Ar-lein ar gyfer Ymarferwyr a Llywodraethwyr
Darparu cyfleoedd dysgu ar-lein: egwyddorion ac arferion diogelu
Adnoddau Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn fwy Diogel
Cyngor i ysgolion ar baratoi ar gyfer heriau niweidiol feirol ar-lein a storïau celwydd ac ymateb iddynt
Arferion ac egwyddorion i ysgolion ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
Cadw'n Ddiogel Ar-lein.
Canolfan Cymeradwyo Hwb
Safonau Digidol Addysg

UK Safer Internet Centre

Safer Internet Centre – https://www.saferinternet.org.uk/
South West Grid for Learning - https://swgfl.org.uk/products-services/online-safety/
Childnet – http://www.childnet-int.org/
Professionals Online Safety Helpline - http://www.saferinternet.org.uk/about/helpline
Revenge Porn Helpline - https://revengepornhelpline.org.uk/
Internet Watch Foundation - https://www.iwf.org.uk/
Report Harmful Content - https://reportharmfulcontent.com/
Harmful Sexual Support Service

CEOP

CEOP - http://ceop.police.uk/
ThinkUKnow - https://www.thinkuknow.co.uk/

Eraill

Kent – Online Safety Resources page
INSAFE/Better Internet for Kids - https://www.betterinternetforkids.eu/

UK Council for Internet Safety (UKCIS) - https://www.gov.uk/government/organisations/uk-council-for-internet-safety

Offer / Adnoddau ar gyfer Ysgolion / sefydliadau eraill

SWGfL Test filtering - http://testfiltering.com/

Childline – Report / Remove

SWGfL- Assisted Monitoring

SWGfL – Resources for Education

Bwlio/Bwlio Ar-lein/Secstio/Aflonyddu Rhywiol

Enable – rhaglen ac adnoddau Gwrth-fwlio Ewropeaidd (cydlynu/cyfranogiad y DU drwy SWGfL a Gwobrau Diana) - http://enable.eun.org/

Gwasanaeth Gwrth-fwlio'r Alban, Respectme - http://www.respectme.org.uk/

Childnet – Canllawiau seiberfwlio a phecyn cymorth ymarferol ABCh:
http://www.childnet.com/our-projects/cyberbullying-guidance-and-practical-toolkit

Childnet – Project deSHAME – Aflonyddu Rhywiol Ar-lein

UKSIC – Adnoddau Secstio

Ditch the Label – Elusen Bwlio Ar-lein

Gwobr Diana – Ymgyrch Gwrth-fwlio

Rhwydweithio Cymdeithasol

Children's Commissioner, TES and Schillings – Young peoples' rights on social media

Hwb – Gwe-grafu

Hwb Cadw'n ddiogel ar-lein - Canllawiau ynghylch apiau i deuluoedd

Hwb Cadw'n ddiogel ar-lein - y cyfryngau cymdeithasol

Hwb - Arferion ac egwyddorion i ysgolion ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Hwb - Ymateb i faterion enw da ar-lein ac aflonyddu a gyfeirir at ysgolion a staff ysgol

Diogelu Data

Llywodraeth Cymru - Canllawiau i ysgolion roi'r strategaeth rheoli gwybodaeth ar waith

Hwb Cytundeb Rhannu Data Ysgol

Hwb - Diogelu data ar gyfer ysgolion a cholegau

Hwb – Posteri diogelu data

ICO Canllawiau i Sefydliadau

ICO Canllawiau ar dynnu lluniau mewn ysgolion

Safonau Proffesiynol/Hyfforddiant Staff

DCF Professional Learning Needs Tool

UK Safer Internet Centre Professionals Online Safety Helpline

SWGfL – Online Safety Training

Seilwaith/Cymorth Technegol/Seiberddiogelwch

Safonau Digidol Addysg

Hwb - Cynllun Ymateb Ysgolion i Ddigwyddiadau Seiber
Hwb - Seiberddiogelwch mewn ysgolion: cwestiynau ar gyfer cyrff llywodraethu...
Cyber Resilience Centre for Wales
Tarian – Beth yw seiberdroseddu?
UKSIC – Appropriate Filtering and Monitoring
SWGfL Safety & Security Resources
SWGfL - **Seiberddiogelwch mewn Ysgolion**.
NCA – Guide to the Computer Misuse Act

Gweithio gyda rhieni a gofalwyr

Hwb – Canllawiau ynghylch apiau i deuluoedd
Childnet Webpages for Parents & Carers
Get Safe Online – adnoddau i rieni
Teach Today - resources for parents workshops/education
Internet Matters

Prevent

Prevent Duty Guidance
Childnet – Trust Me

Ymchwil

Ofcom – Arferion Cyfryngau Plant

SWGfL sy'n dal hawlfraint Templedi Polisi Diogelwch Ar-lein Ysgolion SWGfL. Caniateir i ysgolion a sefydliadau addysgol eraill ddefnyddio'r templedi am ddim. Dylai unrhyw berson neu sefydliad sy'n dymuno defnyddio'r ddogfen at ddibenion eraill geisio cydsyniad gan SWGfL a chydnabod ei defnydd.

Gwnaed pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y templed hwn yn gywir, ar ddyddiad ei chyhoeddi yn Awst 2026. Fodd bynnag, ni all SWGfL warantu ei chywirdeb, ac ni all dderbyn atebolrwydd mewn perthynas â defnyddio'r deunydd boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol a boed wedi'i addasu ai peidio. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol/proffesiynol addas os bydd unrhyw anhawster yn codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y ddeddfwriaeth newydd hon neu'n gyffredinol sy'n ymwneud ag ymddygiad neu ddisgyblaeth yn yr ysgol.

© SWGfL 2026